Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adolygiad o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr

Gan Charlie Taylor

Rhagfyr 2016

# Adolygiad o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr

Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2016

Cm 9298

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2016**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch ebost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn general.queries@justice.gsi.gov.uk.

Print ISBN 9781474134873
Gwe ISBN 9781474134880

ID 22061655 12/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pennod 1 – Rhagarweiniad | 2 |
| Pennod 2 – System cyfiawnder ieuenctid fwy datganoledig | 6 |
| Pennod 3 – Dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid | 18 |
| Pennod 4 – Plant yn y llys | 29 |
| Pennod 5 – Ysgolion diogel | 39 |
| Pennod 6 – Rôl llywodraeth ganol | 49 |
| Pennod 7 – System cyfiawnder ieuenctid newydd | 52 |
| Atodiad A – Rhestr o'r prif argymhellion | 54 |
| Diolchiadau | 60 |

# Pennod 1 – Rhagarweiniad

## Cyd-destun

1. Yn 2007, cafodd 225,000 o blant yng Nghymru a Lloegr rybuddiad neu euogfarn am drosedd hysbysadwy[1]. O blith y plant hyn, roedd 106,000 yn dod i gysylltiad â'r system am y tro cyntaf ac nid oeddent erioed wedi cael rhybuddiad nac euogfarn o'r blaen. Erlynwyd 126,000 yn y llys, a dedfrydwyd 5,800 i gyfnod yn y ddalfa. Roedd 2,909 o bobl dan 18 yn y ddalfa ar gyfartaledd bob mis yn 2007.[2]

2. Ers cyrraedd y lefel uchel honno, mae nifer y plant yr ymdrinnir â hwy gan y system cyfiawnder ieuenctid wedi gostwng yn syfrdanol, a hynny'n gyson o flwyddyn i flwyddyn. Nifer y plant a gafodd rybuddiad neu euogfarn yn 2015 oedd 47,000 - gostyngiad o 79% er 2007. Dros yr un cyfnod, mae nifer y plant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf wedi gostwng 82%, y nifer sy'n cael eu herlyn gan y llysoedd wedi gostwng 69%, ac erbyn hyn dim ond rhyw 900 o bobl ifanc dan 18 oed sydd yn y ddalfa[2].

3. Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r galw am wasanaethau cyfiawnder ieuenctid wedi newid. Mae'r heddlu a gwasanaethau troseddau ieuenctid, a hynny'n gwbl gywir, wedi bod yn ceisio delio'n fwyfwy anffurfiol â mân droseddu gan blant. Mae dargyfeirio plant nad oeddent byth yn debygol o barhau i droseddu oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid wedi golygu mai'r rhai sy'n weddill yw'r rhai mwyaf anodd eu hadsefydlu.

4. Ymhlith y plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn awr mae nifer fawr o fechgyn duon, Mwslemiaid a bechgyn gwyn o gefndir dosbarth gweithiol; mae llawer mewn gofal ac mae problemau iechyd meddwl a phroblemau iechyd eraill, ynghyd ag anawsterau dysgu, yn beth cyffredin. Yn benodol, mae mwy na'u siâr o bobl ifanc sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn y ddalfa, a dros 40% ohonynt yn dod o gefndir pobl dduon, Asiaidd neu leiafrif ethnig[2], cyfran fawr wedi bod mewn gofal yn y gorffennol (38% mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, 52% mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel)[3], a mwy na'u traean wedi cael diagnosis anhwylder iechyd meddwl[4]. Mae llawer o'r plant yn y system yn dod o rai o'r teuluoedd mwyaf camweithredol a chythryblus lle bydd camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cam-drin corfforol ac emosiynol a throseddu'n gyffredin. Yn aml, maent wedi dioddef eu hunain yn sgil troseddu. Er na ddylid defnyddio cefndir plant yn esgus dros eu hymddygiad, mae'n amlwg bod methiant y byd addysg, iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill

---

[1] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Criminal justice system statistics quarterly: Rhagfyr 2015. https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2015

[2] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth custody report: Medi 2016. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data

[3] Arolygiaeth Carchardai EM (2015) Children in Custody 2014-2015: Atodiadau. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/children-in-custody-2014-15/

[4] Harrington, R., Bailey, S., Chitsabesan, P., Kroll, L., Macdonald, W., Sneider, S., a Barrett, B. (2005). Mental health needs and effectiveness of provision for young offenders in custody and in the community. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr.

i fynd i'r afael â'r problemau hyn wedi cyfrannu at eu presenoldeb yn y system cyfiawnder ieuenctid.

5. Eto i gyd, gwelwyd bod yr ymateb traddodiadol gan y system cyfiawnder troseddol, ar ei ben ei hun, yn annigonol ar gyfer y plant hyn. Bydd 64% o'r plant y rhoddir Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid iddynt gan y llys, a 69% o'r rheini a ddedfrydir i gyfnod yn y ddalfa, yn mynd yn eu blaen i droseddu eto o fewn blwyddyn[5]. Os yw'r system cyfiawnder ieuenctid mewn gwirionedd yn awyddus i amddiffyn y cyhoedd, rhaid iddi lwyddo i newid bywydau'r plant mwyaf trwblus hyn. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i system a sefydlwyd bron ugain mlynedd yn ôl i fynd i'r afael â phroblem wahanol esblygu ac ymateb mewn ffordd ddychmygus a chymesur i heriau'r oes hon.

## Egwyddorion a nodau'r adolygiad

6. Mae'n iawn inni drin plant sy'n torri'r gyfraith yn wahanol i'r ffordd y byddwn yn ymdrin ag oedolion. Bydd plant yn gweithredu'n fyrbwyll ac yn aml iawn, ni fyddant yn sylweddoli beth fydd canlyniadau hynny; nid yw eu hemosiynau wedi datblygu ac mae'n bosibl y byddant yn cael trafferth cyfathrebu'n effeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir am gynifer o blant sy'n troseddu, a'r rheini'n aml yn dioddef o broblemau dysgu neu anawsterau lleferydd a chyfathrebu. Ond mae gan blant hefyd gryfderau mawr y gellir adeiladu arnynt ac maent yn gallu newid yn gyflym ac mewn ffordd syfrdanol. Mae angen i'r gymdeithas, gan gynnwys y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol feddwl yn wahanol am gyfiawnder ieuenctid, gan weld y plentyn yn gyntaf, a'r troseddwr yn ail. Ni ddylai troseddu olygu bod yn rhaid i rywun ildio'i hawl i blentyndod. Er mwyn i blant sy'n troseddu ddod yn oedolion llwyddiannus sy'n cadw'r gyfraith, rhaid canolbwyntio ar wella'u lles, eu hiechyd a'u haddysg - eu rhagolygon mewn bywyd - yn hytrach na dim ond eu cosbi.

7. Mae bron pob un o'r pethau sy'n achosi troseddu yn ystod plentyndod y tu hwnt i gyrraedd y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n hanfodol bod iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn ffurfio rhan o'r ymateb amlasiantaeth cyfannol i droseddu plentyn, ond byddai'n well bod yr un gwasanaethau hyn yn ymyrryd â phlant a theuluoedd agored i risg cyn i'w problemau amlygu'u hunain ar ffurf troseddu. Credaf mai'r ffordd orau o wneud hyn yw datganoli rhagor o ryddid a chyfrifoldeb dros y system cyfiawnder ieuenctid i awdurdodau lleol sydd hefyd yn statudol atebol am addysgu ac amddiffyn plant. Drwy gysoni'r cyfrifoldebau hyn, gellir creu cymhellion cryfach i fynd i'r afael yn ddi-oed â throseddu plentyn a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â hynny. Byddai modd gwneud hyn mewn ffordd gymesur ac am y gost isaf i'r trethdalwr. Er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol, rwy'n cynnig symleiddio'r rhagnodi a'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â system sy'n cael ei rheoli o'r canol, gan greu fframwaith arolygu ac atebolrwydd eglurach, er mwyn i ymarferwyr gael eu barnu ar sail eu canlyniadau yn hytrach nag ar sail y prosesau y byddant yn eu dilyn.

8. Fy marn i yw bod angen i addysg fod yn ganolog i'n hymateb i bobl ifanc sy'n troseddu. Mae gofyn i bob plentyn yn Lloegr fod mewn addysg neu hyfforddiant tan ei ben-blwydd yn 18 oed, ond yn rhy aml, bydd plant yn y system cyfiawnder

---

5 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Proven reoffending statistics quarterly: Gorffennaf 2013 tan Fehefin 2014, Tabl C1b. https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-quarterly-january-to-december-2014

ieuenctid heb fod yn yr ysgol am gyfnodau hir oherwydd triwantiaeth neu oherwydd iddynt gael eu gwahardd. Felly, mae lefelau llythrennedd neu rifedd hanner y bobl ifanc 15-17 oed mewn STI yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylid gan blentyn 7 - 11 oed. Mae ysgolion a cholegau'n hollbwysig er mwyn atal troseddu. Os bydd plant yn brysur yn ystod y dydd, yn gwneud pethau ystyrlon a fydd yn help iddynt lwyddo'n ddiweddarach yn eu hoes, boed hynny'n astudio ar gyfer arholiadau, yn ddysgu crefft neu'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu gerddoriaeth, byddant yn llawer llai tebygol o droseddu. Addysg a hyfforddiant hefyd yw'r blociau adeiladu sy'n sail ar gyfer adeiladu bywyd heb droseddu. Drwy greu cysylltiadau mwy agos rhwng ysgolion, colegau a'r gwasanaethau troseddau ieuenctid, a thrwy droi dalfeydd i bobl ifanc yn Ysgolion Diogel, gan fanteisio ar arbenigedd yr ysgolion gorau sy'n cynnig darpariaeth amgen, gellir arfogi plant â'r sgiliau, y cymwysterau a'r hyder i symud y tu hwnt i droseddu a gwireddu eu potensial. Croesewir yn benodol uchelgais newydd y llywodraeth i wneud ysgolion yn Lloegr yn gyfrifol am ddarpariaeth addysgol disgyblion sy'n cael eu gwahardd, oherwydd bydd hyn yn cynnal y cysylltiad ag addysg y brif ffrwd i rai o'r plant mwyaf trwblus. [6]

9. Wrth ddiwygio'r system cyfiawnder ieuenctid, rhaid sylweddoli mai cyfnod byr yn eu bywyd fydd troseddu i'r mwyafrif helaeth o blant. Mae'r data diweddaraf yn awgrymu na fydd 62% o'r plant sy'n cael rhybuddiad neu euogfarn yn troseddu eto o fewn 12 mis[7]. Mae aeddfedu'n golygu gwneud camgymeriadau a dysgu yn eu sgil. Mae'n iawn bod y system cyfiawnder ieuenctid yn mynd i'r afael â throseddu difrifol a mynych, ond ni ddylid ei defnyddio i wneud iawn am bob camgymeriad yn ystod plentyndod. Er mwyn ymateb yn briodol i droseddu yn ystod plentyndod, dylem bob tro fynd i'r afael â'r hyn sydd wedi achosi'r ymddygiad troseddol a gwneud iawn am y niwed i ddioddefwyr. Nid yw hyn bob tro'n golygu bod angen i'r drefn cyfiawnder troseddol ymyrryd. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol adael ei ôl ar rai plant a'i gwneud yn fwy tebygol iddynt droseddu eto[8]. Os oes modd, dylid ymdrin â mân droseddau y tu allan i'r system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol, a phan fydd gofyn i'r system honno ymateb, dylid ymdrin â phlant ar yr haen isaf posibl. Rhaid hefyd inni liniaru goblygiadau tymor hir cysylltiad ffurfiol â'r system fel nad yw'r rhain yn peri rhwystr rhag adsefydlu.

10. Roeddem yn poeni wrth weld fersiynau o'r rhaglen "Scared Straight" yn cael eu rhoi ar waith yn Lloegr, lle bydd naill ai swyddogion carchar neu garcharorion eu hunain yn ceisio cadw plant rhag troseddu drwy ddangos neu esbonio realiti bywyd yn y carchar iddynt. Mae hyn yn digwydd er gwaethaf y dystiolaeth ryngwladol bod ymyriadau o'r fath yn gallu ei gwneud yn fwy tebygol bod plant a phobl ifanc yn troseddu[9]. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth gadarn yn y Deyrnas Unedig yn syndod

---

6 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013) Analysis of Education Funding Agency administrative data, published in Transforming Youth Custody. https://www.gov.uk/government/consultations/transforming-youth-custody-putting-education-at-the-heart-of-detention

7 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Proven reoffending statistics quarterly: Gorffennaf 2013 tan Fehefin 2014, Tabl A1. https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-quarterly-july-2013-to-june-2014

8 Gweler er enghraifft: McAra, L., & McVie, S. (2007). Youth Justice? The Impact of System Contact on Patterns of Desistance from Offending. European Journal of Criminology, 4(3), 315-34. Petrosino, A., Turpin-Petrosino, C., a Guckenburg, S. (2010). Formal system processing of juveniles: Effects on delinquency. Campbell Systematic Reviews, 1, 3-80. doi:10.4073/csr.2010.1

9 Adler, J. R., Edwards, S., Scally, M., Gill, D., Puniskis, M. J., Gekoski, A., & Horvath, M. A. (2016). What works in managing young people who offend? A summary of the international evidence. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. http://eprints.mdx.ac.uk/18848/1/youth-justice-review.pdf

o brin ynghylch pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol, ond yr hyn sy'n sicr yn bwysig yw ansawdd y gweithiwr sy'n ymwneud â'r plentyn, a'r berthynas sydd rhyngddynt.9 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod un unigolyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn, sy'n ei gadw mewn cof, ac sy'n dal i fwrw ymlaen pan fydd pethau'n mynd o'u lle gan boeni am yr hyn sy'n digwydd iddo neu iddi, yn hanfodol, er mwyn helpu plentyn i newid[10].

11. Rhaid i ymateb mwy cymesur i droseddu olygu hefyd bod y llywodraeth a gwasanaethau lleol yn barod i fuddsoddi ymdrech ddwys i newid trywydd bywydau'r plant mwyaf trwblus. Bydd rhai o'r plant sy'n troseddu'n fynych neu'n ddifrifol yn dioddef o amrywiaeth o broblemau sy'n golygu bod angen i brosesau cyfiawnder troseddol allu ymaddasu i amgylchiadau unigol. Rhaid i weithwyr proffesiynol gael y rhyddid a'r hyblygrwydd i benderfynu ynghylch adsefydlu plentyn, ac i addasu'r cynlluniau hyn i gydnabod cynnydd neu i ymateb i anawsterau. Credaf y dylid cryfhau rôl y llys er mwyn i ynadon ieuenctid allu chwarae rhan fwy gweithredol o lawer wrth baratoi cynlluniau sydd wedi'u teilwra'n arbennig i blant, cydlynu asiantaethau partner a dal y plentyn, ei rieni a'r asiantaethau hyn yn atebol. Yn yr un modd, i'r plant hynny sy'n cael eu rhoi ar remand neu'n cael eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa, rhaid i bennaeth Ysgol Ddiogel gael y rhyddid i gyflogi'r staff iawn, i gomisiynu'r gwasanaethau sy'n ofynnol ac i sefydlu rhaglen weithgarwch a fydd yn cynnwys, yn cymell ac yn adsefydlu'r plant dan ei ofal. Er mwyn cyflawni hyn, ni ddylid ond rhoi plentyn yn y ddalfa pan fydd pethau wedi mynd i'r pen, a rhaid i'r rheini sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa aros yno am gyfnod ystyrlon. Rhaid rhoi digon o bwerau i weithwyr proffesiynol, ac wedyn ymddiried ynddynt i wneud y penderfyniadau iawn ynghylch y plant mwyaf heriol, er mwyn lleihau aildroseddu a thrwy hynny greu llai o ddioddefwyr.

---

10 Gweler er enghraifft: Arolygiaeth Prawf EM (2016) Desistance and Young People. http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/desistance-and-young-people/

# Pennod 2 – System cyfiawnder ieuenctid fwy datganoledig

## Creu Timau Troseddau Ieuenctid

12. Ymateb i'r ymdeimlad cynyddol nad oedd troseddu gan bobl ifanc yn cael ei drin mewn ffordd systematig ac nad oedd neb yn lleol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros blant a oedd yn troseddu oedd sefydlu'r system cyfiawnder ieuenctid yn 1998. Roedd pobl yn poeni'n benodol nad oedd yr awdurdodau'n ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol, lefel-isel a'r canfyddiad oedd mewn rhai mannau bod grwpiau o blant anystywallt yn achosi problemau difrifol yn eu cymunedau. Nod y llywodraeth oedd creu system a fyddai'n delio â throseddu gan bobl ifanc wrth ei wraidd drwy ymateb yn ddi-oed ac yn gadarn i arwyddion cynnar o ymddygiad troseddol.

13. Yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998, daeth yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) yn cynnwys aelodau'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, iechyd ac addysg. Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu ei bod yn rhaid i TTI:

    - helpu'r heddlu i gwblhau achosion y tu allan i'r llys a threfnu i oedolion priodol fod yn bresennol pan fydd plentyn yn cael ei holi gan yr heddlu;
    - darparu adroddiadau a gwybodaeth y mae'r llysoedd yn gofyn amdanynt mewn achosion troseddol yn erbyn plant a phobl ifanc;
    - goruchwylio plant a phobl ifanc sy'n bwrw dedfryd yn y gymuned; a
    - goruchwylio plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

14. Bwriad model y TTI oedd sicrhau ymagwedd fwy cyson at fynd i'r afael â throseddu gan bobl ifanc, a bod gwaith partneriaeth yn bwrw gwreiddiau drwy ddwyn ynghyd yr asiantaethau a oedd yn cael eu gweld yn gyfranwyr hanfodol at atal troseddu gan bobl ifanc. Atgyfnerthwyd sylfeini amlasiantaeth y TTI drwy ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau rheoli oruchwylio perfformiad a gweithrediad y TTI, a bod aelodau'r bwrdd yn cynnwys uwch arweinyddion y gwasanaethau partner.

15. Mae'r diwygiadau hyn wedi arwain at gynnydd mawr, ac mae'r gwasanaethau'n cydweithio'n well yn awr nag erioed o'r blaen. Cyn Deddf 1998, byddai'r heddlu a'r awdurdodau lleol weithiau'n eu gweld eu hunain ar wahanol ochrau o ran troseddau ieuenctid, ac, ar adegau, roedd hyn yn ennyn ymdeimlad o elyniaeth ac amheuaeth. Erbyn hyn, nid yw'n beth anghyffredin gweld swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol yn rhannu desg. Mae'r TTI wedi datblygu arbenigedd sylweddol dros y blynyddoedd, ac, yn anad dim, mae eu gweithlu'n barod i helpu ac i weithio ac ymgysylltu â rhai o'r plant mwyaf heriol sydd wedi'u niweidio fwyaf yn eu cymunedau. Mae egni a phenderfyniad y rheini sy'n cyflawni'r rôl hon gyda'r plant y mae gweddill y gymdeithas yn aml, gwaetha'r modd, wedi rhoi'r gorau iddynt, wedi creu argraff arnaf dro ar ôl tro.

## Esblygiad gwasanaethau troseddau ieuenctid yn y gymuned

16. Yn y blynyddoedd diwethaf mae model y TTI wedi esblygu mewn llawer ei ardal yng Nghymru a Lloegr. Efallai mai'r ddau beth mwyaf arwyddocaol sy'n gyfrifol am y datblygiad hwn yw'r gostyngiadau dramatig yn nifer y plant sydd yn y system (gostyngiad o 74% yn y llwyth achosion statudol er 2006/07) [11] a'r gostyngiadau parhaus yn y cyllid a gaiff y TTI gan awdurdodau lleol a chan y llywodraeth ganolog. Yn sgil hyn, mae awdurdodau lleol wedi cael eu gorfodi i feddwl a yw eu modelau cyflawni'n diwallu anghenion carfan fwy heriol, lai o blant sy'n troseddu, a sut y gellir darparu'r gwasanaethau hyn yn fwy effeithiol.

17. Mae'r plant y mae'r TTI yn gweithio gyda hwy erbyn hyn, ar y cyfan, yn rhai y mae eu troseddu'n adlewyrchu nifer o bethau sy'n mynd o'u lle yn eu bywydau. Yn ogystal â chyflawni troseddau, mae'r plant hyn yn aml wedi dioddef eu hunain yn sgil troseddu, ac mae llawer mewn gofal neu'n adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae llawer ohonynt yn absennol yn aml o'r ysgol a'u cyrhaeddiad addysgol yn wael; mae anawsterau dysgu a chyfathrebu'n gyffredin; ac mae iechyd meddwl ac iechyd corfforol llawer ohonynt yn wael neu maent ar y sbectrwm awtistig. Mae gofyn ystyried y plant hyn yn ofalus ac angen i nifer o bartneriaid ymateb mewn ffordd gydlynol, sy'n golygu bod creu'r cysylltiad rhwng TTI, gwasanaethau i blant, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth addysg yn fwy hanfodol byth er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd troseddu.

18. Nid oes amheuaeth nad un o gryfderau allweddol y system cyfiawnder ieuenctid yw ei bod, drwy gyfrwng y TTI wedi darparu gwasanaethau amlddisgyblaeth yn lleol i blant sy'n troseddu. Wedi dweud hynny, un o ganlyniadau anfwriadol hyn yw bod gwasanaethau eraill ar brydiau wedi camu yn ôl rhag gweithio gyda phlant sy'n ymwneud â'r TTI. Roedd yn destun pryder imi glywed gan nifer o weithwyr, bod asiantaethau eraill a oedd wedi bod yn gweithio gyda phlentyn, yn rhoi'r gorau i'w gefnogi y funud y bydd yn troseddu a'r TTI yn dechrau ymwneud â'r achos. Yn yr un modd, er bod creu TTI wedi rhoi statws i faes a oedd yn arfer cael ei esgeuluso gynt yn y system cyfiawnder troseddol a'i fod wedi rhoi hunaniaeth broffesiynol glir i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant sy'n troseddu, mae'n aml wedi golygu bod rhai TTI yn pellhau oddi wrth wasanaethau awdurdodau lleol eraill ac yn cael eu hynysu. Mae hyn wedi gadael rhai TTI mewn sefyllfa lle na allant sicrhau cyfraniadau hanfodol gwasanaethau eraill yr oedd eu cyfansoddiad amlasiantaeth i fod i'w gwarantu. Yn rhy aml, bydd drysau'n cau pan fydd TTI yn ceisio cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai neu iechyd i blentyn y mae angen ymateb iddo mewn ffordd gydlynol er mwyn ei atal rhag troseddu. Ac ystyried anghenion y plant sydd ar ôl yn y system yn awr, mae'r ymateb hwn yn annerbyniol, a rhaid iddo newid er mwyn gostwng cyfraddau aildroseddu sy'n ystyfnig o uchel.

19. Rwyf wedi fy nghalonogi o weld nifer o fodelau arloesol ar gyfer cyflawni gwasanaethau troseddau ieuenctid sy'n ceisio cryfhau'r dolenni hyn. Yn Surrey, er enghraifft, mae'r TTI wedi cael ei integreiddio'n llwyddiannus i wasanaethau ieuenctid ehangach yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu bod plentyn yn y system cyfiawnder ieuenctid yn gallu manteisio ar yr un sbectrwm eang o ddarpariaeth â phlentyn sy'n ddigartref, heb fod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant, neu sydd ag anghenion lles eraill. Mae hyn yn cynnig ymateb mwy

---

11 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth justice statistics: 2014 tan 2015, Tablau atodol, Tabl 3.7. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-annual-statistics-2014-to-2015

cynhwysfawr i blant sy'n troseddu ac yn cynnig mwy o gyfle i'w dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid ac at wasanaethau addas eraill, gan alluogi mwy o hyblygrwydd o ran dwysedd y cymorth a ddarperir ac am ba hyd. Gwelwyd dulliau tebyg yn cael eu defnyddio yn Oldham, Swydd Gaerloyw, Sir Benfro ac yn Kingston a Richmond, ond ym mhob un o'r ardaloedd hyn, roedd gwasanaethau troseddau ieuenctid a chymorth wedi cael eu prynu o'r tu allan oddi wrth gwmnïau budd cymunedol neu grwpiau eraill.

20. Yn Leeds, sydd â'r uchelgais o fod yn Ddinas Gyfeillgar i Blant, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ostwng nifer y plant yn y system gofal. Canolbwyntir, lle bynnag y bo modd, ar gadw plant gartref a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd er mwyn iddynt newid. Os bydd plant yn mynd i ofal, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r teulu er mwyn rhoi'r cymorth iddo ofalu'n ddiogel am y plentyn os bydd modd iddo/iddi ddychwelyd at y teulu. Mae staff y gwasanaeth troseddau ieuenctid yng nghartref plant diogel Adel Beck a phartneriaid ehangach wedi cydweithio'n llwyddiannus â theuluoedd, gofalwyr a chartrefi gofal yn Leeds a'r tu allan i'r ddinas. Mae'r gwaith hwnnw wedi cryfhau eu gallu i reoli ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau a sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel. Mae'r cymorth amlasiantaeth di-baid a di-fwlch hwn yn greiddiol i lwyddiant awdurdodau lleol yn cefnogi’r plant mwyaf agored i niwed, ni waeth a ydynt yn troseddu neu beidio.

21. Mae rhai awdurdodau lleol yn Lloegr wedi manteisio ar y cyfle a gynigir gan raglen Teuluoedd Trwblus y llywodraeth i ddod â gwasanaethau at ei gilydd. Mae'r cynllun hwn wedi ceisio newid profiad llawer o deuluoedd sydd wedi gweld gweithwyr proffesiynol yn dod atynt o wahanol asiantaethau, pob un yn gofyn cwestiynau tebyg ac sydd, er eu bod yn bwriadu'n dda, yn cynnig help sydd heb ei gydlynu. Mae dechrau troseddu ac absenoldeb o'r ysgol yn ddau beth sy'n sbarduno cymorth gan y rhaglen, ac mae llawer o'r TTI yn ymwneud yn ddwys â hyn, gan arwain y gwaith hyd yn oed mewn rhai meysydd. Mae'r meini prawf sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd ar gyfer cael cymorth gan y rhaglen Teuluoedd Trwblus a'r TTI yn golygu bod ymateb ar y cyd yn hanfodol.

22. Nid yw hyn yn golygu o gwbl nad oes modd addasu model y TTI yn lleol i oresgyn yr heriau hyn. Mae rhai awdurdodau lleol megis Country Durham a Chernyw wedi cadw model TTI sy'n nes at ei ffurf wreiddiol ond wedi'i gydleoli â'u gwasanaethau plant er mwyn sicrhau ymateb mwy integredig i blant agored i niwed a rhai sy'n troseddu. Yn Stockport, mae'r TTI wedi'i wasgaru drwy ganolfannau gwasanaethau plant yr awdurdod lleol, gan gadw rhai gweithwyr arbenigol canolog ar gyfer yr achosion mwyaf heriol megis troseddau rhyw. Mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr mae awdurdodau lleol wedi cyfuno'u Timau Troseddau Ieuenctid i ymateb i'r gostyngiad yn nifer y troseddwyr ifanc ac er mwyn i'w gwasanaethau gyrraedd pobl yn well a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Yn Newcastle, mae'r TTI wedi sefydlu'r Felin Sgiliau - rhaglen waith a ddatblygwyd ar y cyd â busnesau a gwasanaethau lleol sy'n helpu plant sydd wedi troseddu i arfer gweithio ac wedyn i sicrhau gwaith. Mae'r Felin Sgiliau yn awr yn sefydlu rhaglenni mewn rhannau eraill o'r wlad.

## Cryfhau'r dull amlasiantaeth

23. I'r nifer fach o blant sydd ar ôl yn y system cyfiawnder ieuenctid, mae'n amlwg i mi nad yw'r ymateb cyfyng ar hyn o bryd yn ddigon ar ei ben ei hun i'w hatal rhag troseddu. Bydd camau cydlynol gan ystod o wasanaethau'n hanfodol, nid dim ond i adsefydlu'r plant hyn, ond i drwsio a gwella'u rhagolygon mewn bywyd. Yn fy marn i,

gwasanaethau iechyd ac addysg yn aml sy'n gallu cael yr effaith fwyaf, ac rwy'n credu mai yma y gellir gwella pethau fwyaf.

### *Iechyd*

24. Mae gwasanaethau iechyd yn chwarae rôl hanfodol yn atal pobl ifanc rhag troseddu. Bydd gan lawer o blant sy'n troseddu anawsterau iechyd meddwl, ymddygiad neu ddysgu[12], ac yn aml, ni fyddant wedi cael diagnosis o'r cyflyrau hyn. Gall y problemau hyn fod wrth wraidd troseddu plentyn ac maent yn aml yn rhwystr rhag ymgysylltu neu gamu ymlaen ym myd addysg. Felly, mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r problemau hyn cyn gynted â phosibl.

25. Roedd yn siomedig iawn yn ystod yr adolygiad inni glywed bod TTI ac ysgolion wedi beirniadu'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i blant dro ar ôl tro. Maent yn dweud o hyd ei bod yn anodd cael cymorth ar gyfer y plant a'r teuluoedd hynny y mae ei angen arnynt fwyaf. Mae'r trothwyon ar gyfer ymwneud â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i bob golwg yn amhosibl o uchel mewn rhai ardaloedd, ac mae plant sy'n dangos arwyddion amlwg o drallod, o ran eu cyflwyniad a'u hymddygiad, yn methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer cael cymorth iechyd meddwl arbenigol. Yn ôl un gweithiwr TTI, "Y neges i bob golwg yw: 'Dwyt ti ddim yn ddigon sâl eto - tyrd yn ôl pan fyddi di'n wirioneddol wael ac wedyn fe wnawn ni dy drin di'". Mae model anhyblyg o driniaeth adeg diagnosis yn golygu bod llawer o blant nad ydynt yn cael yr help sydd ei angen yn ddigon buan. Yn y cyfamser, wrth gwrs, mae'r plentyn yn mynd yn fwy trallodus ac mae'n cael ei dynnu fwyfwy i gylch troseddu, gan greu rhagor o ddioddefwyr troseddau a sbarduno ymateb gan y gwasanaeth cyfiawnder yn hytrach na'r driniaeth iechyd meddwl sydd ei hangen.

26. Mae'r plant sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cael cymorth yn aml wedyn yn methu â chael gafael arno. Rhoddir apwyntiadau iddynt fynd i glinig (a all fod ymhell o'u cartref), ond byddant yn aml yn dod o deuluoedd cythryblus sy'n methu â'u helpu i fynd i'r clinig ar yr adeg iawn. Yna, bydd plant sy'n methu tri apwyntiad yn cael eu dileu oddi ar y rhestr a bydd angen iddynt fynd drwy'r broses gyfeirio ac asesu eto er mwyn cael help yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o blant sydd ag anawsterau aciwt, ac sy'n peri risg iddynt eu hunain ac i'w cymuned, yn methu â chael help. Mae'r model sy'n darparu cymorth iechyd meddwl drwy glinigau felly'n un nad yw'n gweithio i lawer o blant y mae angen y gwasanaeth arnynt fwyaf. Dylid dysgu'r gwersi yn sgil prosiectau allgymorth llwyddiannus megis y rheini a ddarperir gan MAC-UK, elusen yn Llundain i helpu plant ag anawsterau iechyd meddwl sydd heb gael cymorth llwyddiannus gan CAMHS. Yn hytrach na chael eu lleoli mewn clinig, bydd gweithwyr yn mynd allan i le mae'r plant - i'r ystadau, i barciau, i'w cartrefi - er mwyn rhoi cymorth iddynt. Y math hwn o arloesi a bod yn benderfynol o helpu'r plant mwyaf trwblus yw'r hyn sydd ei angen gan wasanaethau iechyd meddwl.

---

12 Gweler er enghraifft: Chitsabesan, P., Kroll L., Bailey S., Kenning C., MacDonald W. a Theodosiou L. (2006). Mental health needs of young offenders in custody and in the community. British Journal of Psychiatry, 188, 534-540. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth justice annual statistics: 2010 tan 2011, gweler pennod 12: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/279892/yjb-statistics-10-11.pdf

27. Yn 2015, cyhoeddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig fuddsoddiad gwerth £1.4bn i wella'r driniaeth iechyd meddwl i blant yn Lloegr. Yng Nghymru, mae llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn yr un modd, gan neilltuo cyfran o'r arian i wella'r cydlynu rhwng y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth iechyd meddwl i blant. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, ac yn Lloegr, mae'r Grwpiau Comisiynu Clinigol wedi datblygu cynlluniau trawsnewid sy'n dweud sut y defnyddir yr arian i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, yn hytrach na buddsoddi rhagor yn y gwasanaethau fel y maent ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol bod comisiynwyr a darparwyr iechyd yng Nghymru a Lloegr yn bachu ar y cyfleoedd hyn i ailfeddwl am y ffordd y darperir cymorth iechyd meddwl i blant sy'n wynebu risg ac nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt neu'n eu haeddu. Rhaid i weithwyr iechyd fod yn barod i gamu allan o'u clinigau a gweithio gyda phlant yn y gymuned, boed hynny mewn ysgolion neu yng nghartref y plentyn. Bydd hyn yn gofyn am newid mawr o ran diwylliant a bydd angen arweiniad cryf. Disgrifiodd un gweithiwr TTI sut, pan fyddai CAMHS yn gallu cael ei berswadio i ymweld â chartrefi, eu bod yn mynnu bod aelod arall o staff yn mynd gyda nhw. Mae hyn yn wahanol iawn i weithwyr cymdeithasol sy'n barod i ymweld â phawb, heblaw'r teuluoedd sy'n peri'r risg fwyaf, ar eu pen eu hunain. Rhaid i wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc hefyd gael eu hintegreiddio'n llawn i waith awdurdodau lleol gyda'u teuluoedd a'u plant mwyaf trwblus, a rhaid iddynt sicrhau pan fydd plant yn ymadael â'r ddalfa bod dilyniant go iawn yn y cymorth a roddir iddynt ar adeg pan fyddant yn arbennig o agored i niwed.

28. Mae llawer o TTI, megis yn Hackney a Blaenau Gwent a Chaerffili, wedi elwa o gael gweithwyr iechyd meddwl yn aelod o'r tîm sy'n gallu asesu a thrin plant, hyfforddi staff i ddeall anawsterau iechyd meddwl a chadw golwg amdanynt, gan gyfeirio pobl ifanc i gael triniaeth arbenigol lle bydd angen. Yn yr un modd, mae TTI wedi canmol cyfraniad therapyddion lleferydd ac iaith at eu gwasanaethau ac ystyried faint o anawsterau cyfathrebu sydd gan blant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Yn anffodus, er hynny, bydd llawer o TTI yn straffaglu i sicrhau'r cymorth iechyd sydd ei angen arnynt, ac yn ddiwahân, yn ôl ymarferwyr, gwasanaethau iechyd yw'r partner mwyaf cyndyn yn y TTI. Ac ystyried pwysigrwydd iechyd o ran mynd i'r afael â throseddu, nid yw hyn yn dderbyniol. Rhaid i ddarparwyr iechyd gydweithio rhagor â'r awdurdodau lleol i asesu lefel yr angen ac i sicrhau eu bod yn darparu digon o staff cymwys a phrofiadol i wella iechyd plant sy'n troseddu.

## *Addysg*

29. Bydd llawer o'r plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid heb gael fawr ddim cysylltiad â byd addysg[13]. Mae'n beth cyffredin bod plant sy'n mynd i drwbl gyda'r gyfraith wedi colli'r ysgol yn rheolaidd ers yn ifanc, ac wedi dechrau chwarae triwant wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae gan lawer ohonynt anawsterau dysgu ac nid oes ganddynt y sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol i lwyddo yn yr ysgol. Mae llawer wedi cael eu gwahardd yn barhaol neu dros dro. Rwyf wedi clywed yn aml am blant yn cael eu hanfon i ddarpariaeth amgen isel ei ansawdd neu'n cael eu gosod (yn anghyfreithlon) ar amserlen fyrrach am gyfnod hir. Mae nifer o blant hefyd y mae eu rhieni wedi cael eu perswadio i'w tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, a'u haddysgu, yn ôl yr honiad, gartref.

---

13 Gweler er enghraifft, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2006) Barriers to engagement in education, training and employment. Arolygiaeth Carchardai EM (2015) Children in Custody 2014-2015. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/children-in-custody-2014-15/

30. Mae'r cysylltiadau rhwng diffyg ymgysylltu â byd addysg a chyrhaeddiad isel a'r risg o droseddu yn ystod plentyndod wedi'u hen sefydlu[14]. Mae gan lawer o ysgolion cynradd a meithrin rôl hollbwysig i sicrhau bod teuluoedd yn dechrau dilyn arferion da o ran presenoldeb yn yr ysgol a sylw'n cael ei roi'n gyflym ac yn gadarn i unrhyw batrymau lle bydd plant yn absennol, drwy weithio'n uniongyrchol â'r teulu neu drwy gyfeirio'r plant at y gwasanaethau lles addysg neu ofal cymdeithasol. Mae'r bwlch rhwng presenoldeb y plant tlotaf a'u cyfoedion mwy cefnog yn rhy fawr o hyd a dylai arolygiaethau barhau i sicrhau presenoldeb yn y blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol un yn flaenoriaeth.

31. Mae'n hanfodol hefyd bod plant y mae perygl iddynt droseddu neu sy'n ymwneud â throseddu'n ymroi i addysg, hyfforddiant neu waith. Mewn rhai TTI, megis Gateshead a Gorllewin Swydd Gaer, Halton a Warrington, maent wedi canolbwyntio'n benodol ar hyn ac mae gweithwyr wedi cael eu cyflogi i gyflawni'r dasg benodol o gysylltu â darparwyr addysg er mwyn sicrhau bod lleoliad yn cael ei ganfod i bob un o'u plant. Mae canolbwyntio'n benodol fel hyn yn galluogi'r TTI i herio arweinyddion ysgolion a cholegau lle na fydd hyn yn digwydd. Mewn ardaloedd eraill, serch hynny, mae gwaith gyda'r gwasanaethau addysg yn llai amlwg o lawer ac nid oes digon o ymdrech wedi bod i ymgysylltu ag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant. Nid yw addysg yn un o ofynion y gorchymyn mewn llawer o ddedfrydau cymunedol, ac weithiau, mae diffyg hyder ymhlith staff TTI wrth iddynt weithio gyda darparwyr. Yn rhy aml, tybir nad yw plant sy'n troseddu'n gallu llwyddo ym myd addysg, hyd yn oed pan fydd y plentyn yn dangos gwir frwdfrydedd.

32. Rhaid i'r diwylliant hwn newid. Mae gwasanaethau addysg yn aelod statudol o'r TTI, ond yn aml, rhan ymylol fydd ganddynt i bob golwg yn yr ymdrechion i adsefydlu plant. Rhaid i wasanaethau troseddau ieuenctid effeithiol fod â chysylltiadau cryf ag ystod eang o ysgolion, colegau a chyflogwyr yn y gymuned, a rhaid gweld sicrhau llwybr at addysg, hyfforddiant neu waith ac ymgysylltu parhaus â'r rheini'n rhan hanfodol o'r ymateb i blant sy'n troseddu. Nid yw'n anodd deall pam mae plant nad ydynt yn gwneud dim sy'n rhoi mwynhad iddynt, dim sy'n eu cymell, na dim cynhyrchiol sy'n eu blino yn ystod y dydd, yn fwy tebygol o ddechrau ymwneud â throseddu oherwydd diflastod, diffyg hunan-gred a phwysau o du cyfoedion. Yn ogystal â bod gwasanaethau troseddau ieuenctid awdurdodau lleol yn gwneud rhagor i sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn bwrw gwreiddiau yn yr hyn y maent yn ei gynnig fel mater o drefn i'w plant, rhaid i ysgolion a cholegau ddangos mwy o arweiniad a chyfrifoldeb wrth gynnig lleoedd i blant sydd wedi troseddu.

33. Ym mhapur gwyn diweddar yr Adran Addysg *Educational Excellence Everywhere* cyhoeddwyd y bydd ysgolion yn Lloegr yn gyfrifol am gomisiynu addysg plant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol, ac y byddant hefyd yn atebol am eu canlyniadau. Bydd hyn yn disodli'r system bresennol lle bydd yr awdurdod lleol yn comisiynu lleoedd i'r plant hyn ac na fyddant yn ymddangos yn nhablau perfformiad yr ysgol sy'n eu gwahardd. Mae hyn yn creu cymhelliant posibl i ysgolion gael gwared ar eu disgyblion mwyaf trafferthus. Yn sgil y newid hwn, byddwn yn disgwyl i addysg y plant mwyaf heriol ddod yn fwy o flaenoriaeth i benaethiaid ac y bydd mwy o grwpiau o ysgolion yn dod at ei gilydd i greu darpariaeth amgen o safon i blant nad

---

14 Gweler er enghraifft, Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2005) Risk and protective factors. Farrington, D. P. (2007) Saving Children from a Life of Crime. Early risk factors and Effective Interventions. Oxford University Press.

ydynt yn gallu bod yn addysg y brif ffrwd ar y pryd. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried dilyn trefn debyg gan sicrhau bod y cyllid yn dilyn y plentyn ac ysgolion yn dal yn atebol am blant sydd wedi'u gwahardd. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn digwydd wedi bod eisoes megis Ysgol Rydd Darpariaeth Amgen Rhwydwaith Dwyrain Birmingham a sefydlwyd gan grŵp o benaethiaid a oedd yn awyddus i ddarparu addysg effeithiol i'w plant mwyaf heriol. Rwyf hefyd wedi bod yn falch iawn o glywed bod Ofsted, fel rhan o'i arolygiadau mewn ysgolion, bellach yn aml yn ymweld â phlant sydd wedi'u lleoli mewn darpariaeth amgen er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael sylw a bod ansawdd eu haddysg yn dda.

34. Dylai'r newidiadau yn Lloegr i'r trefniadau ar gyfer plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol gynnig cyfle i gynnal deialog newydd rhwng gweithwyr cyfiawnder ieuenctid ac ysgolion er mwyn sicrhau bod yr addysg iawn, a honno'n addysg o safon uchel, wedi'i theilwra'n benodol, a lle bydd angen, addysg therapiwtig yn cael ei darparu ar gyfer plant y mae perygl iddynt droseddu.

## Mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau troseddau ieuenctid

35. Drwy gydol yr adolygiad hwn, rwyf wedi disgrifio sut mae ymateb gan y gwasanaethau cyfiawnder troseddol ar ei ben ei hun yn annigonol i ddelio â phlant sy'n troseddu. Mae gan y rheini sy'n aros yn y system ystod eang o anghenion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn newid eu hymddygiad ac er mwyn iddynt gamu ymlaen i fod yn oedolion llwyddiannus. Er mwyn i'r gwasanaethau sy'n ymdrin â throseddau ieuenctid a gwasanaethau eraill ymateb mewn ffordd fwy cydlynol sydd wedi'i theilwra'n well i'r grŵp llai ond anghenus iawn hwn o blant, a gwneud hynny mewn cyfnod o heriau ariannol difrifol, credaf ei bod yn rhaid rhoi rhagor o ryddid i awdurdodau lleol arloesi a datblygu eu modelau cyflawni. Fel y dywedodd un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cynorthwyol wrthyf: "Rydych chi (y llywodraeth) wedi bod yn 'greadigol' gyda'n harian; rhaid ichi yn awr adael i ni fod yn greadigol wrth inni ei wario." Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd cyfran gynyddol o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid dan ofal y wladwriaeth ac yn ymwneud mewn ffyrdd eraill â llawer o wasanaethau awdurdodau lleol.

36. Er bod swyddogion rhai awdurdodau lleol wedi pwysleisio pa mor bwysig yw Deddf 1998 o ran mynnu bod partneriaid yn dod ynghyd i ffurfio timau amlasiantaeth, mae llawer o awdurdodau lleol yn frwd o blaid diwygio'r trefniadau presennol am eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu llyffetheirio rhag gweithredu'n greadigol ac yn uchelgeisiol gyda'r plant a'r teuluoedd mwyaf heriol, oherwydd y gofyniad statudol presennol i gael TTI. Rwyf wedi siarad ag arweinyddion llawer o awdurdodau lleol sy'n awyddus i gael y rhyddid i integreiddio'u gwasanaethau troseddau ieuenctid â'u darpariaeth i blant, teuluoedd, pobl ifanc a iechyd meddwl, ac i weithio'n wahanol gyda'r gwasanaethau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Lle bydd awdurdodau lleol yn sefydlu ymddiriedolaethau i redeg eu gwasanaethau plant, mewn ambell achos, mae'r rhain wedi ehangu i weithio gydag awdurdodau cyffiniol a hefyd wedi ysgwyddo'r gwaith o redeg gwasanaethau sy'n tanberfformio. Mae hyn wedi arwain at ffyrdd mwy hyblyg a chreadigol o helpu'r teuluoedd a'r plant mwyaf agored i niwed. Pan fydd awdurdodau lleol yn ystyried creu ymddiriedolaethau, dylent yn sicr gynnwys troseddau ieuenctid yn y trefniadau hyn.

37. Rwy'n credu y dylai'r llywodraeth fod yn glir am *yr hyn* mae'n awyddus i awdurdodau lleol ei gyflawni, ond nid am *sut* y dylent wneud hynny. Rwy'n argymell, felly, y dylai'r llywodraeth ddeddfu i ddileu'r gofyniad sydd ar awdurdodau lleol i sefydlu TTI, ac y dylid trosglwyddo'r dyletswyddau statudol sy'n berthnasol i TTI i'r awdurdodau lleol,

lle bo hynny'n briodol. Mae'n hanfodol, ac er mwyn cynnal y drefn amlasiantaeth, fod dyletswydd o hyd ar yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau iechyd ac addysg i gydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu, darparu a goruchwylio gwasanaethau integredig i blant sy'n troseddu. Mae'n bosibl y bydd rhai ardaloedd yn dewis cadw elfennau o'u model presennol, ond nad ydynt yn awyddus i weld bwriadau clodwiw Deddf 1998 - ymateb partneriaeth i droseddau ieuenctid, a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir - yn rhwystro arloesi a datblygu dulliau gweithredu mwy effeithiol, os dyma yw uchelgais partneriaid lleol. Dylai'r llywodraeth fonitro ymrwymiad parhaus gwasanaethau i droseddau ieuenctid ac, os oes angen, dylai ystyried cryfhau'r gofynion.

38. Yn sgil llacio'r rhagnodi hwn o'r canol, credaf hefyd y dylai awdurdodau lleol fod yn fwy clir ynghylch eu trefniadau cyllido a'u rhyddid cynyddol o ran gwario'r arian hwn. O gyfanswm y cyllid a roddir i TTI ledled Cymru a Lloegr, ar hyn o bryd mae tua 70% o hyn yn dod gan awdurdodau lleol a phartneriaid statudol, ac mae rhyw 30% yn dod gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy gyfrwng grant gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (BCI)[15]. Effaith y rhaniad hwn yw bod awdurdodau lleol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn penderfynu ynglŷn â'u cyfraniadau mewn ffordd ynysig ac nid yw'r TTI yn gallu paratoi cynlluniau tymor hir gydag unrhyw sicrwydd am gyllido yn y dyfodol. Mae'n golygu hefyd bod gan TTI ddwy system atebolrwydd ar gyfer rheolaeth ariannol.

39. Yn ogystal â hyn, mae'r grant a roddir i'r TTI gan y BIC wedi'i glustnodi a dim ond ar 'ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid' y ceir ei wario. Nid yw hyn yn cydweddu'n dda â system cyfiawnder ieuenctid ddiwygiedig sy'n rhoi rhagor o ryddid i awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau gweithio mwy hyblyg a chyfannol. Rwy'n argymell y dylai'r arian hwn gael ei drosglwyddo i system gyllid llywodraeth leol Lloegr wrth iddi gael ei diwygio, ac i'r cyllid a gaiff awdurdodau lleol yng Nghymru gan lywodraeth Cymru. Dylid dileu'r gofyniad i'w glustnodi sy'n mynnu ei fod yn cael ei wario mewn ffordd gyfyng ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

40. Cyflwynwyd newidiadau tebyg yn yr Alban yn 2008, ac ar y pryd, roedd rhai'n poeni y byddai arbenigedd y timau troseddau ieuenctid yn mynd ar goll neu'n cael ei lastwreiddio. Serch hynny, nid yw hyn wedi digwydd. Mewn rhai rhannau o'r wlad lle'r oedd cyfraddau'r troseddu'n isel iawn, megis Orkney a Shetland, rhoddodd yr awdurdod lleol y gorau i gynnal tîm troseddau ieuenctid ar wahân. Yng Nghaeredin, cyfunwyd y tîm troseddau ieuenctid â gwasanaeth ehangach i bobl ifanc, ac, yn ogystal â chyflawni ei swyddogaethau statudol gyda golwg ar y llysoedd a phaneli plant, mae ganddo gylch gwaith ehangach i weithio gyda phlant a theuluoedd y mae angen help arnynt. Mae'n hollbwysig nad yw'r ymyriadau'n cael eu hanelu at y plentyn yn unig, ond eu bod hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion y teulu, ac fe all y rhain barhau y tu hwnt i derfyn y gorchymyn llys. Yn hytrach na cholli arbenigedd gweithwyr TTI, mae Caeredin wedi adeiladu ar eu cryfderau a'u profiad i greu gwasanaeth mwy cydgysylltiedig sy'n debycach i'r dull Teuluoedd Trwblus yn Lloegr nag i'r TTI traddodiadol.

41. Mae dileu'r gofyniad i gael TTI a chlustnodi'r cyllid yn creu cyfleoedd i awdurdodau lleol feddwl yn greadigol am sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau statudol i

---

15 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth justice annual statistics: 2014 tan 2015, Atodiad B.2. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-annual-statistics-2014-to-2015

ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac atal aildroseddu. Mae rhai yn Lloegr eisoes yn dechrau meddwl am gyflwyno'r newidiadau hyn drwy fodelau llywodraethu newydd yr awdurdodau cyfun (rhai ohonynt dan arweiniad maer) sy'n cael eu sefydlu, a hynny'n aml gyda threfniant datganoli'n gysylltiedig â hwy. Mae'r awdurdodau cyfun yn cynnig cyfrwng i awdurdodau lleol gronni eu hadnoddau a meddwl mewn ffordd fwy dychmygus am sut maent yn helpu plant a theuluoedd sy'n wynebu risg - er enghraifft, drwy fynd ati i ar y cyd i ddarparu gwasanaethau plant drwy gyfrwng ymddiriedolaeth. Mae Manceinion Fwyaf wrthi'n cynllunio ffyrdd newydd o gydweithio rhwng y 10 bwrdeistref fetropolitaidd drwy gyfrwng swydd y maer.

42. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHT) hefyd yn chwarae rhan bwysig yn darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ac mae llawer ohonynt yn cyllido TTI i wneud gwaith ataliol. Mae hyn yn rhoi’r grym hollbwysig iddynt sbarduno gwella a dal awdurdodau lleol yn atebol. Rwy'n credu y dylai CHT fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'u dylanwad i ddwyn ynghyd yr heddlu ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno ar flaenoriaethau a bod protocolau clir, atebol ar gyfer cydweithio rhwng gwasanaethau, yn enwedig gyda golwg ar gynlluniau dargyfeirio, rhannu gwybodaeth a hyfforddi staff. Yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol ar gyfer TTI ac, am fod y cyfrifoldeb am addysg, iechyd a gwasanaethau ehangach i blant wedi'u datganoli, gallant chwarae rhan bwysig yn hybu gwaith partneriaeth cryfach rhwng y gwahanol asiantaethau hyn.

## Atebolrwydd mewn system fwy datganoledig

43. Mae TTI yn atebol i awdurdodau lleol ac i'r BCI am y ffordd y byddant yn gwario'u harian. Gan mai awdurdodau lleol sy'n buddsoddi fwyaf mewn TTI, iddynt hwy y mae'r TTI yn teimlo’n bennaf atebol, ond y BCI sy'n rhagnodi'r safonau cenedlaethol y mae'n rhaid i'r TTI eu bodloni, a'r bwrdd hwnnw sy'n gofyn iddynt gyflwyno cynllun blynyddol ac yn monitro'u perfformiad. Mae'n anochel bod rhywfaint o ddyblygu yn y ffordd y caiff TTI eu goruchwylio rhwng awdurdodau lleol a'r BCI. Roedd y lefel hon o ragnodi a rheoli canolog yn iawn pan sefydlwyd y TTI i ddechrau, ond ni chredaf fod angen hyn rhagor, ac rwy'n poeni bod perygl iddo fygu arloesi. Rwy'n cynnig y dylid rhoi'r gorau i'r rôl ganolog hon o ran rheoli perfformiad y gwasanaethau troseddau ieuenctid o ddydd i ddydd, gan gynnwys dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol orfod paratoi cynllun blynyddol, gan sefydlu rôl eglurach i'r llywodraeth hybu diwylliant o wella ac ymyrryd gan gymheiriaid mewn gwasanaethau sy'n methu (gwelerPennod 6 below).

44. Bydd plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn aml wedi cael eu hasesu gan amrywiaeth o wasanaethau eraill. Fy uchelgais yw symleiddio'r prosesau hyn i blant ac i ymarferwyr, a lleihau nifer y systemau cyfochrog sy'n cynnwys yr un wybodaeth ac nad ydynt yn rhyngweithio â'i gilydd. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried eto a ddylai awdurdodau lleol allu defnyddio'u systemau asesu eu hunain, yn hytrach na defnyddio systemau sy'n cael eu rhagnodi o'r canol, gan sicrhau ar yr un pryd bod llywodraeth ganol yn dal i allu cael gafael ar y data sydd eu hangen arni. Byddai hyn yn golygu un ffurf leol ar asesu ar gyfer pob plentyn agored i niwed, ni waeth a yw'r plentyn hwnnw'n troseddu neu beidio. Mae asesiadau a chynlluniau cyfochrog gan wahanol asiantaethau ar gyfer yr un plentyn yn golygu bod perygl o gamgyfathrebu, dyblygu a datblygu ynysoedd ar gyfer yr union blant a theuluoedd y mae angen iddynt gael ymateb di-fwlch, cydgysylltiedig. Yn y pen draw, dylai awdurdodau lleol anelu at greu system un-plentyn, un-cynllun sydd dan berchnogaeth pob partner perthnasol ac y mae pob un ohonynt yn cyfrannu ato.

45. Bydd atebolrwydd lleol ym maes troseddau ieuenctid a gwasanaethau cysylltiedig yn finiocach yn sgil fy nghynigion ar gyfer Paneli Plant a fydd yn datblygu Cynlluniau i blant a gafwyd yn euog ac yn herio asiantaethau i gyflawni eu hymrwymiadau i helpu'r plentyn i adsefydlu. Bydd y math hwn o atebolrwydd lleol, uniongyrchol, yn gallu creu newid go iawn mewn ffordd na allai goruchwyliaeth o'r canol byth ei gyflawni.

46. Mae'r trefniadau ar gyfer arolygu TTI a gwasanaethau awdurdodau lleol i blant hefyd wedi'u rhannu. Bydd Ofsted yn arolygu addysg a gwasanaethau plant yn Lloegr ac, yng Nghymru, arolygir addysg gan Estyn a gwasanaethau plant gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), ond Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (APEM) sy'n gyfrifol am arolygu TTI drwy Gymru a Lloegr. Ac ystyried bod nifer fawr o blant sy'n derbyn gofal yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac y bydd llawer mwy'n ymgysylltu â gwasanaethau awdurdodau lleol eraill, mae hyn yn golygu y bydd ffeil achos yr un plentyn yn aml yn cael sylw gan ddwy arolygiaeth wahanol a'r rheini â gwahanol ddisgwyliadau a blaenoriaethau. Nid yw hyn yn help i wasanaethau troseddau ieuenctid, nac yn effeithlon i'r arolygiaethau. Rwy'n cynnig y dylai Ofsted arolygu gwasanaethau troseddau ieuenctid awdurdodau lleol yn Lloegr, fel rhan o arolygu gwasanaethau plant ac y dylai gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghymru gael eu dal yn atebol gan Estyn ac AGGCC. Dylai'r arolygiadau hyn gynnwys cymorth gan APEM i archwilio'r trefniadau rheoli i'r plant y mae perygl iddynt gyflawni troseddau difrifol ac i asesu i ba raddau y caiff achosion eu trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion. Dylai'r cyrff hyn weithio gydag arolygiaethau iechyd - y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - i ystyried y ffordd orau o archwilio a hybu'r rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau'r awdurdodau lleol i blant drwy gyfrwng gwaith yr arolygiaethau. Fel y disgrifiaf isod (gweler Pennod 5), dylai Ofsted arwain gwaith arolygu Ysgolion Diogel yn Lloegr er mwyn gallu craffu'n well ar y cysylltiadau rhwng y ddarpariaeth yn y gymuned a'r ddarpariaeth yn y ddalfa i blant, ac effeithiolrwydd y gwaith i ailsefydlu plant ar ôl eu rhyddhau. Yng Nghymru, Estyn gyda chymorth AGGCC ddylai gyflawni'r rôl hon.

47. Dylid barnu awdurdodau lleol ar sail nifer y plant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, y nifer sydd yn y ddalfa a chyfraddau aildroseddu eu plant. Er mwyn sicrhau bod trefn integredig i arolygu gwasanaethau plant awdurdodau lleol a gwasanaethau troseddau ieuenctid yn canolbwyntio ar y pethau iawn, dylid canolbwyntio hefyd yn benodol yn y fframwaith ar:

- nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid, ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y grŵp hwn a'u canlyniadau;
- nifer y plant sy'n troseddu y mae angen iddynt gael triniaeth ar gyfer eu hiechyd, y nifer sy'n cael gafael ar y driniaeth honno, ac ansawdd, prydlondeb a chanlyniadau'r driniaeth hon;
- nifer y plant o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder ieuenctid o'u cymharu â'r boblogaeth leol a thueddiadau ym maes troseddu; a
- nifer y plant sy'n troseddu nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, a'r camau a gymerir i leihau'r nifer.

48. Lle bydd arolygiaethau wedi sylwi ar fethiannau penodol o ran darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran

Addysg archwilio opsiynau ar gyfer ymateb i bryderon yn unol â'r pwerau presennol i fynd i'r afael â thanberfformio gan adrannau gwasanaethau plant drwy hwyluso'r llwybr at gymorth gan gymheiriaid sy'n perfformio'n dda, neu fynnu bod yr awdurdod lleol yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i ymddiriedolaeth.

## Datganoli'r gyllideb a'r cyfrifoldeb am gomisiynu ar gyfer dalfeydd ieuenctid

49. Mae llawer o'r problemau sy'n rhan o'r system bresennol, yn fy marn i, yn symptomau o'r rhaniad anghyfforddus sydd rhwng cyfrifoldebau'r canol a chyfrifoldebau lleol. Yr enghraifft fwyaf trawiadol o hyn yw mai'r canol sy'n ysgwyddo cost cadw plant yn y ddalfa. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol mewn gwirionedd yn arbed arian pan fydd un o'u plant yn cael ei garcharu, yn enwedig a hwythau'n wynebu talu am leoliad drud mewn gofal. Mae hyn yn creu perygl moesol lle na fydd gan awdurdodau lleol gymhelliant o gwbl i gadw plant allan o'r ddalfa, nac yn wir i'w hailsefydlu'n effeithiol. Mae'n golygu hefyd mai ychydig o lais sydd gan awdurdodau lleol dros yr hyn sy'n digwydd i'w plant yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, ac na allant ddylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth.

50. Yn 2013, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyllido lleoedd i blant ar remand diogel i awdurdodau lleol. Y bwriad oedd rhoi mwy o gymhelliant i awdurdodau lleol ddefnyddio llai ar remand diogel a dod o hyd i lety amgen addas i blant, lle bo hynny'n briodol. Er 2013, mae defnyddio remand diogel wedi gostwng 34%[16], ond mae awdurdodau lleol wedi cwyno nad oes ganddynt ddim grym i gomisiynu lleoedd ar remand i'w plant a bod yn rhaid iddynt dalu ni waeth ymhle y cedwir y plentyn. Yn sgil hyn, mae rhai awdurdodau lleol wedi'u cael eu hunain yn ysgwyddo bil sylweddol, yn enwedig pan fydd plentyn wedi'i gadw mewn cartref diogel drud i blant am gyfnod maith.

51. Rwy'n credu mai datganoli'r gyllideb a'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer dalfeydd ieuenctid, boed y plant ar remand neu wedi'u dedfrydu, sy'n cynnig y cyfle gorau i deilwra'r gwasanaethau hyn i gydweddu â gofynion a heriau penodol mewn ardal, a sicrhau integreiddio di-fwlch ag ysgolion a gwasanaethau eraill yn y gymuned, yn ogystal â chyda theuluoedd. Pan roddir dedfryd i gadw rhywun yn y ddalfa, un ddedfryd ydyw, ond mae dwy ran iddi (cadw dan glo a goruchwyliaeth yn y gymuned) a' rheini ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan wahanol ddarparwyr sydd ag amcanion a chefndiroedd proffesiynol gwahanol iawn i'w gilydd. I'r plentyn, nid oes dilyniant yn ei berthynas â'r darparwyr hyn nac ychwaith yn y gwasanaethau a ddarperir. Yn wir, y diffyg cyswllt hwn rhwng gwasanaethau'r ddalfa a gwasanaethau yn y gymuned sy'n golygu bod ailsefydlu effeithiol yn beth mor brin, a bod aildroseddu'n aml yn anochel. Gallai datganoli'r cyfrifoldeb am ddalfeydd ieuenctid drawsnewid trefn ailsefydlu plant wrth iddynt gael eu rhyddhau a gwella'r canlyniadau o ran aildroseddu. Gyda threigl amser, gallai hefyd alluogi awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd i fynd ati mewn ffordd fwy dychmygus i ddarparu'r gwasanaethau sydd ar gael i garfan ehangach o blant agored i niwed - er enghraifft, y rheini sy'n troseddu, y rheini sydd mewn gofal a'r rheini y mae angen darpariaeth iechyd meddwl arnynt.

52. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder weithio gyda'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru i greu Ysgolion Diogel, math newydd o ddalfa i blant (gweler Pennod 5 below). Yn y

---

[16] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Criminal justice system statistics quarterly: Rhagfyr 2015. https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2015

dyfodol, pan fydd partneriaid lleol wedi datblygu'r gallu sy'n ofynnol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddatganoli'r arian mae'n ei wario ar hyn o bryd ar leoedd yn y ddalfa i'r ardaloedd lleol, i'r rhanbarthau neu i Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gomisiynu lleoedd mewn Ysgolion Diogel. Ac ystyried cyn lleied o blant sydd yn y ddalfa, byddwn yn rhagweld consortia o awdurdodau lleol yn Lloegr yn dod ynghyd, er enghraifft drwy awdurdodau cyfun, er mwyn sicrhau arbedion maint. Yng Nghymru, mae'n debygol mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai bod Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. Bydd angen trefniadau partneriaeth cryf yn yr ardaloedd i ysgwyddo'r rôl hon. Rwy'n cynnig, wrth i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder weithio gyda'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer sefydlu Ysgolion Diogel, y dylid ystyried y broses a ddilynir ar gyfer asesu gallu partneriaid i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gomisiynu lleoedd mewn Ysgolion Diogel.

# Pennod 3 – Dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid

## Tueddiadau'r rheini sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf

53. Pan grëwyd y TTI, roedd hynny ar adeg pan oedd plismona'n cael ei sbarduno gan dargedau, a nod y llywodraeth oedd cynyddu nifer y troseddau a ddygid gerbron y llysoedd. Yn sgil y targed hwn a mwy o ymddiriedaeth yng ngallu'r system cyfiawnder ieuenctid i gymryd camau effeithiol gyda phlant sy'n troseddu, gwelwyd nifer y plant a gafodd rybuddiad neu euogfarn yn codi 25% rhwng 2000/01 a 2006/07.[17]

54. Yn y gorffennol, mae'n bosibl y byddai swyddogion yr heddlu wedi ymdrin â mân ddigwyddiadau ar y stryd, neu wedi mynd â'r plant adref i gael cerydd o flaen eu rhieni, ond roedd y targedau hyn yn eu hannog i ymdrin yn ffurfiol â throseddau ieuenctid. Dywedodd un cyn heddwas sut yr oedd unwaith wedi'i alw i ysgol lle'r oedd bachgen wedi twyllo dros gant o ddisgyblion a staff i'w noddi i gymryd rhan mewn digwyddiad elusennol ffug. Cafodd pob un digwyddiad o dwyll ei gyfri'n drosedd a oedd wedi'i ddatrys ac o safbwynt targedau'r heddlu, roeddent wedi dwyn dros gant o droseddau gerbron y llysoedd.

55. Mae'n ymddangos bod effaith y targedau hyn wedi effeithio'n waeth ar blant nag ar neb arall oherwydd bod eu troseddu'n hawdd ei ganfod - mae llawer ohono'n ansoffistigedig ac yn digwydd yn llygad y cyhoedd. Yn ogystal â bod plant yn dod i gysylltiad cynyddol â'r system cyfiawnder ieuenctid, gwaethygodd y sefyllfa yn sgil y polisi tri chyfle. Roedd hyn yn golygu bod plentyn yn cael ei erlyn yn y llys am drydydd trosedd, ni waeth pa mor ddibwys oedd y trosedd hwnnw. Erbyn 2008, roedd tua 3,000 o blant yn cael eu cadw yn y ddalfa.[18]

56. Yn 2008, cafodd y llywodraeth wared ar dargedau'r heddlu ar gyfer dwyn mân droseddau gerbron y llysoedd gan sefydlu targed newydd, sef sicrhau gostyngiad o 20% yn y nifer a ddeuai i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf erbyn 2020. Llwyddwyd i gyrraedd y targed hwn o fewn blwyddyn. Mae'r ffaith iddi fod mor hawdd gwrthdroi tuedd a oedd wedi sefydlu dros flynyddoedd lawer yn sydyn yn dangos pa mor bwerus y gall mynd ar drywydd targedau fod o ran sbarduno ymddygiad. Gall hyn yn rhwydd olygu bod y budd cyhoeddus yn diflannu mewn achosion unigol. Mae'r gostyngiadau sylweddol a pharhaus yn nifer y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf ers hynny hefyd yn dangos faint o blant mewn gwirionedd a gafodd eu llusgo'n ddiangen i'r system yn ystod y cyfnod hwn.

---

[17] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2012) Youth justice annual statistics: 2010 tan 2011, Tabl 2.1.https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-annual-statistics-2010-to-2011

[18] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth custody report: Ebrill 2016. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data

## Defnyddio dargyfeirio'n fwy effeithiol

57. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall dod i gysylltiaid â'r system cyfiawnder adael ei ôl ar blant - h.y. ei fod yn eu gwneud yn fwy tebygol yn hytrach nag yn llai tebygol o aildroseddu[19]. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na bod yr ymateb gan y gwasanaeth cyfiawnder troseddol yn mynd i'r afael â'u hymddygiad wrth ei wraidd, bod plant yr ymdrinnir â hwy'n ffurfiol i bob golwg yn cael eu tynnu ymhellach i mewn i'r system. Mae'n debyg bod llawer o resymau dros hyn: gall plant gael eu labelu neu ddechrau eu gweld eu hunain yn droseddwyr; gall dod i gysylltiad â'r system ei gwneud yn llai o ddirgelwch i blant gan wanhau'r effaith ataliol; a bydd rhai'n torri'r amodau a roddir arnynt a chael eu cosbi eto'n llymach.

58. Mae cynlluniau dargyfeirio sydd wedi'u sefydlu o gwmpas y wlad rhwng yr heddlu a TTI wedi ceisio, lle bo modd, ddelio â phlant y tu allan i'r system cyfiawnder ieuenctid. Yn sicr, dyma'r ffordd iawn o fynd ati a dyma'r ffordd yr wyf yn awyddus i'w gweld yn cael ei defnyddio'n fwy cyson ac yn fwy effeithiol. Yng Nghymru, mae pob ardal yn gweithredu cynllun megis Biwro'r Ifanc, a ddatblygwyd gyntaf yn Abertawe, i ddargyfeirio troseddu lefel-isel oddi wrth y system ffurfiol cyn gynted â phosibl. Mae cydweithrediad agos rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau troseddau ieuenctid yn golygu bod modd gwneud penderfyniad ar y cyd ynghylch pa droseddwyr y gellir ymdrin â hwy'n anffurfiol a pha rai y bydd angen iddynt fynd i'r llys. Yn yr un modd, yng Nghaerdydd, mae system brysbennu ar waith lle bydd gweithwyr o Academi Cyfryngau Caerdydd, elusen leol a noddir gan y TTI, yn bresennol yng ngorsaf yr heddlu. Pan fydd plentyn yn cyfaddef iddo gyflawni trosedd lefel-isel, bydd y swyddog sy'n goruchwylio yn penderfynu a ddylid ei gyfeirio at un o weithwyr yr Academi a fydd wedyn yn cwblhau asesiad syml. Gan amlaf, cynigir cyfle i'r plentyn osgoi achos ffurfiol ac ymuno ag un o raglenni'r Academi. Wrth galon yr holl ymyriadau a gynigir, ystyrir anghenion y dioddefwr a rhoddir cyfle i'r plentyn wneud rhyw fath o iawn, a hynny'n aml drwy gyfrwng proses cyfiawnder adferol. Ychydig iawn o blant fydd yn dewis peidio â manteisio ar y cymorth anffurfiol hwn, ac mae'n bosibl cyfeirio'r rheini y gwelir yn ystod y broses asesu bod ganddynt broblemau ychwanegol at asiantaethau eraill megis iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol.

59. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd eisoes yn defnyddio cynlluniau dargyfeirio i blant sy'n troseddu, ond mae yna ystod eang o wahanol arferion ar waith drwy Loegr. Dylai pob awdurdod lleol, heddlu a gwasanaeth iechyd weithredu cynlluniau dargyfeirio ar y cyd sy'n mabwysiadu'r egwyddorion a ganlyn:

- **Cymesuredd** - ni fydd angen ymyriad bob tro ar gyfer plentyn, ond os bydd, dylai'r ymateb gan y gwasanaeth cyfiawnder troseddol fod cyn lleied ag sy'n briodol, a rhaid i'r gweithgarwch fod yn ystyrlon, yn gynhyrchiol ac yn addas i anghenion y plentyn. Rhaid i ymyriadau beidio â bod yn gosbi'n unig, er mwyn iddynt gael dylanwad go iawn. Dylai cynlluniau dargyfeirio ddarparu ar gyfer penderfyniadau ar y stryd pan fydd rhywun yn cyflawni mân drosedd cyffredin drwodd i benderfyniadau amlasiantaeth mewn achosion cymhleth;

[19] Gweler er enghraifft: McAra, L., & McVie, S. (2007). Youth Justice? The Impact of System Contact on Patterns of Desistance from Offending. European Journal of Criminology, 4(3), 315-34. Petrosino, A., Turpin-Petrosino, C., a Guckenburg, S. (2010). Formal system processing of juveniles: Effects on delinquency. Campbell Systematic Reviews, 1, 3-80. doi:10.4073/csr.2010.1

- **Sensitif i ddioddefwyr** - rhaid ystyried anghenion y dioddefwr mewn unrhyw gynllun dargyfeirio neu ymyriad, a lle bo hynny'n briodol, dylid defnyddio dull adferol. Dylid sicrhau bod y dioddefwr yn cael gwybod am benderfyniadau dargyfeirio;

- **Datganoli'r drefn benderfynu** – dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am benderfynu dargyfeirio, mewn achosion unigol, i'r lefel isaf bosibl - i swyddogion unigol ar y stryd neu'r goruchwylydd yng ngorsaf yr heddlu - sy'n golygu bod cyn lleied o gysylltiad ag sydd ei angen rhwng y plant a'r system cyfiawnder ieuenctid. Serch hynny, ni ddylid rhuthro wrth benderfynu a ddylid rhoi rhybuddiad neu gyhuddo a dylai penderfyniadau o'r fath gael eu llywio gan y wybodaeth berthnasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau iechyd;

- **Cyflymder** - rhaid i'r plentyn gael ei ddargyfeirio cyn gynted â phosibl, a hynny'n ddelfrydol y tro cyntaf y caiff ei stopio gan swyddogion yr heddlu. Dylid anelu at sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddargyfeirio ar y diwrnod y caiff ei stopio, ac os nad oes modd gwneud hyn, dylai ddigwydd o fewn 48 awr i'r plentyn ddod at sylw'r heddlu;

- **Asesiad braidd-gyffwrdd** - rhaid peidio â gadael i asesu plant arafu'r broses. Mae'n well i weithwyr proffesiynol asesu wrth fynd yn eu blaen ac addasu unrhyw ymyriad, yn hytrach na chaniatáu oedi;

- **Cael gafael ar wasanaethau eraill** - dylai'r dargyfeirio sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n rhwydd fel rhan o ymateb cyfannol i'w troseddu. Gall materion diogelu fod yn gysylltiedig â'r troseddu a dylid bob tro ystyried hyn wrth ddargyfeirio plant;

- **Arweiniad** - er mwyn dargyfeirio'n llwyddiannus, bydd gofyn cael arweiniad cydlynol cryf rhwng yr awdurdod lleol a'r heddlu er mwyn cytuno ar brotocolau a'u dilyn. Rhaid i hyn gynnwys hyfforddi pob swyddog a gweithiwr achos; a

- **Chraffu annibynnol** - dylai fod gan ynadon a barnwyr rhanbarth rôl yn craffu ar weithredu cynlluniau dargyfeirio pobl ifanc a'u goruchwylio er mwyn iddynt deimlo'n sicr bod y mathau iawn o achosion yn cael eu dargyfeirio a bod yr ymateb yn gymesur.

60. Un o'r rhesymau a gynigiwyd yn ystod yr adolygiad ynghylch y ffaith bod mwy na'u cyfran o blant a oedd yn perthyn i grwpiau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder ieuenctid yw bod tuedd i blant o'r cymunedau hyn ateb "dim sylw" pan gânt gyfweliad gan yr heddlu. Mae hyn yn golygu bod plant yn cael eu herlyn ac yn aml yn cael eu troseddoli am gyflawni trosedd, petaent wedi'i addef gynt, fwy na thebyg wedi arwain at eu dargyfeirio oddi wrth y llys. Efallai mai'r rheswm yw nad oes gan blant o'r cymunedau hyn ymddiriedaeth yn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Rhaid i'r heddlu ac awdurdodau lleol roi sylw penodol i anghenion a nodweddion plant o gefndir pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wrth gynllunio a gweithredu cynlluniau dargyfeirio, a dylent fonitro cyfraddau dargyfeirio'r grwpiau hyn oddi wrth y llys a chosbau ffurfiol o'u cymharu â phlant eraill. Rwy'n croesawu adolygiad annibynnol David Lammy AS o'r system cyfiawnder troseddol i ymchwilio i ragfarn bosibl yn erbyn diffynyddion duon a lleiafrifoedd ethnig eraill, a'r cyfle y mae hyn yn ei gynnig i ystyried y problemau hyn yn fwy manwl.

## Gwella'r ffordd y caiff plant eu trin yn nalfa'r heddlu.

61. Dylai'r heddlu weld pobl ifanc dan 18 bob amser fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail. (Mae'n galonogol bod pobl 17 oed ers ychydig bellach yn cael eu trin yr un fath â phlant 10-16 oed.) Dylai'r egwyddor hon fod wrth galon eu holl ryngweithio â phlant a dylai fwrw gwreiddiau yn eu prosesau i gyd. Yn gyson â'r egwyddor hon, dylai'r heddlu osgoi dod â phlant i orsafoedd yr heddlu os oes modd, ac ni ddylid cyfweld â phlant na'u cadw yn y dalfeydd ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Ni ddylid ond arestio a chadw plant yn nalfa'r heddlu os bydd hynny'n gwbl angenrheidiol, ac wedyn dim ond am y cyfnod byrraf posibl. Dylid bob tro ystyried trefniadau amgen megis ymweliadau â'r cartref neu'r ysgol, cyfweliadau pan fydd y plentyn yn bresennol yn wirfoddol neu roi plant ar fechnïaeth i ddod i gyfweliad sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw, cyn arestio plentyn.

62. Mae camau diogelu a gofynion pwysig yn berthnasol pan fydd plentyn yn cael ei arestio a'i ddwyn i ddalfa'r heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio oedolion priodol i fod yn gefn i blant, bod angen rhoi gwybod i rieni neu ofalwyr bod plentyn wedi'i gadw yno, cyfyngiadau ar osod plentyn mewn cell gydag oedolion, a bod angen darparu llety awdurdod lleol i blant y gwrthodir mechnïaeth yr heddlu iddynt. Rwy'n poeni nad yw'r camau gwarchod hyn bob tro’n cael eu gweithredu, nad ydynt bob tro'n cyrraedd safonau derbyniol, ac y gall sicrhau trefniadau o'r fath arwain at oedi sylweddol a phlant yn cael eu cadw'n hwy o lawer nag sydd ei angen. Yn 2015, ar gyfartaledd, cadwyd plant am bum awr a hanner yn nalfa'r heddlu, ond mewn ambell achos, cadwyd y plant am gyfnod hwy o lawer, a rhai'n cael eu cadw am fwy nag 20 awr[20]. Pan fydd plentyn wedi cael ei gadw yn y ddalfa am chwe awr, rhaid i arolygydd adolygu'r sefyllfa. Rhaid i'r broses adolygu fod yn drwyadl a herio unrhyw oedi diangen. Rwy’n cynnig na ddylid cadw plant yn hwy na chwech awr oni fydd arolygydd, oherwydd difrifoldeb a chymhlethdod yr achos, yn awdurdodi estyn y cyfnod cadw gan roi rhesymau clir dros hynny. Yn ogystal â hyn, dylai'r Swyddfa Gartref ailystyried y cyfnodau adolygu statudol ar gyfer plant a gedwir yn swyddfa'r heddlu gyda golwg ar ostwng y rhain i dair awr.

63. Rwy'n croesawu'r cam a gymerwyd gan lawer o heddluoedd i ostwng nifer y plant sy'n cael eu cadw yn y dalfeydd drwy ddefnyddio rhagor ar bresenoli gwirfoddol a chyfweliadau gartref. Mae'n bwysig, wrth gynnal cyfweliadau â phlant y tu allan i ddalfa'r heddlu, bod heddluoedd a darparwyr cynlluniau cyswllt a dargyfeirio'n ystyried sut y gellir dal i gwblhau archwiliadau sgrinio iechyd ac archwiliadau lles a diogelu eraill a bod hyn yn llywio penderfyniadau ynghylch dargyfeirio a chyhuddo.

### *Oedolion priodol*

64. Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni pob gweithdrefn sy'n berthnasol i blant yng ngŵydd oedolyn priodol a rôl hwnnw fydd gwarchod buddiannau'r plentyn yn ystod y cyfnod y caiff ei gadw gan yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y cyfweliad yn cael ei gynnal yn briodol ac yn deg, a hwyluso'r cyfathrebu â'r plentyn. Yn ôl y diffiniad, oedolyn priodol yw unigolyn cyfrifol dros 18 oed nad oes ganddo ran arall yn yr achos. Gall hyn fod yn rhiant neu'n warcheidwad neu'n un o weithwyr y TTI neu'r awdurdod lleol.

---

20 ACEM (2015) The welfare of vulnerable people in police custody. http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/wp-content/uploads/the-welfare-of-vulnerable-people-in-police-custody.pdf

65. Mae fy nhrafodaethau gydag ymarferwyr yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl yr oedolyn priodol a bod y swyddogaeth yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Rwy'n poeni bod diffyg eglurder ynghylch y trefniadau comisiynu ac atebolrwydd yn gwaethygu'r broblem hon. Mae'r TTI yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth oedolyn priodol ar gyfer pobl dan 18 oed. Weithiau, byddant yn darparu'r gwasanaeth hwn eu hunain, ond mewn rhai ardaloedd bydd gwasanaeth a gomisiynir gan y TTI yn darparu gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi neu weithwyr cyflogedig i fod yn gefn i blant drwy gydol eu cyfnod yn swyddfa'r heddlu. Serch hynny, mewn ambell ardal, nid oes gwasanaeth digonol ac mae'n rhaid gwneud trefniadau *ad hoc* bob tro y bydd plentyn yn cael ei arestio ac nad oes rhiant neu ofalwr ar gael. Gall hyn achosi oedi'n aml cyn bod oedolyn priodol yn bresennol, ac efallai na fydd yr oedolyn hwnnw wedi cael ei hyfforddi neu nad oes digon o wybodaeth neu ymwybyddiaeth gyfreithiol ganddo i gyflawni'r rôl yn effeithiol. Gall hyn arwain at ddilysu cyfweliad annheg. Rwy'n poeni hefyd nad yw rhieni'n cyflawni'r rôl hon yn dda mewn llawer o achosion Yn ogystal â methu â deall y rôl a'r broses gyfreithiol, nid yw rhai'n gefn i'w plentyn, bydd rhai'n rhoi pwysau arnynt i gyfaddef, a rhai'n corddi neu hyd yn oed yn bygwth y plentyn a swyddogion yr heddlu.

66. Rwy'n credu bod y pryderon hyn yn awgrymu bod angen rhagor o eglurdeb ynghylch rôl yr oedolyn priodol, a chysondeb yn y ffordd y darperir y gwasanaeth. Cyhoeddodd y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Oedolion Priodol set o safonau yn 2013 i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon hyn, ac, er iddynt gael eu cadarnhau gan y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd, nid yw'r cydymffurfio â'r safonau hyn yn cael eu monitro nac ychwaith yn orfodol.

67. Dylai'r Swyddfa Gartref, awdurdodau lleol, yr heddlu, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr Adran Addysg a llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i gytuno ar set gyflawn o safonau cenedlaethol gorfodol ar gyfer cynlluniau oedolion priodol a dylid cynnal arolygiadau ar sail y rhain. Dylai'r safonau hyn gynnwys:

- rôl yr oedolyn priodol, gan ei gwneud yn glir y dylai bara drwy gydol y broses gadw, nid dim ond yn ystod y cyfweliad, ac y dylid ailganolbwyntio ar les a diogelu'r plentyn yn hytrach na chadw’n gaeth at y broses gyfreithiol;

- y wybodaeth a'r cymorth a roddir i rieni neu warcheidwaid i'w helpu i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol, ac o dan ba amgylchiadau na fyddai'n briodol iddynt weithredu fel oedolion priodol;

- y disgwyliadau ynghylch amseru, gan gynnwys na ddylai'r un plentyn ddisgwyl yn hwy na dwy awr ar ôl cael ei arestio i weld ei oedolyn priodol, ac os digwydd hyn, dylid rhagdybio bod angen rhyddhau'r plentyn a threfnu cyfweliad iddo fod yn bresennol yn wirfoddol neu ar fechnïaeth gydag amser cyfweliad wedi'i drefnu ymlaen llaw;

- hyfforddiant, datblygiad a chymorth i oedolion priodol;

- cyfrifoldebau comisiynwyr gwasanaeth oedolyn priodol a'r safonau y dylent eu bodloni; a

- monitro a sicrhau ansawdd gwasanaethau oedolion priodol, gan gynnwys ystyried a allai ynadon chwarae rhan yn hyn.

68. Ar hyn o bryd, bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM) yn arolygu gwasanaethau oedolion priodol, ond ni fydd TTI, sef y rhai sy'n comisiynu'r gwasanaeth i'r rhai dan 18 oed, yn cael eu dal yn atebol am roi gwelliannau ar waith. Dylai Ofsted, AGGCC ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ystyried y ffordd fwyaf priodol o arolygu gwasanaethau oedolion priodol a datblygu fframwaith sy'n ystyried rolau'r awdurdod lleol o ran comisiynu'r gwasanaeth, a'r heddlu a'r awdurdod lleol ill dau'n gweithredu'r cynllun.

### *Gallu cael gafael ar gyngor cyfreithiol yn brydlon*

69. Mae ymchwil yn awgrymu na fydd 43% o'r plant sy'n mynd yn eu blaen i gael eu cyhuddo'n gofyn am weld cyfreithiwr ac mai'r rhai 10-13 oed sydd leiaf tebygol o ofyn am gyngor cyfreithiol a'i gael[21]. Os bydd plant yn gofyn am weld cyfreithiwr, rwyf wedi clywed bod oedi'n aml cyn iddynt gyrraedd. Ac ystyried y pwyslais ar gyfaddef fel rhagamod ar gyfer cynlluniau dargyfeirio, mae'n hanfodol bod plant yn cael cyngor cyfreithiol o safon yn ddi-oed. Rwy'n cynnig na ddylai fod gofyn i blant wneud penderfyniad ynglŷn â gweld cyfreithiwr. Yn hytrach, dylid rhagdybio bod cyfreithiwr yn cael ei alw a chyngor cyfreithiol yn cael ei ddarparu, oni fydd y plentyn yn gofyn yn benodol am beidio â chael cyngor. Dylai'r Awdurdod Rheoleiddio ystyried cyflwyno hyfforddiant gorfodol a safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfreithwyr sy'n cynghori plant yn nalfa'r heddlu. Fel sy'n wir am oedolion priodol, dylai fod rhagdybiaeth o blaid rhyddhau plentyn a threfnu cyfweliad iddo fod yn bresennol yn wirfoddol neu fechnïaeth â chyfweliad wedi'i drefnu ymlaen llaw os na all cyfreithiwr fod yn bresennol o fewn dwy awr i arestio plentyn.

### *Swyddogion yr heddlu wedi'u hyfforddi'n briodol yn nalfeydd yr heddlu*

70. Bydd rhingyll y ddalfa'n cyflawni rôl hollbwysig yn diogelu lles plant a gedwir yn nalfa'r heddlu, gan sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael iddynt, cynlluniau dargyfeirio a gwasanaethau eraill, a chan wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo a mechnïaeth. Rhingyll y ddalfa sy'n gorfod sicrhau bod plant yn cael y warchodaeth a'r cymorth y mae ganddynt yr hawl iddynt. Eto i gyd, nid oes gofyn i ringylliaid y ddalfa fod wedi cael dim hyfforddiant penodol i ddeall anghenion a nodweddion plant sy'n troseddu. Mae'n bosibl y bydd llawer o blant sydd wedi'u dychryn ac yn agored i niwed yn ymddwyn yn ymosodol, gan arwain staff dalfa'r heddlu i gasglu eu bod yn anodd yn hytrach na’u bod mewn angen. Gall hyn olygu na chaiff plant agored i niwed y cymorth sydd ei angen arnynt, ac fe all beri risg iddynt hwy ac i gyfiawnder. Rwyf hefyd wedi clywed na fydd swyddogion yr heddlu bob tro'n gwirio a yw plentyn sydd wedi'i arestio'n blentyn sy'n derbyn gofal. Mae'n hanfodol bod y sawl sy'n gyfrifol am ofalu am blant yn nalfa'r heddlu'n cael yr hyfforddiant priodol, ac rwy'n cynnig y dylai'r Coleg Plismona gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar gyfer cyflawni'r rôl hon.

71. Er mwyn diwallu anghenion penodol merched pan fyddant yn nalfa'r heddlu, dylid neilltuo swyddog benywaidd benodol i fod yn gyfrifol am les unrhyw ferch o dan 18 oed a gaiff ei harestio.

---

21 Kemp, V., Pleasence, P., & Balmer, N. J. (2011). Children, young people and requests for police station legal advice: 25 years on from PACE. Youth Justice, 11(1), 28-46.

### *Gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio*

72. Bydd llawer o blant sy'n troseddu neu'n dod i sylw'r heddlu'n gwneud hynny oherwydd bod ganddynt anawsterau dysgu, neu broblemau iechyd meddwl neu broblemau lleferydd a chyfathrebu[22]. Mae cael gweithwyr iechyd proffesiynol yn nalfeydd yr heddlu'n golygu bod modd sgrinio ar gyfer y cyflyrau hyn a chyflyrau eraill ar adeg o argyfwng ym mywyd y plentyn, ac mae hyn yn sail well ar gyfer penderfynu a ddylid dargyfeirio plentyn ynteu ei gyhuddo, ac ynglŷn ag unrhyw wasanaethau y dylid eu cyfeirio atynt. Mae'r gweithwyr hyn hefyd yn chwarae rhan yn y llysoedd, ond yn ddelfrydol, dylai anghenion iechyd gael eu gweld yn fwy cynnar o lawer yn y broses, ac yn sicr cyn penderfynu cyhuddo.

73. Mae GIG Lloegr wrthi'n lledaenu gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio yng ngorsafoedd yr heddlu a'r llysoedd ledled Lloegr. Bydd hyn yn golygu, erbyn 2020/21, a dibynnu ar gymeradwyaeth Trysorlys EM, y gellir sgrinio plentyn pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r system - fel rheol, ond nid bob tro, adeg eu harestio. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar y canlyniadau i blant. Er mwyn i'r asesiadau hyn fanteisio ar wybodaeth sydd ar gael eisoes am y plentyn a'i rhannu wedyn â sefydliadau partner, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cynlluniau cyswllt a dargyfeirio'n gallu cael gafael ar gynlluniau gofal plant a chofnodion eraill yr awdurdod lleol. Rwyf wedi clywed sut mae rhai cynlluniau cyswllt a dargyfeirio wedi goresgyn yr anhawster hwn drwy secondio gweithiwr o'r awdurdod lleol i'w tîm.

74. Er mwyn dargyfeirio plant oddi wrth gosbau ffurfiol cyfiawnder troseddol lle bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn briodol, rhaid i'r asesiadau gan staff iechyd yn sgil arestio neu ymwneud o fath arall â'r heddlu gael eu cwblhau'n ddi-oed a rhaid iddynt lywio'r penderfyniadau ynglŷn ag ymdrin â'r achos. Rhaid defnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n cael ei chadw gan awdurdodau lleol i ategu'r asesiadau hyn. Rwy'n cynnig y dylai'r heddlu, GEG, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd sefydlu protocolau lleol er mwyn i bob penderfyniad ynglŷn â chyhuddo roi sylw i'r asesiadau sgrinio iechyd a gynhelir yn nalfa'r heddlu neu yn sgil y trosedd, ac unrhyw wybodaeth berthnasol am y plentyn sydd gan yr awdurdod lleol. Dylai'r asesiadau hyn hefyd lywio penderfyniadau i ddargyfeirio plentyn, ond rhaid peidio â gadael iddynt achosi oedi neu estyn y cyfnod y cedwir plentyn yn y ddalfa.

### *Ar remand yn llety'r awdurdod lleol*

75. Rwyf wedi clywed yn aml am blant y bu'n rhaid iddynt dreulio'r nos yn un o gelloedd yr heddlu oherwydd na allai'r awdurdod lleol drefnu llety priodol i'w remandio iddo, oherwydd bod yr heddlu heb ofyn am unrhyw lety (gan ddisgwyl na fyddai dim byd ar gael) neu oherwydd bod y prawf ar gyfer remand diogel ac anniogel heb ei roi ar waith yn iawn gan yr heddlu. Mae hyn yn gwbl annerbyniol, a rhaid i'r heddlu a'r awdurdodau lleol wneud rhagor i sicrhau nad oes yn rhaid i'r un plentyn aros yn nalfa'r heddlu dros nos oherwydd nad yw'r ddyletswydd statudol hon wedi'i chyflawni. Felly, rwy'n croesawu'r gwaith mae'r Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg

---

[22] Gweler er enghraifft: Chitsabesan, P., Kroll L., Bailey S., Kenning C., MacDonald W. a Theodosiou L. (2006). Mental health needs of young offenders in custody and in the community. British Journal of Psychiatry, 188, 534-540. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth justice annual statistics: 2010 tan 2011, gweler pennod 12: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/279892/yjb-statistics-10-11.pdf

ac eraill yn ei wneud i sefydlu concordat yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol a'r heddlu a'u cyfrifoldeb i atal cadw plant yng ngorsafoedd yr heddlu ar ôl eu cyhuddo. Mae protocol tebyg wedi'i ddatblygu yng Nghymru gan lywodraeth Cymru, yr heddlu, awdurdodau lleol a BCI Cymru. Dylid ystyried ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gofnodi gwybodaeth am y ceisiadau y byddant yn eu gwneud i awdurdodau lleol am lety er mwyn gallu gweithredu ar dystiolaeth nad yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol

## Sicrhau bod llai o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu troseddoli

76. Mae mwy na'u cyfran o blant sy'n derbyn gofal gan y wlad yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae plant sy'n derbyn gofal bum gwaith yn fwy tebygol o gael rhybuddiad neu euogfarn na phlant y boblogaeth yn gyffredinol[23] Er bod llawer o'r ffactorau sy'n arwain at blant yn cael eu derbyn i ofal hefyd yn gysylltiedig â throseddu, mae'n debygol bod y ffordd y bydd cartrefi gofal a'r heddlu'n ymateb i fân droseddu gan y grŵp hwn yn cyfrannu at y ffaith eu bod yn cael eu gorgynrychioli.[24]

77. Er na fydd data'n cael eu casglu nac adroddiadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd, derbynnir ers blynyddoedd lawer fod plant mewn cartrefi gofal yn fwy tebygol o ddod i sylw'r heddlu oherwydd digwyddiadau y byddai rhieni yng nghartref y teulu'n ymdrin â hwy fel arall. Yn rhy aml, bydd staff cartrefi gofal yn galw'r heddlu i ddatrys digwyddiadau nad ydynt yn haeddu cael ymateb ffurfiol dan y drefn cyfiawnder troseddol. Mewn rhai ardaloedd, megis Surrey, Sussex a Wrecsam, mae gweithwyr cartrefi gofal hyfforddedig ar gael i reoli ymddygiad yn fwy effeithiol, gan ddefnyddio dulliau adferol yn aml i ddatrys digwyddiadau'n anffurfiol, ac mae ganddynt brotocolau ar waith ar gyfer pa bryd mae'n iawn i alw'r heddlu. Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod staff cartrefi gofal wedi'u hyfforddi'n briodol i ddatrys mân ddigwyddiadau heb orfod mynd at yr heddlu, a dylid sefydlu protocolau gyda'r heddluoedd i gytuno ar ddull cymesur o ymdrin â throseddu mewn cartrefi gofal. At hynny, pan fydd Ofsted ac AGGCC yn arolygu cartrefi gofal, dylent archwilio sawl gwaith y galwyd yr heddlu a'r rhesymau dros y galwadau hynny.

78. Pan fydd yr heddlu'n cael eu galw i ymdrin â digwyddiadau o'r fath, rwy'n poeni bod y gofyniad i gofnodi trosedd (pan fydd trosedd wedi'i gyflawni) yn rhoi cychwyn ar brosesau sy'n arwain yn rhy aml at gamau ffurfiol. Er nad yw targedau'r llywodraeth yn bodoli rhagor ar gyfer canfod troseddau, mae'r diwylliant a gafodd ei feithrin yn sgil hyn yn dal i fod ar waith mewn rhai heddluoedd ac ymhlith rhai o'r staff. Hyd yn oed pan fydd digwyddiad yn cael ei gofnodi ar systemau'r heddlu yn hytrach nag fel trosedd, gall y wybodaeth hon ddatgelu pwy yw'r plentyn ac fe allai fod ar gael i gyflogwr yn y dyfodol fel rhan o ddatgeliad manylach.

79. Yn 2008, cytunwyd ar brotocol rhwng yr Adran Addysg, y Swyddfa Gartref a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu erbyn hyn) sy'n caniatáu i'r heddlu ymdrin â mân ddigwyddiadau yng

---

23 Yr Adran Addysg (2015) Children looked after in England (including adoption and care leavers), year ending 31 March 2015: additional tables. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/483718/SFR34_2015_Text_AdditionalTables.pdf

24 Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin (2013) Youth Justice: Seventh Report of Session 2012-13. http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmselect/cmjust/339/339.pdf

nghyswllt plant, er eu bod yn droseddau hysbysadwy, heb orfod cofnodi trosedd. Mae'n bosibl dewis gwneud hyn gyhyd a bod y dioddefwr (neu'r oedolyn priodol os yw'r dioddefwr yn blentyn) yn fodlon bod yr ysgol yn ymdrin â'r peth yn fewnol. Datblygwyd y protocol ar adeg pan ddisgwylid y byddai gan lawer o ysgolion swyddogion yr heddlu'n gysylltiedig â hwy fel mater o drefn, a chan sylweddoli y byddai'r swyddogion hyn yn anochel yn dod yn ymwybodol bod plant ysgol yn ymddwyn mewn ffordd sy'n drosedd yn ei hanfod - er enghraifft, mân ddwyn, ymgiprys ac ymladd - ond y gallai ei gwneud yn ofynnol i swyddog gofnodi trosedd ffurfiol arwain at droseddoli'r plentyn. Mae protocol yr ysgolion wedi'i ddiwygio'n ddiweddar i gyfyngu ar y troseddau y gellir dewis eu cofnodi neu beidio i achosion mwy dibwys o ddwyn, difrod troseddol ac ymosod. Er bod tebygrwydd amlwg rhwng ysgolion a chartrefi plant, a'r ffaith bod plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o fod â phroblemau ymddygiad na'r rheini sydd yn addysg y brif ffrwd, nid oes protocol cyfatebol ar gael ar gyfer cartrefi plant. Felly, pan fydd yr heddlu'n cael eu galw i gartrefi plant, bydd gofyn iddynt gofnodi'r mater yn drosedd neu'n ddigwyddiad, ac fe all hyn arwain at ganlyniadau.

80. Er mwyn rhoi rhagor o rym i'r heddlu benderfynu, yn 2013, fe ddisodlwyd yr hen drefn ganfyddiadau ar gyfer troseddau a gofnodwyd â fframwaith o ganlyniadau y gellir eu rhoi ar waith ym mhob achos, gan gynnwys y rheini lle na chymerir camau ffurfiol. Yn fwy diweddar, mae hyn wedi cael ei estyn, yn rhannol er mwyn ymateb i'r risg gynyddol y gall plant yn y boblogaeth gyffredinol gael eu troseddoli yn sgil gwneud neu rannu delweddau anllad ("secstio"). Gall hyn ganiatáu i'r heddlu ddynodi troseddau cofnodedig lle na fyddant yn meddwl y byddai cymryd camau er lles gorau'r sawl sydd dan sylw i gymryd camau ac eithrio unrhyw gamau diogelu angenrheidiol, a lle na ddylid ond datgelu wedyn o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. Dylid dilyn trefn o'r fath wrth ymdrin â mân droseddu mewn cartrefi plant.

81. Dylai'r Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu gydweithio i sicrhau bod swyddogion yr heddlu'n gallu dibynnu'n llwyr ar eu crebwyll wrth ymateb i ddigwyddiadau a throseddau mewn cartrefi plant, a bod rhagdybiaeth na ddylid cymryd camau ffurfiol drwy'r drefn cyfiawnder troseddol oni fydd yr achos mor ddifrifol bod hyn yn gwbl angenrheidiol. Dylai hyn gynnwys ystyried mabwysiadu protocol yr ysgolion gyda golwg ar fân droseddau a gyflawnir mewn cartrefi plant. Ni ddylai'r angen i gofnodi a monitro gweithgarwch yr heddlu, megis galw'r heddlu i gartrefi plant, arwain at ddatgelu gwybodaeth bersonol am blentyn wedyn.

## Diwygio'r system cofnodion troseddol i blant

82. Bydd y rhan fwyaf helaeth o blant yn gadael eu troseddu ar eu hôl wrth aeddfedu[25], felly, mae'n bwysig bod y ffordd y cedwir ac y datgelir gwybodaeth am droseddu yn ystod plentyndod yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng eu helpu i ailintegreiddio ac adsefydlu, a gwarchod y cyhoedd a chyflogwyr rhag risg. Rwy'n credu y dylai'r system cofnodion troseddol yng Nghymru a Lloegr fod yn fwy sensitif i'r ffaith mai am gyfnod yn unig y bydd llawer o blant yn troseddu, ac mai ychydig iawn o risg

25 Gweler er enghraifft, Farrington D 1986. Age and crime, in Tonry M a Morris N (eds), Crime and justice: An annual review of research. Chicago: University of Chicago Press: 189–250. Farrington, D.P., Coid, J.W, Harnett, L., Jolliffe, D., Soteriou, N., Turner R.E. a WestHome, D.J (2006) Criminal careers up to age 50 and life success up to age 48: new findings from the Cambridge Study in Delinquent Development. Y Swyddfa Gartref.

sydd i'r rhan fwyaf o'r troseddau a gyflawnir yn ystod plentyndod droi'n droseddu yn y dyfodol.

83. Mae llawer o awdurdodaethau wedi datblygu neu wedi diwygio'u systemau cofnodion troseddol i gydnabod bod gorymateb i risg troseddu yn ystod plentyndod, ynghyd â'r ffaith bod modd datgelu cofnodion am flynyddoedd lawer wedyn, yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl ifanc ac oedolion ddod o hyd i swydd. Mae hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn debygol y byddant yn parhau i droseddu. Yn yr Unol Daleithiau, cymerwyd camau i leihau effeithiau negyddol cael cofnod troseddol, yn enwedig oherwydd yr effaith anghymesur y mae hyn wedi'i chael ar ragolygon bywyd dynion ifanc du. Yn ddiweddar, mae Texas a Kentucky wedi mabwysiadu systemau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r her hon.

84. Mae rhai newidiadau er gwell wedi'u cyflwyno i'r drefn cofnodion troseddol yng Nghymru a Lloegr yn y blynyddoedd diwethaf. Cwtogwyd llawer o'r cyfnodau darfod ar gyfer euogfarnau, tynhawyd yr amgylchiadau lle y ceir datgelu cudd-wybodaeth yr heddlu , a rhoddir tystysgrifau cofnodion troseddol bellach i ymgeiswyr am swyddi cyn eu rhoi i gyflogwyr, Mae hyn yn rhoi cyfle i unigolion wrthwynebu datgelu unrhyw wybodaeth os byddant yn credu na ddylid gwneud hynny. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd system 'hidlo' yn 2013, er mwyn atal hen a mân rybyddiadau ac euogfarnau a oedd wedi darfod rhag cael eu datgelu i gyflogwyr. Cyn hyn, byddent wedi gallu cael gafael ar y wybodaeth hon. Serch hynny, mae cofnod troseddol yn ystod plentyndod yn dal i allu cael effaith bellgyrhaeddol sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r ddedfryd neu'r datrysiad gwreiddiol. Bydd rhai dedfrydau byth yn darfod, a bydd rhai euogfarnau a rhybuddiadau bob tro'n cael eu datgelu pan fydd unigolyn yn gwneud cais am swydd mewn maes penodol.

85. Un o'r prif egwyddorion sy'n sail i'm hadolygiad yw y dylid ymdrin â phlant sy'n torri'r gyfraith yn wahanol i'r ffordd yr ymdrinnir ag oedolion. Yn fy marn i, mae'r system cofnodion troseddol bresennol yn ddiffygiol am nad yw'n mynd ati i ymdrin â throseddu yn ystod plentyndod mewn ffordd wahanol ac ystyriol. Er bod euogfarnau a gaiff plentyn yn darfod ac y gellir eu hidlo'n gynharach nag y gellir hidlo euogfarnau oedolion, nid yw hyn mewn gwirionedd yn dangos bod plant yn cael eu trin yn wahanol. Rwy'n cynnig y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ddatblygu ffordd wahanol o ymdrin â throseddu yn ystod plentyndod yn y system cofnodion troseddol.

86. Bydd ceisio barnu faint o risg sydd i rywun yn ei arddegau droseddu yn y dyfodol ar sail troseddu cymharol ddiweddar hyd yn oed, yn aml yn anymarferol, yn enwedig pan fydd y troseddu'n symptom o argyfwng ym mywyd y plentyn. Mae'n ymddangos i mi bod datgelu troseddu o'r fath yn llawer mwy tebygol o wneud mwy o ddrwg nag o les. Yn yr un modd, rhaid cydnabod bod aeddfedrwydd plentyn 12 oed yn wahanol iawn i aeddfedrwydd rhywun 17 oed, ac felly, dylai'r goblygiadau i'r naill a'r llall yn sgil cyflawni'r un trosedd fod yn wahanol. Rwy'n credu y dylid ystyried gwahaniaethu rhwng plant dan 16 oed a'r rhai 15-17 oed o ran goblygiadau cadw a datgelu gwybodaeth am droseddu.

87. Mewn egwyddor, credaf y dylai'r cyfnodau adsefydlu ar gyfer troseddu yn ystod plentyndod fod yn fyrrach o lawer nag ar gyfer oedolion sy'n troseddu. Bydd fy nghynigion i ddisodli dedfrydau presennol y llysoedd â Chynlluniau wedi'u teilwra'n arbennig a ddatblygir gan Baneli Plant (gwelerPennod 4) yn golygu bod angen newid y ddeddfwriaeth berthnasol. Credaf y dylai'r llywodraeth fanteisio ar y cyfle i hwn i gwtogi’r cyfnodau darfod eto ar gyfer euogfarnau plant.

88. Credaf hefyd, ar ôl i rybuddiadau ac euogfarnau plant ddarfod, y dylent ddod yn fuan iawn yn rhai y gwaherddir eu datgelu, hyd yn oed ar wiriadau safonol a manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn fy marn i, dylai'r system sicrhau y gwaherddir datgelu'r holl droseddau a gyflawnir yn ystod plentyndod (ac eithrio'r troseddau mwyaf difrifol) ar ôl cyfnod. Ni fyddai hyn yn atal y heddlu a'r llysoedd rhag cael gafael ar y wybodaeth yn y dyfodol, ond byddai'n gwarchod rhag datgelu gwybodaeth amherthnasol am droseddu am yn ystod plentyndod, hyd yn oed os cyflawnir trosedd arall ar ôl i'r cyfnod cymhwyso ddod i ben.

89. Yn olaf, credaf y dylid cyfyngu eto ar yr amgylchiadau lle y gellir datgelu cudd-wybodaeth yr heddlu am ymddygiad yn ystod plentyndod. Yn fy marn i, mae risg sylweddol i gudd-wybodaeth a gesglir gan yr heddlu at un diben (i'w helpu i atal a chanfod troseddau) gael ei datgelu i ddarpar gyflogwr a'i defnyddio at ddiben cwbl wahanol (i asesu addasrwydd ar gyfer swydd ac unrhyw risg i'r cyflogwr). Rwy'n argymell y dylai'r Swyddfa Gartref ystyried cyflwyno rhagdybiaeth na ddylid datgelu cudd-wybodaeth yr heddlu sy'n deillio o gyfnod plentyndod ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

# Pennod 4 – Plant yn y llys

## Heriau ymdrin â phlant yn y llysoedd troseddol

90. Yn y Llys Ieuenctid y gwrandewir y rhan fwyaf helaeth o erlyniadau troseddol plant. Llys ynadon wedi'i addasu yw hwn er mwyn iddo fod yn llai ffurfiol: bydd modd i bob parti eistedd ar yr un lefel; gall y plentyn gael rhiant neu ofalwr yn eistedd wrth ei ymyl; mae'r ynadon a'r barnwyr wedi'u hyfforddi'n arbennig ac fe ddisgwylir iddynt ddefnyddio iaith symlach; mae'r llys ar gau i'r cyhoedd a bydd cyfyngiadau awtomatig ar adrodd ar waith. Er mwyn gwrando rhagor o achosion ieuenctid yn yr amgylchedd hwn, mae gan y Llys Ieuenctid fwy o bwerau dedfrydu na'r llys ynadon i oedolion - gall orfodi Gorchymyn Cadw a Hyfforddi am hyd at 24 mis o'i gymharu â'r terfyn o chwe mis o garchar yn y llys ynadon i oedolion - felly bydd yn gwrando achosion mwy difrifol a chymhleth. Dim ond cyfran fach o achosion ieuenctid fydd yn dod gerbron y llys ynadon i oedolion neu Lys y Goron[26]. Mae fframwaith dedfrydu ar wahân hefyd i'r rhai dan 18 oed.

91. Er gwaethaf yr addasiadau hyn ac ymdrechion gorau ynadon a barnwyr, mae'n amlwg bod y llysoedd heb eu bwriadu i sicrhau cyfranogaeth lawn gan blant yn yr achos troseddol. Yn y bôn, bydd plant yn wynebu'r un prosesau a gweithdrefnau ag sy'n berthnasol i oedolion sy'n ddiffynyddion ond bod y rheini wedi'u haddasu. Yn rhy aml, bydd plant yn cael eu hallgáu pan ddefnyddir dadleuon cyfreithiol dyrys a therminoleg hynafol, ac ni fydd pob ynad yn gwneud digon i esbonio'r hyn sy'n digwydd mewn iaith y gall plant ei deall. Bydd y llysoedd yn aml yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd mawr ac nid yw'r pellter sylweddol rhwng y gwahanol bartïon yn hwyluso cyfathrebu effeithiol. Mae hynny'n aml oherwydd bod yn rhaid i bobl godi eu llais er mwyn cael eu clywed. Anogir plant i gyfarch y Llys Ieuenctid, ond gofynnir iddynt wneud hynny mewn amgylchedd sy'n gwbl ddieithr i unrhyw sefyllfa arall lle y gall fod gofyn iddynt siarad. Yn aml iawn, pan fydd plant yn ymadael â'r llys, byddant wedi'u drysu ynglŷn â'r canlyniad a rhaid i un o weithwyr y TTI esbonio'u dedfryd iddynt. Mae'r problemau hyn i gyd yn waeth pan wrandewir achosion yn Llys y Goron neu yn y llysoedd ynadon i oedolion lle nad oes modd gwneud cynifer o addasiadau ar gyfer plant.

92. Ymdriniwyd â rhyw 40,000 o blant yn y llysoedd troseddol yn 2015 - gostyngiad o 69% er 2007. Wrth i nifer y plant sy'n ymddangos yn y llys ostwng, bydd ynadon a barnwyr rhanbarth sydd wedi'u hyfforddi i ymdrin â phobl ifanc yn gwrando llai o'r achosion hyn. Felly, maent yn ei chael yn anos cadw a datblygu eu harbenigedd. Mae'r niferoedd bach hefyd yn creu anawsterau o ran sicrhau bod cynrychiolaeth gyfreithiol o safon ar gael. Yn ystod yr adolygiad, clywais droeon gan ynadon, barnwyr rhanbarth a chyfreithwyr, fod ansawdd y gynrychiolaeth gyfreithiol yn y Llys Ieuenctid yn aml yn wael iawn. Bydd y Llys Ieuenctid yn gwrando achosion mwy difrifol nag y bydd y llys ynadon i oedolion oherwydd bod ganddo bwerau dedfrydu cryfach. Eto i gyd, mae'r ffioedd ymddangos i gyfreithwyr yn y Llys Ieuenctid yn debyg i'r rheini yn y llys ynadon i oedolion (a ddim ond dedfrydu pobl i chwe mis yn y ddalfa y gall y rhain). Nid yw hyn yn deg oherwydd ei fod yn golygu y bydd plant yn

---

[26] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Criminal justice system statistics quarterly: Rhagfyr 2015. https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2015

aml yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol o safon is, yn nwylo bargyfreithwyr neu gyfreithwyr iau dibrofiad, nag y bydd achosion cyfatebol yn Llys y Goron. Er enghraifft, byddai adfocad yn cael rhyw £500 am dreial lladrad dau ddiwrnod yn y Llys Ieuenctid o'i gymharu a £1,600 petai'r troseddwr yn oedolyn ac yn cael treial yn Llys y Goron.

93. Sylweddolais pa mor gymhleth yw amgylchiadau llawer o achosion plant, a'r anawsterau dwys sy'n wynebu'r llys wrth geisio cael y plentyn i gymryd rhan yn y broses a gorfodi dedfryd effeithiol, pan fûm yn dyst i achos yn y Llys Ieuenctid lle'r oedd merch 14 oed wedi treulio'r nos yn nalfa'r heddlu oherwydd iddi dorri'r cyrffyw ar ei thag electronig a hynny am fod 17 munud yn hwyr. Roedd yn adnabyddus iawn i'r heddlu a'r TTI ac roedd yn byw ar y pryd mewn cartref gofal ar ôl cyfres o leoliadau a oedd wedi methu. Daethpwyd â hi gerbron y llys am dorri'r cyrffyw ac am ddau drosedd arall. Roedd un o'r rhain yn cynnwys dau ddiffynnydd arall (ill dau yn y system gofal ac â threialon eraill ar y gweill). Roedd y llys yn gallu penderfynu a oedd y ferch yn euog ynteu'n ddiniwed gyda golwg ar bob un o'r troseddau, ond nid oedd yn gallu gorfodi dedfryd a fyddai'n dechrau mynd i'r afael â her enfawr a chymhleth o helpu'r ferch hon i gael ei bywyd yn ôl ar y trywydd iawn a rhoi'r gorau i droseddu.

94. Un o nodau'r system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu, ond nid yw'r llysoedd troseddol wedi'u harfogi i adnabod a rhoi sylw i'r materion sy'n cyfrannu at droseddu gan bobl ifanc ac yn achosi iddynt barhau i droseddu am gyfnod hwy. Mae cyfran fawr o'r bobl ifanc sy'n ymddangos yn y llys yn troseddu dro ar ôl tro, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt broblemau lles difrifol. Mae llawer ohonynt yn ddioddefwyr eu hunain neu mae perygl iddynt gael niwed; llawer ohonynt wedi bod mewn gofal, neu'n dod o deuluoedd cythryblus; ac mae gan lawer ohonynt anawsterau dysgu neu anghenion iechyd. Eto i gyd, nid oes gan y llysoedd na'r amser na'r modd i gyfarwyddo a goruchwylio'r gwaith hanfodol y mae angen ei wneud i helpu'r plant hyn i chwalu cylch troseddu. Yn yr un modd, nid yw'r opsiynau dedfrydu'n ddigon hyblyg a thrwyadl i ymateb i anghenion cymhleth plant sy'n troseddu, a'r rheini'n anghenion sy'n newid o hyd.

95. Bydd ynadon yn dweud yn aml eu bod yn gorfodi dedfryd heb wir ddeall anghenion y plentyn, ac mai anaml y byddant yn gwybod a yw'r ddedfryd wedi bod yn effeithiol neu beidio. Mae'n bosibl y bydd y fainc yn clywed am doramodau neu droseddu pellach, ond dim ond os digwydd i un ohonynt fod yn eistedd ar y diwrnod pan fydd y plentyn hwnnw'n cael ei ddwyn yn ôl gerbron y llys. Ychydig o gyfle sydd i'r llysoedd reoli dedfryd plentyn a mynd ati'n frwd i'w adsefydlu, i wobrwyo llwyddiant neu i ddiwygio telerau'r ddedfryd os na fydd y plentyn yn ymateb, neu i ddal asiantaethau'n atebol am ddarparu'r cymorth angenrheidiol.

96. Mae'r rôl gyfyngedig iawn hon i'r llys yn groes i'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodaethau eraill lle yr ystyrir goruchwyliaeth farnwrol yn rhan hanfodol o sicrhau bod dedfrydau'n ymatebol ac yn effeithiol. Yn Sbaen, bydd barnwyr y llys ieuenctid yn monitro cynnydd y plant y maent wedi'u dedfrydu, gan gynnwys ymweld â hwy a gweld sut maent yn dod yn eu blaen yn y ddalfa. Maent hefyd yn gallu amrywio telerau'r ddedfryd, a dibynnu ar gynnydd y plentyn a'i anghenion penodol. Yn yr un modd, pan fydd plentyn o dan 16 oed yn yr Alban yn cyfaddef i drosedd neu pan fydd llys y Siryf yn ei gael yn euog, caiff ei gyfeirio at y System Gwrandawiadau Plant. Mae'r gwrandawiadau'n cynnwys panel o dri o bobl leyg a'r rheini wedi'u hyfforddi i ymchwilio i achosion troseddu'r plentyn ac unrhyw anawsterau eraill. Gwneir hyn ar y cyd â gwasanaethau eraill megis gofal

cymdeithasol a chyda rhieni neu ofalwyr y plentyn. Ar ddiwedd y gwrandawiad, gwneir penderfyniadau ynglŷn â'r camau y dylid eu cymryd, megis goruchwyliaeth orfodol neu gyfnod yn y ddalfa. Bydd y panel yn nodi'n glir yr hyn y bydd pob parti yn ei wneud i helpu i newid pethau. Bydd y camau hyn yn cael eu hadolygu gan y panel a gaiff amrywio cyfnod y ddedfryd a'r telerau os bydd angen.

97. Un o ganlyniadau anallu'r llysoedd i chwarae rhan barhaus yn adsefydlu plentyn yw bod ynadon a barnwyr yn ei ddedfrydu i gyfnod byr yn y ddalfa. Ni ddylid rhoi plant yn y ddalfa nes bod pethau wedi mynd i'r pen, ond bydd y drefn hon yn cael ei defnyddio'n aml oherwydd bod pob opsiwn dedfrydu arall wedi'i ddihysbyddu yn hytrach nag oherwydd bod rhywun yn haeddu ei garcharu ar unwaith oherwydd difrifoldeb y trosedd. Yn 2015, dedfrydwyd tua 1,000 o blant i gyfnod rhwng dau a phum mis yn y ddalfa fel rhan o Orchymyn Cadw a Hyfforddi[27]. (Treulir hanner y ddedfryd yn y ddalfa a hanner dan oruchwyliaeth TTI yn y gymuned.) Mae'r dedfrydau byr hyn yn y ddalfa'n aml yn torri'r cysylltiadau hollbwysig â'r teulu, addysg a gwasanaethau cymorth, ac nid ydynt yn cynnig fawr o gyfle i sefydliadau diogel fynd i'r afael â phroblemau'r plentyn. Bydd plant yn methu â setlo yn y ddarpariaeth ddiogel ac ni fyddant yn teimlo'i bod yn werth iddynt fuddsoddi yn y drefn neu feithrin perthynas ag aelodau o'r staff a fyddai'n help iddynt gamu ymlaen. I blant sy'n derbyn gofal, yn ystod y cyfnodau byr hyn yn y ddalfa, byddant yn ail-fyw'r profiad a gawsant o leoliadau dros dro mewn gofal maeth neu gartrefi plant. Nid yw'n syndod felly mai cyfraddau aildroseddu plant sy'n cael eu rhyddhau o ddedfrydau byr yn y ddalfa yw'r uchaf o blith unrhyw garfan: 80% i'r rheini sy'n bwrw dedfryd lai na chwe mis, a 73% ar gyfer y rheini sy'n bwrw dedfryd rhwng chwech a 12 mis[28]. Fy marn i yw bod dedfrydau byr yn y ddalfa i blant yn aneffeithiol, yn gostus ac yn rhwystr rhag eu hadsefydlu. Os oes rhaid dedfrydu plant i gyfnod yn y ddalfa, dylai fod am gyfnod sy'n cynnig siawns realistig o newid eu hymddygiad, gwella'u hiechyd meddwl a chorfforol, a chodi eu cyrhaeddiad addysgol.

## Rôl gryfach i'r llysoedd yn adsefydlu plant

98. Mae angen i'r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr wneud rhagor i deilwra'r ffordd y maent yn gweithredu i ymateb i anghenion plant. Yn rhy aml, bydd plant yn derbyn cyfiawnder mewn ffordd oddefol heb ddeall y broses y maent wedi bod drwyddi. Hefyd, nid yw'r ffordd yr ymdrinnir â phlant yn y llysoedd troseddol ar hyn o bryd yn cynnig digon o gyfle i ddeall yr hyn sy'n achosi eu troseddu. Nid oes modd i'r llysoedd fod yn hyblyg wrth ddefnyddio dedfrydau ac ni fydd gan ynadon fawr ddim rhan os o gwbl yn goruchwylio cynnydd plentyn yn sgil y ddedfryd a roddwyd. Mae rhai plant wedi dweud y byddent yn croesawu rhyw fath o ddilyniant gyda'r ynadon ac yn teimlo y gallai hynny gyfrannu at eu hadsefydlu. Er mwyn i blant gael y cymorth sydd ei angen arnynt i roi'r gorau i droseddu, rwy'n cynnig system newydd o Baneli Plant a all fynd ati i adsefydlu plant fel unigolion, a gwneud gwell defnydd o ynadon a phobl eraill sydd â phrofiad o weithio gyda phlant.

99. Bydd Paneli Plant yn gwahaniaethu'n glir rhwng y broses a ddilynir i sefydlu euogrwydd mewn achosion a wrthwynebir a'r broses benderfynu ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd i wneud iawn am niwed ac i adsefydlu'r plentyn, a monitro'r

[27] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Criminal justice system statistics quarterly: Rhagfyr 2015. https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2015

[28] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2016) Proven reoffending statistics quarterly: Gorffennaf 2013 tan Fehefin 2014, Tabl C2b. https://www.gov.uk/government/collections/proven-reoffending-statistics

camau hynny. Bydd y llysoedd yn dal i gyflawni'r gyntaf o'r swyddogaethau hyn; bydd y Paneli Plant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr ail wrth ddatblygu a goruchwylio Cynllun ar gyfer y plentyn.

## Gwella cyfiawnder i blant yn y llys.

100. Lle bynnag y bo modd, dylid ymdrin â throseddu gan bobl ifanc yn anffurfiol y tu allan i'r llys; ond, os bydd angen erlyn, efallai na fydd angen cynnal gwrandawiad yn y llys o dan rai amgylchiadau. Bydd nifer fawr o blant yn ymddangos yn y llys ar hyn o bryd ar ôl pledio'n euog i fân drosedd neu drosedd tro cyntaf. Yr unig opsiwn dedfrydu sydd ar gael i'r llys o safbwynt realistig yw Gorchymyn Atgyfeirio, ac ni fydd telerau hwnnw'n cael eu pennu yn y llys hyd yn oed. O dan system newydd y Paneli Plant, dylid ystyried a ddylid cynnal gwrandawiadau llys dim ond pan fydd plentyn yn pledio'n ddieuog, neu pan fydd yr achos mor ddifrifol nes bod rhaid ei gynnal a rhoi'r ddedfryd yn Llys y Goron.

101. Mae'n bwysig hefyd, pan fydd plentyn yn cael ei erlyn, bod y broses yn digwydd yn ddi-oed ac yn cael ei chwblhau'n gyflym. Er mwyn i blentyn ddysgu yn ei sgil ei gamgymeriadau, rhaid i ganlyniadau'r trosedd ddilyn yn gyflym. Mae plant wedi dweud eu bod yn rhwystredig pan fydd prosesau'r llys yn llusgo ac yn teimlo bod eu bywyd ar stop nes bod yr achos wedi dod i ben. Mae oedi sylweddol cyn dechrau treial nid yn unig yn gwneud niwed i ddioddefwyr, mae hefyd yn tanseilio'r effaith a gaiff proses y llys ar y plentyn a'r ddedfryd a gaiff. Gall wythnosau fod yn gyfnod hir ym mywyd plentyn, ac weithiau, bydd ei amgylchiadau wedi gwaethygu y tu hwnt i reolaeth erbyn i'r llysoedd allu delio a'r trosedd gwreiddiol. Yn yr un modd, nid yw'n ddymunol bod plant yn cyrraedd y Llys Ieuenctid ar ddechrau diwrnod yr eisteddiad a bod yn rhaid iddo aros i'r treial neu'r gwrandawiad dedfrydu ddechrau. Amser y dylai plant fod yn ei dreulio yn yr ysgol, yn y coleg neu'n hyfforddi yw hwn. Dylid prysuro penderfyniadau ynghylch cyhuddo, ymddangos yn y llys (os bydd gofyn iddynt wneud hynny) a chynnull panel ar gyfer plant er mwyn iddynt sylweddoli beth yw canlyniadau eu gweithredoedd a pharchu'r system sy'n ymdrin â hwy. Rwy'n annog y farnwriaeth i ystyried eto beth y gellir ei wneud i flaenoriaethu achosion sy'n cynnwys plant a sicrhau na fyddant yn cael eu cadw'n aros yn y llys yn ddiangen.

102. Pan fydd rhieni a gofalwyr yn dod i'r llys gyda'u plentyn, byddant yn aml ar gyrion yr hyn sy'n digwydd. Mae ganddynt gyfraniad hollbwysig i'w wneud at les eu plentyn a'i adsefydlu a dylai fod ganddynt ran fwy hanfodol o lawer ym mhroses y llys. Wrth gwrs, mewn ambell achos, ni fyddai'n help i'r rhieni fod yn rhan o bethau, ond rhaid disgwyl rhagor gan rieni a gofalwyr. Dylai'r wŷs i'r llys ei gwneud yn glir bod disgwyl i'r ddau riant fod yn bresennol yn y gwrandawiad llys heblaw bod rhesymau penodol sy'n gysylltiedig â lles y plentyn dros beidio â mynnu hynny, a dylai plant sy'n derbyn gofal bob tro gael eu gofalwr neu eu gweithiwr cymdeithasol yn bresennol gyda hwy. Roeddwn yn arbennig o bryderus pan glywais bod y sefyllfa'n codi'n aml lle na fydd na gofalwyr na'r un cynrychiolydd o'r awdurdod lleol yn bresennol pan fydd plant sy'n derbyn gofal yn ymddangos y llys yn destun. Nid yw hyn yn dderbyniol, a phan fydd yn digwydd, dylai'r llys allu cyflwyno sylwadau i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol, ac os, bydd angen, mynnu eu bod yn rhoi esboniad i'r llys. Bydd gofyn i'r rhieni neu'r gofalwyr fod yn bresennol yn y Paneli Plant a bydd y panel yn aml yn gosod gofynion ar eu cyfer fel rhan o Gynllun (gan gynnwys ar gyfer rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef/hi). Bydd y Panel hefyd yn gallu cyfarwyddo'r rhiant neu'r gofalwr fel sy'n briodol, os bydd yn teimlo bod gofyn gwneud hynny.

103. Mae sicrhau bod plant yn ymwneud â phroses y llys, ei bod yn ddealladwy iddynt a'u helpu i roi eu tystiolaeth orau'n ddawn. Mae'r rheini sy'n cymryd rhan mewn achosion ieuenctid hefyd yn gorfod deall y gwahanol fframwaith cyfreithiol y maent yn gweithio o'i fewn, a'r ddyletswydd ar y llys i hybu lles y plentyn yn ogystal ag atal troseddu. Mae'r Llys Ieuenctid yn amgylchedd gwahanol iawn i'r llys ynadon i oedolion neu Lys y Goron a rhaid cydnabod hynny.

104. Mae ynadon ac aelodau Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n ymddangos yn y Llys Ieuenctid wedi cael eu hyfforddi'n benodol i ymgymryd â'r rolau hyn, ond nid oes gofyn i gyfreithwyr amddiffyn gael dim hyfforddiant arbenigol cyn ymddangos yn y Llys Ieuenctid. Mae'r broblem hon yn cael ei gwneud yn waeth am fod y ffioedd a delir i gyfreithwyr yn y Llys Ieuenctid yn is nag y byddent yn eu cael am yr un achos neu achos llai difrifol sy'n delio ag oedolyn yn Llys y Goron. Mae Cyngor y Bar a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn cydnabod bod angen i gyfreithwyr amddiffyn feddu ar y sgiliau priodol i weithio yn y Llys Ieuenctid. Bydd rhai siambrau a chwmnïau cyfreithwyr yn darparu hyfforddiant ychwanegol i gyfreithwyr sy'n gweithio yn y Llys Ieuenctid, ac mae Just for Kids Law yn darparu hyfforddiant i gyfreithwyr a bargyfreithwyr. Rwy'n credu bod dadl gref o blaid mynnu y dylai pob cyfreithiwr sy'n ymddangos yn y Llys Ieuenctid gael hyfforddiant penodol. Mae'n destun pryder mawr imi hefyd bod plant, mewn achosion sy'n aml yn gymhleth ac yn heriol, yn cael eu cynrychioli'n waeth yn y Llys Ieuenctid nag y byddai oedolyn yn Llys y Goron mewn achos sydd yr un mor ddifrifol. Rwyf felly'n argymell y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder adolygu strwythur ffioedd achosion a wrandewir yn y Llys Ieuenctid er mwyn codi eu statws a gwella ansawdd y gynrychiolaeth gyfreithiol i blant, a phan fydd hyn wedi'i wneud, y dylai Bwrdd Safonau'r Bar a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr gyflwyno hyfforddiant gorfodol i bob cyfreithiwr sy'n ymddangos yn y Llys Ieuenctid.

105. Ar ôl gweld nifer o dreialon yn Llys y Goron lle'r oedd plant yn ymddangos, fy marn i yw y dylid, os oes modd, sicrhau bod achosion yn cael eu gwrando yn y Llys Ieuenctid. Mae awyrgylch Llys y Goron yn ddigon i ddychryn plant ac mae ei brosesau a'r ffordd mae'r llys wedi'i osod yn anodd eu haddasu ar gyfer plant. Bûm yn siarad yn ddiweddar â bargyfreithiwr a fu'n ymwneud â threial dwy ferch a gyhuddwyd o lofruddiaeth a'i ddisgrifiad ef o'r awyrgylch yn y llys - sydd ar agor i'r cyhoedd a gohebwyr - oedd ei fod 'fel syrcas'. Mae'n anodd gweld, o dan amgylchiadau o'r fath, sut y gall y llys gyflawni ei ddyletswydd statudol i hybu lles y plentyn. Yn ogystal â hyn, anaml y bydd barnwyr Llys y Goron yn clywed achosion sy'n ymwneud â phlant, ac mae'n afrealistig disgwyl iddynt feithrin neu gynnal y sgiliau ar gyfer delio â phlant a'u rhieni. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried cyflwyno rhagdybiaeth y dylid gwrando pob achos sy'n cynnwys plant yn y Llys Ieuenctid, gan ddod â barnwyr addas o gymwys i mewn i oruchwylio'r achosion mwyaf cymhleth neu ddifrifol mewn achos sydd wedi'i addasu'n briodol. Dylid cadw Llys y Goron ar gyfer amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys achosion sy'n cynnwys cyd-ddiffynyddion sy'n oedolion, lle na fyddai er budd cyfiawnder ymdrin â'r plentyn ar wahân, ac ar gyfer dedfrydu troseddwyr sydd wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol. Yn y pen draw, pan fydd y Llys Ieuenctid wedi sicrhau safon gynrychiolaeth uwch a'r ffioedd a delir i gyfreithwyr y adlewyrchu'n well ddifrifoldeb yr achosion y mae'n ymdrin â hwy, gellid ystyried peidio â chynnal treialon plant yn Llys y Goron ragor.

106. Os oes rhaid gwrando achosion yn Llys y Goron, dylai barnwyr wneud rhagor i sicrhau bod proses y treial yn llai dychrynllyd ac yn haws ei deall. Dylid rhagdybio y dylai plant eistedd yn ffynnon y llys gyda'u rhieni a chyfreithwyr. Ni ddylid ond rhoi

plant yn y doc diogel os oes perygl iddynt ddianc neu ymddwyn yn dreisgar ac ni ddylai'r ffaith bod plentyn wedi'i gadw ar remand diogel olygu ei fod yn cael ei roi'n awtomatig yn y doc diogel. Dylai'r llys osgoi llunio'r un tybiaethau am blant ag y mae'n eu llunio am oedolion. Ni waeth a fydd cyfyngiadau adrodd neu beidio, dylid cyfyngu nifer y newyddiadurwyr ac aelodau'r cyhoedd yn y llys i lond llaw bob dydd, gydag unrhyw ohebwyr ychwanegol yn gwylio'r treial ar sgrin mewn ystafell ar wahân yn y llys.

107. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried hefyd a ddylid diwygio'r gyfraith am gyfyngiadau adrodd mewn achosion pobl ifanc er mwyn iddynt gael eu rhoi ar waith yn awtomatig yn Llys y Goron (fel y maent ar hyn o bryd yn y Llys Ieuenctid) pan fydd plant yn gysylltiedig ag ymchwiliadau troseddol ac am oes diffynyddion ifanc. Nid yw'r sefyllfa bresennol i bob golwg yn foddhaol, oherwydd mae'n bosibl i blentyn sydd dan amheuaeth gael ei enwi yn ystod ymchwiliad yr heddlu, cyn i achos troseddol yn y llys ddechrau hyd yn oed. Gall hyn danseilio unrhyw gyfyngiad adrodd am bobl ifanc a fydd yn berthnasol yn y llys yn ddiweddarach. Yn yr un modd, pan fydd y plant yn troi'n 18 oed, gellir cyhoeddi eu henw unwaith eto ac fe allai hyn danseilio'u hadsefydlu oherwydd byddai modd cael gwybod pwy oeddent ar y rhyngrwyd er y byddai eu heuogfarn o bosibl wedi darfod at ddibenion cofnodion troseddol.

## System newydd y Paneli Plant

108. Bydd cyflwyno'r Paneli Plant yn trawsnewid y ffordd y mae'r system cyfiawnder yn delio â phlant a geir yn euog o drosedd drwy ddisodli'r rhan fwyaf o'r dedfrydu sy'n digwydd yn y llys ar hyn o bryd. Bydd y Panel yn ymchwilio i achosion ymddygiad y plentyn, gan gynnwys unrhyw faterion iechyd, lles ac addysg, ac yn rhoi Cynllun trwyadl ar waith i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r troseddu gan roi sicrwydd i ddioddefwyr a chymunedau bod yr ymddygiad yn cael sylw. Bydd y Panel wedyn yn monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun fel sy'n briodol. Bydd yr un aelodau o'r Panel yn goruchwylio'r Cynllun nes iddo gael ei gwblhau. Bydd y monitro a'r dilyniant hwn gan un person yn cael ei weld yn elfen hanfodol yn llwyddiant y llysoedd 'datrys problemau' yn yr Unol Daleithiau[29], ac mae tystiolaeth mai un o'r ffactorau allweddol o ran plant yn rhoi'r gorau i droseddu yw eu bod yn teimlo bod rhywun o sylwedd yn meddwl amdanynt ac â'u lles gorau mewn golwg gan gredu eu bod yn gallu newid[30]. Bydd llawer o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid, yn enwedig y rheini sydd mewn gofal, heb gael y profiad hwnnw erioed.

109. Byddai plant yn cael eu cyfeirio at Banel pan fyddent yn pledio'n euog i gyhuddiad neu wedi'u cael yn euog yn y Llys Ieuenctid. Byddai plant a ddedfrydwyd i lai na dwy flynedd yn y ddalfa gan Lys y Goron yn cael eu cyfeirio at Banel hefyd. Mae'n hanfodol bod y bwlch rhwng y trosedd a chyfarfod cyntaf y panel cyn fyrred â phosibl. Mae'n wrthgynhyrchiol i asiantaethau gwblhau asesiadau hirfaith o'r plentyn

---

[29] Porter, R., Rempel, M., a Mansky, A. (2010). What makes a court problem solving?: Universal performance indicators for problem-solving justice. Center for the Court Innovation. http://www.courtinnovation.org/sites/default/files/What_Makes_A_Court_P_S.pdf

[30] Gweler er enghraifft: Adler, J. R., Edwards, S., Scally, M., Gill, D., Puniskis, M. J., Gekoski, A., a Horvath, M. A. (2016). What works in managing young people who offend? A summary of the international evidence. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. http://eprints.mdx.ac.uk/18848/1/youth-justice-review.pdf. Arolygiaeth Prawf EM (2016) Desistance and Young People http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/desistance-and-young-people/

os bydd hynny'n golygu bod y plentyn, erbyn i'r Panel i gyfarfod, wedi suddo i drobwll dyfnach o droseddu heb gael yr help sydd ei angen arno.

110. Bydd y Panel yn cynnwys tri ynad lleyg - o bosib o blith cnewyllyn newydd o ynadon sydd wedi'u hyfforddi i weithio mewn ffordd wahanol gyda phlant - a byddant yn gallu ymgynnull mewn unrhyw adeilad addas, megis neuadd y dref, ysgol neu swyddfeydd y gwasanaeth troseddau ieuenctid. Bydd un o'r aelodau hyn yn cadeirio'r Panel. Yng nghyfarfod cyntaf y Panel, bydd yn datblygu Cynllun i adsefydlu'r plentyn. Bydd y plentyn yn dod i'r cyfarfod gyda'i rieni neu ei ofalwyr a gweithiwr allweddol o'r awdurdod lleol, a bydd ganddo'r hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ogystal, caiff y Panel ofyn i weithwyr proffesiynol megis athrawon neu weithwyr iechyd fod yn bresennol, neu fe allant ofyn am wybodaeth ychwanegol i'w helpu i benderfynu.

111. Rhaid i'r Cynllun y mae'r Panel yn ei ddatblygu gyflawni nodau adsefydlu'r plentyn, gan hybu ei les a gwarchod dioddefwyr a'r cyhoedd rhag niwed. Yn hytrach na bod yn gyfres o ofynion neu waharddiadau syml y mae'n rhaid i blentyn beidio â'u torri, bydd y Cynllun yn cynnwys nodau penodol a chadarnhaol er mwyn i'r Panel allu mesur llwyddiant a'i gydnabod. Bydd y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr yn cymryd rhan weithredol ym mhroses cynllunio'r Cynllun a monitro'i gyflawni, gyda'r holl bartïon - gan gynnwys y plentyn - yn cael eu dal yn atebol, a hynny drwy ddulliau cadarn, am eu cyfraniad at ei lwyddiant. Cyhoeddir y canlyniadau - gydag enwau ac unrhyw fodd arall o adnabod y plentyn wedi'u dileu - er mwyn i'r broses fod yn agored ac yn dryloyw.

112. Rhaid i'r Panel edrych ar yr anawsterau y mae plentyn yn eu hwynebu yn eu cyfanrwydd a'r risg y maent yn eu peri, gan ddatblygu Cynllun sy'n nodi'n glir y camau i'w cymryd er mwyn eu goresgyn. Gallai'r Cynllun gynnwys ystod o opsiynau, megis proses cyfiawnder adferol, rhaglen addasu ymddygiad, gwneud iawn i'r dioddefwr neu i'r gymuned (er y dylid cysylltu hyn bob tro â sgil neu gymhwyster a fydd yn help i'r plentyn ddod o hyd i waith neu hyfforddiant), presenoldeb yn yr ysgol, y gwaith neu'r coleg, neu gymorth neu gysylltiad gan wasanaethau iechyd, lles, tai neu wasanaethau eraill. Gall y Cynllun osod disgwyliadau ar gyfer rhieni neu ofalwyr, gofal cymdeithasol, tai, iechyd a gwasanaethau addysg, a gallai gynnwys darparu dosbarthiadau rhianta neu therapi teulu amlsystemig. A dibynnu ar ddifrifoldeb y troseddu, bydd y Cynllun hefyd yn gallu gorfodi cyfyngiadau ar ryddid y plentyn, gan gynnwys cyrffywiau, cyfyngiadau teithio, monitro electronig, goruchwyliaeth ddwys neu, os bydd pethau'n mynd i'r pen, lleoli'r plentyn mewn Ysgol Ddiogel neu ddalfa o fath arall. Rhaid i'r elfennau hyn yn y Cynllun ymateb i'r risg amlwg y mae'r plentyn yn ei pheri. Rhaid datblygu'r Cynllun o fewn canllawiau dedfrydu cyffredinol a bennir gan yr uwch farnwriaeth i wneud yn siŵr ei fod yn deg ac yn gymesur, a rhaid i'r Panel allu cael gafael ar gynghorwyr cyfreithiol.

113. Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys proses a fydd yn galluogi'r Panel i arolygu'r achos yn rheolaidd. Bydd telerau'r adolygiad hwn a pha mor aml y caiff ei gynnal yn amrywio, a dibynnu ar anghenion y plentyn a difrifoldeb y troseddu. Pan fydd y troseddu'n llai difrifol neu pan na fydd anghenion y plentyn yn gymhleth, byddai cynnwys y Cynllun yn syml, a byddai'r Panel yn monitro drwy ddulliau braidd-gyffwrdd. I droseddwyr mynych, a'r rheini sydd â phroblemau lles sydd wedi bwrw gwreiddiau, mae'n debygol y bydd Cynllun mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu a'r Panel yn goruchwylio'i ddarpariaeth drwy fynd ati'n fwy penodol i ddilyn dull datrys problemau. Ni ddylai fod gan yr un plentyn, serch hynny, fwy nag un Cynllun. Ac ystyried natur gymhleth ymddygiad troseddol rhai plant a'u hanes, dylid cyfeirio

euogfarnau newydd at Banel presennol y plentyn er mwyn i hwnnw benderfynu a ddylid diwygio'r Cynllun presennol ynteu llunio un newydd. Bydd angen i aelodau'r panel sicrhau bod y broses adolygu'n gadarnhaol ac yn gefnogol ac nad yw'n dod yn fecanwaith lle bydd plentyn yn cael ei dynnu ymhellach i mewn i'r system gyfiawnder yn ddiangen. Bydd yr adolygiadau hyn yn darparu lefel o graffu lleol ar wasanaethau i blant sy'n troseddu nad oes byth modd ei wireddu o'r canol, a bydd hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn cael eu dal yn atebol er mwyn gwneud yn siŵr bod y plentyn a'i deulu'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

114. Bydd aelod o'r Panel, y plentyn, y rhieni neu'r gofalwyr a gweithiwr allweddol awdurdod lleol y plentyn bob tro'n bresennol yn yr adolygiadau Mae'n bosibl y gwahoddir eraill yn ôl yr angen, ond ni fyddai angen cynrychiolaeth gyfreithiol oni chynigid newid y Cynllun yn sylweddol. Bydd yr adolygiad yn gyfle i'r aelod o'r Panel weld sut mae'r plentyn yn camu ymlaen, a bydd yn gyfle iddo ymateb yn gyflym i lwyddiannau a methiannau, a llacio a chryfhau'r gofynion yn ôl y gofyn. Bydd yr aelod o'r Panel hefyd yn sicrhau bod y partïon eraill yn cyflawni eu rhan hwy'n gwireddu'r Cynllun a bydd ganddo'r pŵer i ymchwilio os bydd yr awdurdod lleol, neu'r gwasanaethau iechyd, er enghraifft, wedi methu â chyflawni'r camau y maent wedi cytuno iddynt yn y Cynllun. Petai angen, byddai cadeirydd y Panel yn gallu gofyn i uwch-gynrychiolydd o'r asiantaeth berthnasol fod yn bresennol a darparu gwybodaeth ychwanegol neu ymateb i bryderon. Os bydd yr aelod o'r Panel yn teimlo y dylid newid y Cynllun yn sylweddol, bydd y Panel llawn yn cael ei ailgynnull a byddai gan y plentyn yr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol. Bydd y Panel yn gallu cryfhau neu lacio telerau'r Cynllun, dileu neu ychwanegu telerau, neu gwtogi cyfnod y Cynllun neu ei derfynu os bydd y plentyn yn gwneud yn dda. Bydd y Cynllun fel arall yn parhau hyd at ei derfyn fel y'i pennwyd ymlaen llaw.

115. Bydd cyfansoddiad y Paneli'n hanfodol o ran sicrhau eu llwyddiant. Rhaid iddynt gynnwys aelodau sy'n gallu ymgysylltu â phlant a'u cymell, ac sydd â'r grym a'r annibyniaeth i ddal asiantaethau'n atebol. Bydd llawer o ynadon presennol sydd wedi'u hyfforddi ym maes gwaith ieuenctid yn cael eu denu at y rôl hon ac yn addas iawn ar ei chyfer, ond fe hoffwn hefyd weld ystod ehangach o bobl yn camu ymlaen, yn enwedig y rheini sydd â phrofiad yn gweithio gyda phlant. Mae'n hanfodol i'r Paneli beidio â chael eu gweld yn fân-lysoedd, ond yn ffordd gwbl wahanol o ddelio â phlant sy'n torri'r gyfraith. Bydd angen i ynadon presennol a recriwtiaid newydd gael hyfforddiant ychwanegol i'w galluogi i gyflawni'r rôl hon. Gyda'r aelodau iawn a'r ethos iawn, rwy'n credu bod gan Baneli'r potensial i sbarduno atebion wedi'u teilwra ar gyfer unigolion ac atebion lleol i droseddu, ac i gydweithio ac arloesi ar y cyd â gwasanaethau addysg, plant ac iechyd.

116. Serch hynny, mae'n bwysig na fydd system y Paneli Plant yn arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu herlyn. Dylid ymdrin â phlant bob tro ar haen isaf y system cyfiawnder ieuenctid, ac felly, mae'n hanfodol bod yr heddlu, yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd yn gweithredu cynlluniau dargyfeirio effeithiol sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau plentyn y tu allan i'r llys.

## Cynlluniau sy'n cynnwys elfen yn y ddalfa

117. Mewn achosion lle bydd plentyn wedi cyflawni trosedd difrifol, mae'n bosibl y bydd y Paneli'n penderfynu y dylai'r Cynllun gynnwys treulio cyfnod yn y ddalfa. Er y byddwn yn dymuno rhoi rhyddid sylweddol i Baneli benderfynu beth yw'r ymateb iawn ar gyfer plant unigol, am y rhesymau a nodwyd uchod, rwy'n credu y dylai'r llywodraeth ddileu neu gyfyngu'n sylweddol ar ddedfrydau byr yn y ddalfa. Os bydd

plentyn cael ei ddedfrydu i gyfnod yn y ddalfa, fy marn i yw y dylai dreulio o leiaf chwe mis yno (sy'n cyfateb i'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi 12 mis presennol). Yr unig eithriadau i hyn ddylai fod yr ychydig droseddau hynny y mae'r Senedd wedi pennu cyfnod gofynnol gorfodol ar eu cyfer. Rwy'n credu hefyd y dylai fod rhagdybiaeth na fydd Paneli Plant ond yn cynnwys elfen yn y ddalfa mewn Cynllun i blant dan 16 oed o dan amgylchiadau eithriadol, ac fel rheol, pan fyddant yn peri risg sylweddol i'r cyhoedd.

118. Bydd dedfrydau byr yn y ddalfa'n aml yn cael eu rhoi ar ôl i'r llys ystyried pob opsiwn arall a'i fod wedi colli amynedd â'r troseddwr, ond ni ddylid anfon plant i'r ddalfa oherwydd bod gwasanaethau yn y gymuned wedi methu â delio â hwy. Rwy'n credu y gallai'r ffaith bod modd i Baneli ddatblygu Cynlluniau hyblyg a chadarn sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer troseddwyr mynych ddatrys y broblem hon a chynnig dewis amgen llawer mwy effeithiol nag y mae'r dedfrydau cymunedol presennol. Credaf hefyd, os yw Ysgolion Diogel yn mynd i gynnig gwasanaethau addysg ac adsefydlu gwell o lawer mewn amgylchedd therapiwtig, bod angen iddynt gadw'r plant am gyfnod ystyrlon - chwe mis o leiaf - cyfnod sy'n fwy tebyg i flwyddyn ysgol academaidd.

119. Mae'n hanfodol, serch hynny, bod y llywodraeth yn monitro newid o'r fath yn ofalus, er mwyn sicrhau na chaiff plant a fyddai wedi cael dedfryd fer yn y ddalfa'n cael eu hanfon yno'n hytrach am gyfnod hwy. Dylai unrhyw Gynllun cymunedol neu un sy'n cynnwys elfen yn y ddalfa roi lles y plentyn wrth ei galon gan sicrhau'r dioddefwr a'r cyhoedd y byddant yn cael eu cadw'n ddiogel ac y caiff y plentyn ei helpu i newid. Dylai'r llywodraeth adolygu effeithiau'r trothwy newydd hwn ar gyfer cadw plant yn y ddalfa, yn enwedig ei effaith ar gyfraddau aildroseddu, ac, yn y dyfodol, dylai ystyried ei godi i 12 mis.

120. Os bydd Cynlluniau'n cynnwys cyfnod yn y ddalfa, byddant hefyd yn cynnwys targedau i'r plentyn a'r sefydliad eu cyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw. Dylai staff yr Ysgol Ddiogel lywio'r rhain a dylent gymryd rhan mewn adolygiadau gan y Panel yn ystod y cyfnod y bydd y plentyn dan glo. Dylid cynnal y cyfarfodydd adolygu hyn yn y ddalfa ei hun, a bydd y Panel yn gallu argymell mwy o ryddid megis rhyddhau dros dro er mwyn galluogi'r plentyn i fynd allan i'r ysgol, i'r gwaith neu i'r coleg yn ystod y dydd, neu i wobrwyo cynnydd tua diwedd cyfnod y plentyn drwy ganiatáu iddo dreulio nosweithiau gartref. Os bydd y plentyn wedi methu â chadw at delerau'r Cynllun, bydd gan y Panel y pŵer hefyd i ganiatáu i'r cyfnod yn y ddalfa barhau hyd at y terfyn un a ddiffiniwyd ymlaen llaw er mwyn ei gwblhau'n llwyddiannus. Yn anad dim, bydd y Cynllun hefyd yn darparu ar gyfer rhyddhau'r plentyn o'r ddalfa i sicrhau ei fod yn gallu ailafael yn ddi-fwlch â'i fywyd yn y gymdeithas. Bydd y paneli'n gallu ystyried amserau tymor yr ysgol neu'r coleg pan fyddant yn gorfodi cyfnodau yn y ddalfa, er mwyn i'r plant allu gadael mewn pryd i ddechrau ar eu cyrsiau.

121. Os bydd plentyn yn cael ei ddedfrydu yn Llys y Goron ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol (o dan a.90 neu a.91 o Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol 2000, neu adran 226B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003), bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y Panel i ddatblygu Cynllun ar gyfer amser y plentyn hwn yn y ddalfa ac, os nad oes bwriad ei drosglwyddo i garchar oedolion, ei ryddhau i'r gymuned.

## Defnyddio llai ar remand diogel

122. Drwy ddileu'r opsiwn o ddedfrydu rhywun i gyfnod byr yn y ddalfa, byddwn yn gobeithio gweld llai o blant yn cael eu cadw ar remand diogel gan y llysoedd

oherwydd eu bod yn annhebygol o gael eu dedfrydu i gyfnod dan glo - sef y maen prawf ar gyfer defnyddio remand diogel. Serch hynny, mae gormod o blant o hyd yn cael eu cadw ar remand diogel gan y llysoedd pan fyddai modd gwneud trefniadau amgen. Hoffwn weld a ellid cyflwyno rhagor o newidiadau i'r amodau ar gyfer cadw pobl ifanc ar remand yn y ddalfa er mwyn sicrhau mai dim ond pan na fydd dewis arall y gwneir hyn.

123. Mae awdurdodau lleol bellach yn ariannol atebol am eu plant sy'n cael eu rhoi ar remand diogel, ond ychydig o gyfle fydd iddynt fuddsoddi'r arian hwn mewn llety amgen neu, cyn hynny, mewn gwaith ataliol. Bydd datganoli, dros gyfnod, y cyllid a'r comisiynu ar gyfer pob agwedd ddalfeydd ieuenctid, yn gymhelliant cryfach byth i awdurdodau lleol ddefnyddio llai ar remand diogel.

# Pennod 5 – Ysgolion diogel

## Beth yw pwrpas cadw pobl ifanc yn y ddalfa?

124. Mae'r adolygiad hwn yn glir, a'r canllawiau dedfrydu i'r llysoedd hefyd, sef na ddylid ond anfon plant i'r ddalfa pan na fydd yr un dewis arall, ac y dylid ystyried lles y plentyn wrth benderfynu ynghylch unrhyw ddedfryd. Os yw plant wedi cyflawni troseddau treisgar difrifol, rhaid i'r dioddefwyr fod yn sicr eu bod hwy a'r cyhoedd ehangach yn cael eu gwarchod rhag rhagor o niwed. Pan anfonir plant i'r ddalfa, y gosb yw eu bod yn cael eu hamddifadu rhag eu rhyddid. Yn y ddalfa, bydd plant yn colli eu rhyddid a hefyd eu cysylltiad uniongyrchol â'u teulu a'u ffrindiau. Y nod wedyn yw eu helpu i oresgyn eu hanawsterau, mynd i'r afael a'r hyn sydd wedi achosi eu troseddu a'u paratoi i ailymuno'n llwyddiannus a'r gymdeithas ar ôl eu rhyddhau. Bydd llawer o'r plant sy'n troseddu'n dod o deuluoedd cymhleth a chythryblus. Mae patrymau troseddu wedi bwrw gwreiddiau yn eu bywydau ac mae angen cryn help arnynt i newid. Mae'n ddealladwy ei bod yn demtasiwn anfon plant i'r ddalfa er mwyn mynd i'r afael â'u problemau niferus, ond dylid ymatal rhag gwneud hyn. Ni ddylid defnyddio 'trwsio plant' yn rheswm dros eu hanfon i'r ddalfa. Serch hynny, os bydd plant yn cael eu carcharu, mae'n ddyletswydd foesol ar y wladwriaeth i'w trwsio.

## Ystâd y dalfeydd ieuenctid heddiw

125. Mae rhyw 900 o bobl ifanc dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cadw yn y ddalfa.[31]. Yn 2008, ar gyfartaledd, nifer y plant a gedwid mewn dalfeydd i bobl ifanc oedd rhyw 3,000. Mae'r gostyngiad sylweddol a chyflym hwn ym mhoblogaeth y bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa wedi dylanwadu'n fawr ar gyfansoddiad yr ystâd ddiogel ac mae'r BCI yn gostwng nifer y lleoedd sydd ym mhob un o dri sector y dalfeydd ieuenctid. Er 2009 mae dros 2,000 o leoedd mewn STI wedi'u datgomisiynu, gan gynnwys cau 12 sefydliad unigol. At hynny, mae Canolfan Hyfforddi Diogel (CHD) Hassockfield yn Sir Durham wedi cau, ac mae 95 o leoedd mewn Cartrefi Diogel i Blant (CDiB) wedi'u Datgomisiynu.

126. Canlyniad hyn yw ystâd lai o ddalfeydd i bobl ifanc, ond mae'n un sydd wedi'i chreu drwy addasu ystâd a oedd yn anfoddhaol yn hytrach na bod hyn yn gynllun bwriadol. Oherwydd bod llai o ddalfeydd ar gael i bobl ifanc erbyn hyn, ar gyfartaledd, bydd plant yn awr yn cael eu lletya ymhellach oddi cartref, sy'n golygu teithiau hwy i'r llys ac oddi yno a thanseilio'r ymdrechion i'w hadsefydlu. Yn yr un modd, mewn ystâd sy'n llai o faint, mae wedi dod yn fwy anodd rheoli'r tarfu a'r problemau sy'n gysylltiedig â pherthyn i gangiau.

127. Ar gyfer y boblogaeth lai o bobl ifanc yn y ddalfa a'r rheini'n cynnwys y plant mwyaf cythryblus sy'n troseddu'n fynych, mae gofyn cael gwell gwasanaethau a staff medrus. Rwyf wedi gweld lefel ymrwymiad, penderfyniad a dewrder y staff sy'n gweithio dan amgylchiadau eithriadol o anodd er mwyn gwneud eu sefydliadau'n fannau mwy diogel ac adeiladol i blant. Y gwirionedd, serch hynny, yw bod llawer o'r

---

[31] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth custody report: Medi 2016. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data

staff sy'n gweithio mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel heb y sgiliau a'r profiad i reoli'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed a heriol dan eu gofal. Nid ydynt ychwaith wedi cael digon o hyfforddiant i gyflawni'r rolau anodd hyn. Mae’r sefyllfa’n waeth oherwydd prinder staff yn STI y sector cyhoeddus. Mae hyn wedi golygu bod plant yn treulio gormod o amser yn eu celloedd ac nad ydynt yn gallu cael gafael i raddau digonol ar wasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau adsefydlu, neu eu bod yn cael gofal gan aelodau o'r staff nad ydynt yn eu hadnabod.

128. Canlyniad hyn yw bod lefelau trais wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, o ran ymosodiadau ar blant ac ar staff. Gwelwyd nifer yr ymosodiadau bob mis fesul 100 o bobl ifanc yn y ddalfa'n codi o 9.0 yn 2009/10 i 16.2 yn 2014/15[32]. Mae'n ymddangos hefyd bod natur rhywfaint o'r trais hwn yn newid ac mae ymosodiadau gan grŵp o blant ar un plentyn unigol wedi dod yn fwy cyffredin. Yn aml, y plant sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd setlo yw'r rheini sy'n bwrw dedfrydau byr neu sydd wedi'u cadw ar remand. Nid yw'r plant hyn yn y sefydliad yn ddigon hir i gael sylw i'w hanawsterau addysg, iechyd neu gymdeithasol, ac nid ydynt ychwaith yn ymaddasu i reolau a disgwyliadau'r drefn nac yn eu derbyn.

129. Er mwyn lleihau aildroseddu a thrawsnewid bywydau'r plant sy'n dod i mewn i'r ystâd ddiogel, yn wyneb yr holl heriau y mae'r boblogaeth hon eu cyflwyno, mae angen newid y system bresennol o gadw pobl ifanc yn y ddalfa o'i chwr.

## Iechyd yn y ddalfa

130. Mae iechyd plant yn y system cyfiawnder troseddol yn aml yn destun pryder mawr, ond mae problemau iechyd yn arbennig o ddwys ymhlith y rheini sy'n mynd i mewn i'r ystâd ddiogel. Mae gan dros draean o'r plant yn ystâd y dalfeydd ieuenctid anhwylder iechyd meddwl, a haenau o anghenion eraill yn aml yn rhan o hynny, sy'n golygu eu bod yn garfan gymhleth ac agored i niwed i'w hasesu a'u trin. Mae'n bosibl yn wir bod y ffigurau hyn yn tanamcangyfrif y broblem, oherwydd bod y bywydau cythryblus y bydd cynifer o blant yn yr ystâd ddiogel yn eu byw'n golygu nad ydynt erioed wedi'u cyfeirio at y gwasanaethau iechyd meddwl, neu eu bod wedi methu â dod i'w hapwyntiadau. Bydd iechyd corfforol plant yn y ddalfa hefyd yn aml yn wael. Bydd llawer heb ymweld â meddyg neu ddeintydd ers blynyddoedd, ac felly, bydd rhai'n cyrraedd y ddalfa â phroblemau ar eu golwg neu ar eu clyw heb iddynt gael diagnosis a bydd hyn wedi effeithio ar eu haddysg. Bydd gan lawer broblemau sy'n gysylltiedig â deiet gwael neu ddefnyddio cyffuriau ac alcohol.[33]

131. Mae cyfnod yn y ddalfa'n gyfle i gynnal asesiadau trwyadl a dechrau mynd i'r afael â llawer o'r problemau hyn. Er y bydd llawer o blant yn ymadael â'r ddalfa'n iachach o ran corff na phan wnaethant gyrraedd, rwy'n poeni nad yw'r un cynnydd i'w weld bob tro o ran mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl plant. Mae gwella iechyd meddwl plant yn rhywbeth a ddylai fod yn llinyn drwy ddiwylliant a gwaith y sefydliad i gyd, ac nid dim ond yn wasanaeth ychwanegol a gynigir drwy gyfrwng sesiynau

---

32 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth justice annual statistics: 2014 tan 2015, Tabl 8.14. https://www.gov.uk/government/collections/youth-justice-statistics

33 Gweler er enghraifft: Hughes, N., Williams, H., Chitsabesan, P., Davies, R., & Mounce, L. (2012) Nobody made the connection: The prevalence of neurodisability in young people who offend. Llundain: Comisiynydd y Plant Gyateng, T., Moretti, A., May, T., a Turnbull, P. J. (2013). Young people and the secure estate: needs and interventions. Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

therapi wythnosol. Er mwyn gwneud cynnydd go iawn, mae angen i blant fod mewn amgylchedd therapiwtig lle bydd pawb sy'n gweithio yn y sefydliad yn deall yr hyn sydd ei angen i helpu plant i ymdopi'n well a mynd i'r afael ag achosion gwraidd eu troseddu ac sydd â'r arbenigedd a'r ymrwymiad i gyflawni hyn. Yn aml, bydd angen triniaeth neu ymyriad dwys cyn i'r plentyn allu ymgysylltu ag addysg a gweithgareddau eraill, a rhaid i'r drefn ddarparu ar gyfer hyn. Mae'r ysgolion gorau sy’n cynnig darpariaeth amgen a chyfleusterau iechyd preswyl yn llwyddo i integreiddio gwasanaethau iechyd, lles ac addysg fel hyn, a rhaid i'r dalfeydd ar gyfer pobl ifanc ddysgu yn sgil y rhain i ddatblygu ymagwedd sy'n cael ei llywio gan ystyriaethau seicolegol. Mae'n hanfodol wedyn, ar ôl i blant gael eu rhyddhau, eu bod yn dal i gael y cymorth sydd ei angen arnynt gan wasanaethau cysylltiedig yn y gymuned.

132. Er mwyn integreiddio pethau ar y lefel hon, a gwella canlyniadau addysg ac aildroseddu plant a gedwir yn y ddalfa, bydd angen i'r ddarpariaeth iechyd fod yn elfen amlycach o lawer wrth gomisiynu, arwain a llywodraethu dalfeydd ieuenctid.

## Addysg yn y ddalfa

133. Mae cysylltiadau cryf rhwng addysg a throseddu. Mae lefelau llythrennedd neu rifedd hanner y bobl ifanc 15-17 oed sy'n mynd i mewn i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylid gan blentyn 7 - 11 oed. Dywedodd rhyw 40% o'r bobl ifanc a holwyd mewn STI dan 18 nad oeddent wedi bod yn yr ysgol ers iddynt fod yn 14 oed, a dywedodd bron naw o bob 10 eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol ar ryw bwynt[34]. Yn fy marn, sicrhau bod plant mewn addysg neu gyflogaeth amser llawn yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o’u hatal rhag troseddu[35].

134. Gwelwyd ymdrechion yn ddiweddar i ganolbwyntio rhagor ar addysg yn y ddalfa, ond araf fu'r cynnydd. Mae contractau addysg newydd yn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc y Sector cyhoeddus yn addo 30 awr o addysg yr wythnos, ond ar gyfartaledd, dim ond 15 awr y bydd plant yn y sefydliadau hyn yn eu cael. Mae prinder staff a'r ffaith bod lefelau trais yn cynyddu wedi golygu nad yw'r uchelgais hon wedi'i gwireddu, ac mewn ambell achos, rhaid i blant aberthu treulio amser yn cymdeithasu â'u cyfoedion er mwyn mynychu dosbarthiadau. Ar brydiau, mae'n ymddangos bod contractau addysg yn rhwystro plant rhag cael gafael ar y sesiynau therapi neu gyfarfodydd â'r TTI neu weithwyr camddefnyddio sylweddau. Os ydym wedi creu sefyllfa lled oes cymhelliant i blant ddysgu yn y ddalfa, mae'n amlwg bod eu cyfyngu, rheoli risg a sefydlu prosesau unffurf wedi dod yn bwysicach na'r hyn sydd orau iddynt. Yn hytrach na pharatoi plant ar gyfer bywyd ar y tu allan, yn rhy aml mae'r sefydliadau hyn i bob golwg yn dysgu plant sut mae goroesi yn y carchar.

135. Nid yw'r dulliau addysgu a ddefnyddir drwy'r ystâd ddiogel wedi newid i'r un graddau ag y maent yn ein hysgolion. Roeddwn yn synnu o glywed cyfeirio at "arddulliau dysgu" plant er bod tystiolaeth glir nad yw dulliau addysgu o'r fath nac yn angenrheidiol nac yn effeithiol. Yn yr un modd, rwy'n poeni o ddifri am sut mae plant yn dysgu darllen. Roedd llawer o'r athrawon y siaradais â hwy yn y dalfeydd yn methu â disgrifio sut y bydd plant yn cael eu dysgu i ddarllen yn y sefydliad. Dylid

[34] Arolygiaeth Carchardai EM (2015) Children in Custody 2014-2015: Atodiadau. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/children-in-custody-2014-15/

[35] Gweler er enghraifft: Machin, Stephen, Olivier Marie, a Sunčica Vujić (2011) The Crime Reducing Effect of Education. Economic Journal 121, 463-484.

defnyddio ffoneg wrth ddysgu plant i ddarllen yn y ddalfa, a rhaid i bob athro sy'n gweithio yn y dalfeydd ddeall y dull a ddefnyddir yn eu sefydliad er mwyn iddynt chwarae eu rhan.

136. Ni ddylid addasu'r hyn a ddisgwylir gan blant oherwydd bod eu bod weithiau'n ymddwyn yn heriol iawn. Mae'n demtasiwn mawr dewis yr opsiwn hawdd a gadael i blant wneud y dosbarthiadau neu'r cyrsiau y maent yn eu mwynhau fwyaf yn unig. Mae llawer o hyfforddiant galwedigaethol yn digwydd yn y ddalfa, ond mae angen sicrhau hefyd bod digon o ganolbwyntio ar flociau adeiladu Saesneg a mathemateg. Ychydig o swyddi sydd ar gael erbyn hyn lle nad oes angen lefelau da o lythrennedd a rhifedd. Ni waeth sut y byddant yn cyrraedd y ddalfa, rhaid i blant beidio â'i gadael yn dal i fethu darllen. Rwyf wedi clywed cwynion yn aml bod plant sy'n mynd i'r ddalfa'n methu gorffen eu cyrsiau neu sefyll arholiadau cyhoeddus y maent wedi bod yn gweithio tuag atynt ers blynyddoedd, ac nad yw rhai o'r cymwysterau y byddant yn eu hennill yn yr ystâd ddiogel fawr o werth iddynt wrth iddynt ymadael. Mae'r problemau strwythurol hyn yn golygu bod y siawns o fethu'n academaidd a datgysylltu oddi wrth fyd addysg yn fwy byth, ac felly'n tywys plant i gyfeiriad troseddu.

137. Nid oes digon o ddarpariaeth ychwaith i blant galluog sy'n medru cael y graddau uchaf yn eu TGAU gamu yn eu blaen i sefyll safon uwch a pharatoi ar gyfer y brifysgol. Mewn un achos, dywedodd un bachgen a oedd yn bwrw dedfryd hir sut yr oedd am fynd yn ei flaen i sefyll safon uwch mathemateg ar ôl cael A yn ei TGAU. Dywedodd y sefydliad nad oedd neb i'w ddysgu, eto i gyd lathenni i ffwrdd, mae yna ysgol ramadeg lwyddiannus a fyddai, rwy'n siŵr, drwy gyfrwng ei Hysgol Addysgu, wedi bod wrth ei bodd yn helpu. Mae hyn yn anffodus yn enghraifft o'r ynysu oddi wrth wasanaethau allanol ac arbenigedd sydd, yn rhy aml, yn nodweddu'r ystâd ddiogel. Gall yn rhwydd arwain at dderbyn y status quo a disgwyl rhy ychydig gan blant.

138. Rhaid i blant a gedwir dan glo gael addysg o'r safon uchaf gan weithwyr proffesiynol ardderchog er mwyn cywiro'r difrod a achoswyd yn sgil diffyg ymgysylltu a phresenoldeb anghyson. Efallai mai'r canfyddiad sy'n achosi'r pryder mwyaf yw mai anaml y gwelwyd y diwylliant o ddyhead a disgyblaeth mewn dalfeydd i bobl ifanc sydd i'w weld yn amlwg yn rhai o'r ysgolion gorau sy'n cynnig darpariaeth amgen - lle y bydd gan lawer o'r disgyblion yr un nodweddion â phlant sydd wedi'u carcharu. Hyd yn oed yn y dalfeydd hynny lle mae ansawdd yr addysg yn well, mae bwlch amlwg o hyd rhwng y ddarpariaeth hon a'r ddarpariaeth orau yn y gymuned.

139. Wrth geisio gwella'r sefyllfa hon, rhaid cydnabod mai dim ond i ryw raddau y gellir trwytho diwylliant dysgu adeiladol mewn amgylchedd carchar sy'n cael ei lywodraethu gan y rheolau a'r gweithdrefnau sydd ar waith - lle a sefydlwyd yn bennaf i gadw pobl dan glo. Rwy'n synnu o weld cyn lleied o ryddid sydd gan arweinyddion dalfeydd i bobl ifanc i arloesi neu i roi newidiadau ar waith yn eu trefniadaeth, i gomisiynu'r gwasanaethau sy'n ofynnol, neu hyd yn oed i recriwtio a hyfforddi eu staff eu hunain. Mewn STI rhaid iddynt geisio gwneud i fodel sydd wedi'i ddyfeisio ar gyfer oedolion weithio gyda phlant, ac mewn CHD, gall y bobl sy'n gweithredu'r drefn ddod yn gaethweision i'r llu o delerau sydd yn eu contract. At hynny, mae gwahanol reolau, gwahanol fframweithiau arolygu a gwahanol lefelau o adnoddau'n llyffetheirio sectorau'r dalfeydd ieuenctid.

140. Er mwyn gwireddu gweledigaeth radical o wahanol ar gyfer y dalfeydd ieuenctid, rhaid i'r llywodraeth edrych i gyfeiriad ysgolion darpariaeth amgen llwyddiannus.

Mae darpariaeth amgen yn disgrifio ysgolion i blant nad ydynt yn gallu ffynnu yn addysg y brif ffrwd, ac mae'r rhain yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau eraill a gynhelir gan ymddiriedolaethau academi neu gyrff y trydydd sector, a llawer o'r rheini'n arbenigo ym maes cefnogi plant sydd ag anawsterau ymddygiad. Yn y blynyddoedd diwethaf mae nifer o ysgolion rhydd sy'n cynnig darpariaeth amgen wedi agor yn Lloegr sy'n cael eu hariannu gan yr Adran Addysg ac awdurdodau lleol, ac mae llawer o'r rhain wedi bod yn hynod effeithiol yn gweithio gyda rhai o'r plant mwyaf heriol sydd wedi'u gwahardd o ysgolion y brif ffrwd. Mae'r rhain yn cynnwys Everton in the Community a Derby Pride, y ddau gynllun yn gysylltiedig â chlybiau pêl-droed lleol, Stone Soup Learns sy'n cael ei gynnal gan fudiad trydydd sector yn Nottingham ac Academi of Central Bedfordshire a sefydlwyd gan grŵp o ysgolion y brif ffrwd. Mae'r ysgolion gorau sy'n cynnig darpariaeth amgen yn cyfuno addysgu trwyadl, safonau uchel o ran ymddygiad, â'r dull therapiwtig sydd ei angen i sicrhau bod plant yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r dysgu. Dyma'r arbenigedd sydd ei angen yn y dalfeydd ieuenctid.

## Ysgolion Diogel

141. Er mwyn sicrhau bod addysg mewn gwirionedd wrth galon trefn y dalfeydd ieuenctid, rwy'n credu ei bod yn rhaid i'r llywodraeth feddwl o'r newydd am garchardai i bobl ifanc a'u gweld yn ysgolion. Rwy'n cynnig y dylid creu Ysgolion Diogel. Sefydliadau llai i gadw hyd at 60-70 fydd y rhain a byddant yn cael eu lleoli yn y rhanbarthau y maent yn eu gwasanaethu. Dylid eu sefydlu o fewn y ddeddfwriaeth ar gyfer ysgolion, a'u comisiynu yn Lloegr mewn modd tebyg i ysgolion rhydd sy’n cynnig darpariaeth amgen. Dylid eu llywodraethu a'u harolygu fel ysgolion. Yn hytrach na cheisio mewngludo addysg i garchardai i bobl ifanc, dylid creu ysgolion i blant sydd wedi cael dedfryd i'w cadw dan glo a dylai'r rheini ddwyn ynghyd wasanaethau hanfodol eraill, gan roi'r trefniadau diogelwch angenrheidiol wedyn ar ben y rheini. Mae angen i raglenni addysg, iechyd ac ymatal rhag troseddu fod wrth galon y gwaith i adsefydlu plant.

142. Yn anad dim, bydd gan benaethiaid yn yr Ysgolion Diogel hyn yr annibyniaeth a'r hyblygrwydd i recriwtio a hyfforddi eu staff eu hunain, i gomisiynu gwasanaethau cymorth hanfodol (gan gynnwys rôl gryfach yn comisiynu gwasanaethau iechyd megis iechyd meddwl a therapi lleferydd), er mwyn sefydlu'r dull ar gyfer rheoli ymddygiad a gwobrwyo llwyddiant, ac yn sgil hyn, i greu diwylliant cynhyrchiol a therapiwtig a fydd yn codi cyrhaeddiad, yn gwella ymddygiad ac yn hybu adsefydlu. Bydd plant yn cael pecyn cymorth ac addysg wedi'i deilwra a fydd yn mynd i'r afael â'u hanawsterau a'u hymddygiad troseddol, yn ogystal â rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymwysterau iddynt a fydd yn eu helpu i lwyddo ar ôl eu rhyddhau. Bydd yr ysgolion hyn hefyd yn cydweithio'n agos â rhieni a byddai ganddynt well cysylltiadau ag addysg a gwasanaethau eraill yn y gymuned, efallai fel rhan o ymddiriedolaeth sawl-academi, gan hybu trefniadau ailsefydlu mwy effeithiol a chyfle i barhau i fanteisio ar addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl eu rhyddhau. Bydd yr ysgolion hyn yn rhoi cymorth i blant ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymdeithas gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol ac yn ddiogel, rhoi mwy o gyfleoedd iddynt fynychu addysg a hyfforddiant yn ôl yn eu cymunedau.

143. Rhaid i gynnig iechyd gwell sydd wedi'i integreiddio fwy fod wrth galon yr Ysgolion Diogel er mwyn i blant oresgyn y problemau sydd wedi'u harwain i droseddu a'u rhwystro rhag camu ymlaen â'u haddysg. Bydd gan benaethiaid fwy o ddylanwad dros y ddarpariaeth iechyd mewn Ysgolion Diogel a rhan hanfodol yn y trefniadau comisiynu a goruchwylio, gan gynnwys gweithredu fel cyd-gomisiynydd ac eistedd

ar y bwrdd sy'n goruchwylio ansawdd a safon y gofal iechyd a ddarperir. Yn yr un modd, dylai'r arweinydd iechyd mewn Ysgol Ddiogel fod yn rhan o uwch dîm reoli'r sefydliad, a bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sy'n llywodraethu'r ysgol ddal y tîm uwch reolwyr yn atebol am bob agwedd ar y ddarpariaeth. Er mwyn creu ysgol lwyddiannus i'r plant mwyaf trwblus a heriol, rhaid sicrhau bod ethos sy'n cael ei lywio gan ystyriaethau seicolegol yn llifo drwy bob ymwneud â phlant.

144. Bydd ansawdd y staff mewn Ysgolion Diogel yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant y sefydliadau hyn. Rhaid i'r penaethiaid deimlo'n rhydd i recriwtio staff sydd â'r profiad, y sgiliau, yr angerdd a'r ymrwymiad i wella bywydau plant eithriadol o heriol. Er fy mod yn credu bod llawer o'r staff sy'n gweithio yn ystâd bresennol y dalfeydd ieuenctid heb eu harfogi i gyflawni eu rolau anodd, rwyf hefyd yn credu bod y model staffio a fabwysiadwyd yn y sefydliadau hyn yn golygu bod problemau ymgysylltu â phlant a'u diogelu'n waeth. Bydd STI a CHD yn cyflogi llawer o athrawon, gweithwyr iechyd a staff i gynnig cymorth bugeiliol, ond mae ganddynt hefyd nifer fawr o warcheidwaid a swyddogion a phrif rôl y rhain yw rheoli plant, gorfodi rheolau ac atal ac ymateb i anhrefn a thrais. Credaf fod cael grŵp penodol o staff yn cyflawni'r rôl hon mewn gwirionedd yn cynyddu'r risg o drais, ac mae'n bosibl iddynt ddisgyn yn ôl ar drefniadau gorfodi neu atal plant yn gorfforol wrth ddod wyneb yn wyneb â phlentyn gwrthwynebus. Nid oes gan ysgolion sy’n cynnig darpariaeth amgen ac ysgolion preswyl arbennig grŵp o staff fel hyn oherwydd bod gan bawb sy'n gweithio yno brofiad ac arbenigedd yn gweithio gyda phlant, atal a rheoli gwrthdaro, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau drwy gynnig cefnogaeth a dyfalbarhau. Yn yr un modd, ni fydd cartrefi diogel i blant yn cyflogi grŵp o staff diogelwch ar wahân. Mewn Ysgolion Diogel, hoffwn weld gweithwyr addysg, iechyd a chymorth lles medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gyfrifol am reoli ymddygiad. Credaf y byddai hyn yn mynd ymhell i osgoi'r risg o gam-drin plant a gedwir dan glo ac y byddai'n fwy effeithiol, er enghraifft, na'i gwneud yn ddyletswydd gonestrwydd i'r staff.

145. Rwyf wedi trafod â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Addysg sut y gellid comisiynu Ysgolion Diogel yn Lloegr a'u llywodraethu, gan ddwyn ynghyd y dyletswyddau a'r camau diogelu sy'n berthnasol i'r ddalfa a'r rheini sy'n berthnasol i ysgolion. Bydd angen i'r adrannau gydweithio'n agos i ddatblygu'r fframwaith ar gyfer Ysgolion Diogel. Yn y tymor byr i'r tymor canol, rwy'n rhagweld y bydd lleoedd mewn Ysgolion Diogel yn cael eu comisiynu gan y llywodraeth ganolog, ond yn y tymor hwy, dylid datganoli'r cyfrifoldeb am gomisiynu a'r gyllideb ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa i ardaloedd lleol neu gyrff rhanbarthol (gweler Pennod 2 above). Dros gyfnod, byddwn yn disgwyl i Ysgolion Diogel ddisodli'r rhan fwyaf o ddarpariaeth bresennol y dalfeydd ieuenctid. Bydd angen darpariaeth fwy arbenigol o hyd ar gyfer y plant ieuengaf a mwyaf agored i niwed a gaiff eu rhoi ar remand neu eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa fel a ddarperir ar hyn o bryd gan y CDiB.

146. Mae'r sefyllfa'n wahanol yng Nghymru lle mae'r cyfrifoldeb dros addysg wedi'i ddatganoli i lywodraeth Cymru. Bydd angen i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid creu Ysgolion Diogel yng Nghymru, gan sicrhau bod cysondeb cyffredinol yn y dull ond gan ei deilwra i adlewyrchu'r trefniadau datganoledig a sicrhau ei fod wedi’i integreiddio â gwasanaethau ehangach i blant yng Nghymru.

147. Rwy'n falch, yn sgil fy adroddiad interim, fod nifer o ysgolion a sefydliadau wedi dangos diddordeb mewn sefydlu Ysgol Ddiogel yn Lloegr. Cyn cyflwyno deddfwriaeth i greu Ysgolion Diogel, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran

Addysg archwilio'r cyfle i sefydlu Ysgolion Diogel sy'n fabwysiadwyr cynnar o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol er mwyn profi elfennau allweddol o'r model.

148. Wrth ddatblygu rhwydwaith o Ysgolion Diogel, rhaid i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Addysg roi sylw penodol i'r ddarpariaeth ar gyfer merched. Ar hyn o bryd mae llai na 40 o ferched yn yr ystâd ddiogel i bobl ifanc [36], ac mae eu hanghenion yn aml yn wahanol iawn i anghenion bechgyn. Mae llawer o'r merched sydd yn y ddalfa wedi dioddef cam-drin ac yn eithriadol o agored i niwed, ac mae hunan-niweidio'n beth cyffredin yn eu plith. Oherwydd hyn, bydd llawer yn cael eu lletya mewn CDiB. Credaf fod y model Ysgolion Diogel yn gallu diwallu anghenion y rhan fwyaf o ferched gan ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i bob plentyn. Nid wyf yn cynnig y dylai'r llywodraeth greu Ysgolion Diogel i ferched yn unig oherwydd byddai hyn yn debygol o arwain at blant yn cael eu lleoli ymhell iawn o'u cartref, gan beryglu eu perthynas â'r teulu a gofalwyr a'i gwneud yn fwy anodd iddynt ailsefydlu. Er bod penaethiaid darpariaeth amgen ac ysgolion arbennig yn brofiadol yn cynnal sefydliadau deuryw, gan addysgu rhai o'r bechgyn a'r merched mwyaf heriol, bydd angen i'r trefniadau comisiynu, llywodraethu ac arolygu roi sylw penodol i ddiwallu anghenion merched mewn lleoliad diogel lle bydd bechgyn yn y mwyafrif mawr.

149. Dylid meddwl yn ofalus hefyd am ddiwallu anghenion plant trawsrywiol a gedwir yn y ddalfa. Comisiynodd yr Ysgrifennydd Gwladol adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth i bobl drawsrywiol, gan gynnwys y rheini sydd o dan 18 oed, yn ein system garchardai, ac rwyf wedi bod yn cysylltu â swyddogion sy'n cefnogi'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i blant trawsrywiol, yn ogystal ag i oedolion trawsrywiol.

## Gwell ailsefydlu

150. Pan gaiff plant eu rhyddhau o'r ddalfa mae’n hanfodol eu bod yn cael eu hailsefydlu'n effeithiol er mwyn iddynt barhau â'u hadsefydlu ac er mwyn lleihau aildroseddu. Mae gofyn sicrhau ymagwedd gydlynol gan y sefydliad diogel, a chan y gwasanaethau addysg, iechyd tai, gwasanaethau cymdeithasol a throseddau ieuenctid. Bydd llawer o blant yn ei chael hi'n anodd rheoli'r cyfnod pontio wrth ymadael ag amgylchedd caeedig a chyfyng lle na chânt wneud llawer o benderfyniadau drostynt eu hunain, a bod yn rhydd unwaith eto yn ôl yn y gymuned. Anaml y bydd y plant hyn wedi cael cyfle i gael eu rhyddhau dan drwydded dros dro er mwyn ymaddasu i'r newid hwn. At hynny, yn aml, ni fydd plant yn gwybod ymhle y byddant yn byw tan ychydig ddiwrnodau cyn iddynt gael eu rhyddhau. Gall hyn fod am nifer o resymau, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch a wnaiff eu teuluoedd eu derbyn yn ôl, diffyg paratoi digonol gan yr awdurdod lleol i ddod o hyd i lety addas, a chyndynrwydd ar ran yr awdurdod lleol i dalu ymlaen llaw i gadw llety ar gyfer plant pan gânt eu rhyddhau. Disgrifiodd un gweithiwr mewn TTI sut y bu'n rhaid iddi ffonio adrannau gofal cymdeithasol a thai ei hawdurdod lleol ar y funud olaf i ddod o hyd i le i blentyn pan oedd wedi mynd i'w gasglu o'r ddalfa a hwnnw'n eistedd wrth ei hymyl yn y car.[37]

---

[36] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2016) Youth custody report: Ebrill 2016. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data

[37] Gweler er enghraifft: Adler, J. R., Edwards, S., Scally, M., Gill, D., Puniskis, M. J., Gekoski, A., a Horvath, M. A. (2016). Beth sy'n gweithio wrth reoli pobl ifanc sy'n troseddu? Crynodeb o'r dystiolaeth ryngwladol Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. http://eprints.mdx.ac.uk/18848/1/youth-justice-review.pdf.

151. Nid yw'r lefelau hyn o ansicrwydd yn dderbyniol. Mae plant eisoes yn bryderus wrth ymadael â'r ddalfa, ac i lawer, eu hymateb i'r pryder hwn yw mynd yn ôl at hen ffrindiau a hen arferion. Bydd rhai plant yn cael eu rhoi mewn llety anaddas a byddant yn dychwelyd i gysgu ar soffa ffrindiau yn hytrach nag aros yn rhywle lle nad oes neb yn gofalu amdanynt neu lle nad ydynt yn teimlo'n ddiogel. Rwyf wedi clywed bod plant sy'n derbyn gofal yn aml yn cael gweithiwr cymdeithasol gwahanol yn rheoli eu hachos ar ôl dod allan, ac os byddant yn symud i gartref gofal newydd, ychydig o wynebau cyfarwydd sydd yno'n aml, os o gwbl. Dylai awdurdodau lleol bob tro geisio sicrhau bod plentyn yn cadw'r un gweithiwr cymdeithasol yn ystod cyfnod yn y ddalfa.

152. Mae wedi fy synnu hefyd gynifer o blant rwyf wedi cyfarfod â hwy yn y ddalfa nad ydynt yn gwybod beth y byddant yn ei wneud ar ôl cael eu rhyddhau, a bod y gwahanol drothwyon ar gyfer triniaeth iechyd (yn enwedig iechyd meddwl) rhwng gwasanaethau'r ddalfa a gwasanaethau yn y gymuned yn golygu nad oes cymorth ar gael i blentyn pan gaiff ei ryddhau. Yn yr un modd, mae TTI wedi dweud ei bod yn anodd iddynt gysylltu â phlant yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa. Er mwyn i blant ailsefydlu'n dda, mae'n bwysig eu bod gwybod ymhle maen nhw'n mynd i fyw, cael rhywbeth ystyrlon i'w wneud- boed hynny'n waith ynteu'n addysg - yn ystod y dydd, a chael sylw i'w hanghenion meddygol – dyma dair colofn hollbwysig llwyddiant. Dylid gwneud rhagor i drefnu gwaith, addysg neu hyfforddiant i blant yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, er mwyn iddynt ddechrau ar gyrsiau'n ddi-oed ar ôl iddynt ddod gartref. Ni ddylai'r awdurdodau lleol aros nes i blant gael eu rhyddhau cyn cael lle iddynt mewn ysgol neu goleg neu ar gynllun hyfforddi. Dylai hyn ddigwydd ymlaen llaw, a dylai plant, lle bynnag y bo modd, allu ymuno a chyrsiau drwy drefniant rhyddhau o'r ddalfa yn ystod y dydd. Yn yr un modd, dylid ystyried sicrhau bod ysgolion a cholegau'n dal i gadw plentyn ar eu cofrestr os yw'r cyfnod y byddant yn ei dreulio yn y ddalfa'n 12 mis neu'n llai. Bydd y Paneli hefyd yn cadw mewn cof ddyddiadau'r tymhorau pan fyddant yn ystyried faint y dylai plant ei dreulio yn y ddalfa. Dylai gwasanaethau iechyd yn y ddalfa a'r tu allan iddi gydweithio i sicrhau bod plant yn cael eu trosglwyddo'n ddi-fwlch o'r naill i'r llall.

153. Rhan o'r anhawster yw'r ffordd y bydd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng yr awdurdod lleol, y gwasanaeth iechyd a'r sefydliad diogel. Nid yw'r cymhellion i awdurdodau lleol a dalfeydd reoli'r ailsefydlu mor gryf ag y dylent fod, ac wrth gymryd camau i ddatganoli comisiynu Ysgolion Diogel, bydd modd dechrau mynd i'r afael â'r system ddigyswllt hon. Bydd cyflwyno'r Paneli Plant yn help hefyd i sicrhau bod digon o gynllunio'n digwydd, o'r eiliad y bydd plant yn cael eu rhoi yn y ddalfa nes iddynt gael eu rhyddhau maes o law. Mae'r consortia ailsefydlu yn Lloegr a'r paneli cymorth i ailsefydlu yng Nghymru, a sefydlwyd gyda help y BCI, wedi dangos, pan fydd gwasanaethau'n dangos ymrwymiad ar y cyd, bod modd paratoi'n well ar gyfer rhyddhau plant. Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod pob plentyn yn gwybod ymhle mae'n mynd i fyw bythefnos o leiaf cyn ymadael â'r ddalfa, ac, os bydd plant mewn gofal, neu os na fyddant yn mynd i fyw yng nghartref y teulu, dylai fod cyfle iddynt ymweld â'r llety, gweld yr ystafell y byddant yn byw ynddi a chyfarfod â'r staff a fydd yn gofalu amdanynt.

154. Er mwyn rheoli'r cyfnod pontio rhwng symud allan o sefydliad caeedig a goruchwyliaeth yn y gymuned, dylai Paneli Plant a phenaethiaid Ysgolion ddefnyddio rhagor ar y drefn ryddhau dros dro. Gall hyn helpu i blant fagu mwy o annibyniaeth ac ymdeimlad o gyfrifoldeb ac, wrth ddefnyddio'r dychymyg, gall fod yn gymhelliant cryf i blant ymgysylltu â'r drefn yn y ddalfa a dangos y cynnydd y maent yn ei wneud. Rwy'n credu hefyd bod Ysgolion Diogel yn cynnig cyfle i gyflwyno

lefelau gwahanol o ddiogelwch mewn sefydliad, er mwyn i blant fagu mwy o annibyniaeth wrth iddynt gamu drwy eu dedfryd ac ennyn mwy o ymddiriedaeth.

## Rhoi statws derbyn gofal i blant ar remand

155. Pan newidiwyd y fframwaith remand o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, rhoddwyd statws derbyn gofal yn awtomatig i blant a gedwir ar remand mewn llety sy'n cadw pobl ifanc dan glo. Y nod oedd sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i gadw mewn cof y plant hynny sy'n cael eu remandio i'r ddalfa gan y llysoedd ac yn cynnig cymorth iddynt.

156. Er bod yr amcan yn glodwiw - a'i bod yn sicr yn destun pryder bod rhai plant ar remand yn diflannu o'n golwg ac felly'n mynd yn angof - nid wyf yn argyhoeddedig mai dyma'r ffordd orau o gyrraedd y nod. Mae llawer o'r plant sy'n cael eu rhoi ar remand yn y ddalfa nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn gofal oherwydd nad oeddent yn wynebu risg gartref. Fe ellid dweud bod rhoi statws derbyn gofal iddynt, a hwythau heb hyd yn oed eu dyfarnu'n euog, yn creu stigma'n ddiangen i deuluoedd. Wedi dweud hynny, yr ystyriaeth bwysicaf yw nad yw cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol dros blant sy'n derbyn gofal yn cydweddu'n dda â'r ffordd y mae ystâd y dalfeydd ieuenctid yn gweithio. Nid gan yr awdurdodau lleol ar hyn o bryd y mae'r gair olaf ynghylch ymhle y caiff plant eu lleoli nac ynghylch ansawdd y ddarpariaeth, ac felly maent yn straffaglu i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael darpariaeth briodol. Bydd cyflwyno Ysgolion Diogel sy'n llai ac yn fwy lleol, ac yn ei dro, datganoli'r gyllideb a'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer dalfeydd ieuenctid yn rhoi mwy o reolaeth i awdurdodau lleol dros ddarparu gwasanaethau'r dalfeydd i bob plentyn, boed y rheini'n derbyn gofal neu beidio.

157. Rwyf felly'n cynnig y dylid diwygio'r gyfraith er mwyn sicrhau mai dim ond plant sy'n derbyn gofal eisoes sy'n cadw'r statws hwn pan gânt eu rhoi ar remand neu pan gânt eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa.

## Arolygu Ysgolion Diogel

158. Am mai ysgolion ydynt, byddai'r sefydliadau hyn yn Lloegr yn cael eu harolygu gan Ofsted, gyda chymorth gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, a bydd gofyn iddynt gyrraedd yr un safonau ag ysgolion sy'n cynnig darpariaeth amgen yn y gymuned. Yng Nghymru, dylai'r Ysgolion Diogel gael eu harolygu gan Estyn, gyda chymorth AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Bydd angen addasu'r fframwaith arolygu i ysgolion er mwyn sicrhau bod craffu priodol ar y gwasanaethau diogelu, gwarchodaeth, iechyd ac adsefydlu mewn Ysgolion Diogel.

159. Ar ôl trafod gyda llawer o arweinyddion ac ymarferwyr yn ystod yr adolygiad, y berthynas rhwng plant mewn gofal, ysgolion preswyl a sefydliadau'r dalfeydd, credaf y dylai arolygiaethau geisio datblygu un fframwaith arolygu i blant sy'n byw oddi cartref mewn llety a gomisiynir neu a ddarperir gan y wladwriaeth. Mae'n iawn bod y plant hyn yn cael gofal gan oedolion sydd i gyd yn atebol ar sail yr un safonau craidd, er y gallai'r rheini gynnwys gofynion ychwanegol sy'n benodol i'r lleoliad (e.e. gwarchodaeth yn y ddalfa).

## Casgliad

160. Mae angen newid pethau'n sylweddol er mwyn trawsnewid natur ac effeithiolrwydd ystâd y dalfeydd ieuenctid, ond mae'r ddadl o blaid gwneud hynny'n gryf. Er mwyn

lleihau'r cyfraddau aildroseddu syfrdanol o uchel, mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl a gwella cyrhaeddiad addysgol plant yn y ddalfa, rhaid i'r llywodraeth fod yn barod i newid o'i chwr y ffordd y mae'n meddwl am ddalfeydd ieuenctid. Mae'r plant hyn, wrth gwrs, wedi cael eu rhoi yn y ddalfa oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau sy'n aml yn rhai difrifol ac oherwydd eu bod yn peri risg i'r cyhoedd, ond rhaid i'r gymdeithas beidio byth â rhoi'r gorau iddynt. Yn y pen draw, er mwyn iddynt lwyddo ar ôl cael eu rhyddhau, rhaid i ystâd y dalfeydd ddarparu'r hyn sydd ei angen ar y plant hyn er mwyn iddynt oresgyn eu problemau, yn hytrach na darparu'r hyn y maent o bosibl yn ei haeddu.

# Pennod 6 – Rôl llywodraeth ganol

## Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

161. Sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (BCI) gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gynnig arweiniad i'r system cyfiawnder ieuenctid. Un o gyrff cyhoeddus gweithredol anadrannol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r BCI ac mae'n cyflawni nifer o swyddogaethau gweithredol a chynghorol. Rhai o'i gyfrifoldebau statudol yw comisiynu darpariaeth y dalfeydd ieuenctid, gan hybu arferion da a monitro a chynghori gweinidogion am weithredu'r system cyfiawnder ieuenctid.

162. Yn sgil diwygiadau 1998, rhoddwyd arweiniad i'r system, ffurfiolwyd gwaith partneriaeth a sicrhawyd ffocws parhaus ar un o'r meysydd yn y system cyfiawnder troseddol a esgeuluswyd gynt. Mae'r dull hwn o weithio wedi dwyn ffrwyth ar ei amlycaf er 2007 pan ddechreuodd nifer y plant a oedd yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf a'r nifer yn y ddalfa ostwng ac mae'r gostyngiad hwnnw wedi parhau tan heddiw. Mae'r BCI yn haeddu llawer o glod am gyfrannu at y llwyddiant hwn. Mae aelodau'r bwrdd wedi cynnwys grŵp nodedig erioed o bobl sydd â phrofiad helaeth, ymarferol o gyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau ehangach i blant, ac mae wedi chwarae rhan bwysig yn goruchwylio'r system a chynghori gweinidogion. Fel sefydliad, mae'r BCI a'i staff wedi chwarae rhan amhrisiadwy'n codi proffil plant a phobl ifanc a chyfiawnder ieuenctid ar draws y llywodraeth ac o fewn adran sy'n canolbwyntio'n bennaf ar oedolion.

163. Drwy sefydlu canllawiau a safonau cenedlaethol â mecanweithiau'n gefn iddynt i fonitro perfformiad ac ansawdd gwasanaethau, daeth y BCI ag elfen drwyadl a phroffesiynol i'r ffordd yr oedd y model newydd y TTI yn gweithio. Hon oedd y ffordd iawn o fynd ati'n sicr ddechrau'r 2000au, ac fe ddilynwyd yr un math o ddull mewn llawer o wasanaethau cyhoeddus; ond, er bod y BCI bellach wedi llacio rhai o'i ofynion ynglŷn â'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan y TTI yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymdeimlad ymhlith ymarferwyr bod y system bellach wedi'i chanoli ormod, a bod eu rhyddid i arloesi'n cael ei lyffetheirio. Gan fod llai o blant yn y system, gall yr ymateb i droseddu gael ei deilwra'n well i anghenion lleol a dyna sut y dylai fod. Rhaid ei integreiddio fwy â gwasanaethau eraill sy'n gweithio gyda'r un grŵp o blant a'u teuluoedd. Dyma pam rwy'n cynnig system cyfiawnder ieuenctid fwy datganoledig gydag awdurdodau lleol yn ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau. Rhaid newid rôl y canol yn arwain y system er mwyn adlewyrchu'r dirwedd newydd hon.

## Yr her i'r canol

164. Mae'n amlwg y bydd llai o rôl o lawer i'r canol mewn system cyfiawnder ieuenctid fwy datganoledig. Bydd awdurdodau lleol yn darparu ac yn goruchwylio gwasanaethau troseddau ieuenctid mwy integredig, a bydd yr arolygiaethau'n monitro ansawdd a chanlyniadau. Gyda threigl amser, bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn Lloegr yn dod ynghyd i gomisiynu dalfeydd ieuenctid a bydd yr arian wedi'i ddatganoli gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Wedi dweud hynny, yn y dirwedd newydd hon, bydd swyddogaethau strategol a gweithredol pwysig o hyd y bydd yn rhaid i'r llywodraeth eu cyflawni.

165. Bydd Gweinidogion yn parhau i osod y trywydd strategol ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu'r canlyniadau, dulliau o fesur llwyddiant a'r fframwaith atebolrwydd i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, yn ogystal â gosod safonau gofynnol (yn hytrach na set helaeth o safonau cenedlaethol) i'w bodloni wrth gyflawni swyddogaethau statudol. Bydd arweiniad strategol cryf yn y system yn dod yn fwy pwysig mewn tirwedd ddatganoledig. Bydd angen i weinidogion allu cael gafael ar wybodaeth, data, ymchwil a chyngor o safon i sefydlu strategaethau a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd angen i lywodraeth y Deyrnas Unedig gydweithio'n glos â llywodraeth Cymru i sicrhau bod y strategaeth cyfiawnder ieuenctid yn rhoi sylw priodol i gyfrifoldebau datganoledig yng Nghymru.

166. Mae nifer o swyddogaethau gweithredol hefyd yn cael eu cyflawni gan y BCI y bydd angen i'r canol barhau i'w hysgwyddo mewn system fwy datganoledig:

- lleoli plant sy'n cael eu rhoi ar remand neu'n cael eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa gan y llysoedd a'r Paneli Plant mewn llety diogel;
- comisiynu a rheoli gwasanaethau hebrwng i gludo plant rhwng y llysoedd a'r dalfeydd;
- monitro dalfeydd ieuenctid (yn ogystal â'r rôl a gyflawnir gan yr arolygiaethau) i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni; a
- chynllunio i sicrhau a gwarantu bod digon o gapasiti yn y dalfeydd drwy Gymru a Lloegr.

167. Er na fydd y canol yn chwarae rôl uniongyrchol o ddydd i ddydd yn monitro perfformiad gwasanaethau troseddau ieuenctid lleol, mae ganddo rôl ganolog i'w chwarae'n hybu diwylliant o wella gyda chymorth cymheiriaid er mwyn i ymarferwyr edrych ar arferion effeithiol ac arloesol ei gilydd, a chomisiynu cymorth gan wasanaethau sy'n perfformio'n dda. Os bydd pryder sylweddol am berfformiad, neu wasanaethau neu sefydliadau sy'n methu, rhaid i'r canol allu ymyrryd yn yr un modd â phan fydd adrannau gwasanaethau plant yn methu.

## Sefydlu Swyddfa'r Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid

168. Er mwyn cyflawni'r trawsnewid hwn yn y system cyfiawnder ieuenctid gyda llai o rôl i'r canol, bydd angen sicrhau atebolrwydd clir i weinidogion. Rwy'n credu felly, y dylid dod â'r cyfrifoldebau a nodwyd uchod o dan reolaeth uniongyrchol gweinidogion, yn hytrach na'u dal hyd braich oddi wrth y llywodraeth.

169. Rwy'n cynnig bod y swyddogaethau a restrir uchod yn rhai y dylai Swyddfa'r Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid eu goruchwylio. Cyfarwyddiaeth benodol fyddai hon a gâi ei chreu yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Byddai'n disodli'r BCI ac yn dwyn ynghyd mewn un man y cyfrifoldeb dros bolisi cyfiawnder ieuenctid a'i wireddu. Bydd y gyfarwyddiaeth hon yn cael ei harwain gan y Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a bydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y strategaeth cyfiawnder ieuenctid, polisi a chyflawni ledled Cymru a Lloegr. Gellid recriwtio'r Comisiynydd o'r tu allan i'r adran er mwyn iddo/iddi gynnig y profiad perthnasol o weithio gyda phlant, ond byddai'n cael ei benodi'n was sifil sy'n gweithredu ar awdurdod dirprwyedig gweinidogion, yn hytrach nag yn benodai

cyhoeddus sy'n eistedd hyd braich oddi wrth weinidogion. Byddai'n cael ei gyfyngu i gyflawni dim ond y swyddogaethau penodol a nodir yn y ddeddfwriaeth. Dyma rai o gyfrifoldebau'r Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid:

- llunio proses ar gyfer sefydlu a goruchwylio Ysgolion Diogel mewn partneriaeth â'r Adran Addysg a llywodraeth Cymru;
- gosod safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid mewn awdurdodau lleol ac ymyrryd pan fydd pethau'n mynd o'u lle;
- gweithio gyda'r Adran Addysg ac Ofsted yn Lloegr a chyda llywodraeth Cymru ac arolygiaethau yng Nghymru, i bennu'r fframwaith atebolrwydd ac arolygu ar gyfer awdurdodau lleol ac Ysgolion Diogel;
- datblygu a goruchwylio'r system Paneli Plant; a
- goruchwylio'r trefniadau ar gyfer datganoli'r cyllido a'r comisiynu ar gyfer dalfeydd ieuenctid i bartneriaid lleol.

170. Yn y tymor hwy, dylid ystyried a ddylai Swyddfa'r Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid barhau i gael ei lleoli yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ynteu a ddylai symud i'r Adran Addysg yn Lloegr, sy'n gyfrifol am bolisïau sy'n ymwneud a phlant mewn meysydd eraill.

## Cael gafael ar gyngor arbenigol

171. Drwy gydol yr adolygiad mae ystod ac ansawdd cyrff y trydydd sector sydd â diddordeb mewn cyfiawnder a hawliau plant wedi creu argraff eithriadol arnaf. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol i'r llywodraeth allu cael gafael ar gyngor ac arbenigedd y grwpiau hyn, yn ogystal â barn arweinyddion systemau ac ymarferwyr ar y rheng flaen, o ran datblygu strategaeth a pholisi ac o ran monitro sut mae'r system yn cael ei gweithredu. Rwy'n cynnig y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sefydlu pwyllgor arbenigol ac annibynnol newydd er mwyn iddo allu cynghori a herio’r llywodraeth ynghylch ei hymagwedd at gyfiawnder ieuenctid a sut mae'r system yn cael ei gweithredu drwy Gymru a Lloegr.

# Pennod 7 – System cyfiawnder ieuenctid newydd

172. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y newidiadau sydd eu hangen er mwyn trawsnewid cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rwyf wedi disgrifio system newydd lle bydd pobl yn cael eu trin fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail, a sut y maent yn cael eu dal yn atebol am eu troseddu, ond gan ddeall mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid yn aml fydd drwy wella'u haddysg, eu hiechyd, eu lles a'u helpu i fanteisio ar eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain.

173. Yn y system ddiwygiedig, bydd cydnabyddiaeth helaeth ymhlith yr heddlu a'r llysoedd y dylid ymdrin â throseddau ieuenctid ar y lefel isaf bosibl, gan osgoi'r ymateb cynyddol diangen a fydd yn tynnu plant ymhellach i mewn i'r system ac yn gwneud niwed i'w rhagolygon mewn bywyd. Ac ystyried nodweddion cynifer o blant sy'n eu cael eu hunain mewn trwbl, ni fydd ymateb syml i'w troseddu gan y gwasanaeth cyfiawnder yn ddigon. Bydd gan awdurdodau lleol y rhyddid i ddefnyddio'u hadnoddau'n fwy hyblyg a byddant yn chwilio am ffyrdd newydd o weithredu. Bydd gwasanaethau troseddau ieuenctid yn cael eu hintegreiddio'n well â gwasanaethau plant a bydd anghenion lles plant sy'n troseddu'n cael sylw fel rhan o ymateb cydlynol dan arweiniad yr awdurdod lleol, ond gyda'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a phrawf yn ymrwymo i'w cefnogi. Bydd gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yn gweithredu mewn ffordd fwy hyblyg a bydd ganddynt fwy o uchelgais er mwyn i'r plant mwyaf agored i niwed o deuluoedd cythryblus gael yr help sydd ei angen arnynt. Bydd awdurdodau lleol yn dod yn gomisiynwyr craff iawn ar gyfer cartrefi gofal, lle bydd staff wedi'u hyfforddi'n dda i ddeall a rheoli ymddygiad plant ac ni fydd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu troseddoli dim ond oherwydd iddynt gyflawni trosedd dibwys. Pan fydd plant yn cael eu harestio, bydd yr heddlu'n ymdrin â hwy'n gyflym ac yn sensitif, a chyda chefnogaeth ymroddedig yr awdurdod lleol. Dim ond y rheini a gyhuddir o'r troseddau mwyaf difrifol a gaiff eu cadw yng nghelloedd yr heddlu neu ar remand yn y ddalfa.

174. Pa bryd bynnag y bydd modd, bydd plant yn cael eu dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol, gan gynnig cymorth iddynt yn y gymuned, ond, ar gyfer troseddau mwy difrifol, os bydd plant wedi cyfaddef i'r trosedd, neu'r llys wedi'u cael yn euog, byddant yn ymddangos gerbron un o'r Paneli Plant. Bydd y Paneli'n treulio amser yn deall natur ac achosion troseddu'r plentyn ac wedyn yn creu Cynllun i helpu'r plentyn i newid. Bydd y cynlluniau'n dal y plentyn yn atebol am ei ymddygiad ac yn gosod nifer o ofynion ar gyfer y troseddwr yn unol â chanllawiau dedfrydu. Bydd hyn hefyd yn gosod gofynion ar rieni neu ofalwyr, awdurdodau lleol (gan gynnwys gofal cymdeithasol a thai), gwasanaethau iechyd ac ysgolion. Bydd y Cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd pan fydd angen er mwyn sicrhau bod y plentyn a phawb arall sy'n ymwneud â'r Cynllun yn cyflawni eu rhan hwy o'r cytundeb. Bydd cynlluniau'n cael eu haddasu pan fydd pethau'n gweithio'n dda neu os bydd pethau'n mynd o'u lle. Bydd plant a fyddai wedi treulio cyfnodau byr yn y ddalfa, a hynny'n tarfu ar eu bywyd, bellach yn cael eu rheoli'n gadarn yn y gymuned. Disgwylir i blant fod yn brysur yn ystod y dydd - yn mynychu'r ysgol, y coleg neu waith.

175. Rhoddir anghenion dioddefwyr wrth wraidd y system cyfiawnder ieuenctid a lle bynnag y bo modd, defnyddir dulliau adferol er mwyn iddynt allu teimlo'n sicr bod y

plentyn yn deall effaith ei ymddygiad, a chyn belled ag y bo modd, yn gwneud iawn am hynny.

176. Ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, bydd y Panel yn anfon y plentyn i'w gadw mewn Ysgol Ddiogel. Bydd y sefydliadau newydd hyn yn y pen draw'n cael eu comisiynu a'u cyllido'n lleol. Byddant yn rhoi rhaglen astudio a chymorth dwys wedi'i theilwra i'r plentyn mewn amgylchedd therapiwtig sy'n seiliedig ar drefn dda. Bydd Ysgolion Diogel yn mynd i'r afael a'r hyn sydd wrth wraidd troseddu'r plentyn, gan gynnwys ei ymddygiad, ei iechyd meddwl a'i gyrhaeddiad addysgol. Bydd y Panel yn dal i adolygu cynnydd y plentyn yn yr Ysgol Ddiogel gan gydweithio'n agos â'r pennaeth a, lle bydd y plentyn yn gwneud yn dda a bod hynny'n ddiogel, byddwn yn gallu caniatáu i'r plentyn fynd i leoliadau gwaith, i'r ysgol neu i'r coleg y tu allan i'r sefydliad. Bydd y Panel hefyd yn gallu argymell rhyddhau'n gynnar y plant hynny sydd wedi ymroi'n arbennig o dda i'w cynllun. Os na fydd plant wedi gwneud cynnydd digon da, gall y Panel fynnu bod plentyn yn aros yn yr Ysgol Ddiogel tan ddiwedd cyfnod y ddedfryd. Bydd Ysgolion Diogel yn cael eu rhedeg gan benaethiaid sydd â'r un rhyddid i bennu diwylliant a recriwtio a hyfforddi staff ag a fyddai ganddynt yn ysgolion y brif ffrwd. Bydd plant yn agosach at eu cartref ac felly bydd Ysgolion Diogel yn gallu gweithio gyda rhieni ac ysgolion lleol, colegau, a'r gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol i sicrhau bod modd i'r plentyn ailafael yn effeithiol ac yn ddi-fwlch â'i fywyd yn y gymuned.

177. Wrth iddynt dyfu, bydd plant wrth gwrs yn gwneud camgymeriadau a bydd rhai ohonynt yn mynd yn eu blaen i droseddu. Bydd rhai troseddau'n eithriadol o ddifrifol ac yn achosi niwed difesur i ddioddefwyr a'u teuluoedd, a bydd y sawl sy'n gyfrifol am y rheini, a hynny'n gwbl gywir, yn cael eu dedfrydu i gyfnod hir yn y ddalfa, ond bydd y rhan fwyaf o'r troseddwyr hyn maes o law'n dod allan ac yn ailymuno â'u cymuned. Pan fyddant yn gwneud hynny, rhaid iddynt fod yn unigolion sydd wedi ymddiwygio ac wedi newid eu hymddygiad, rhaid iddynt fod yn iachach ac yn gallu ailafael ynddi fel aelodau cynhyrchiol o'r gymdeithas.

178. Dim ond drwy ymateb yn y ffordd integredig, ddi-fwlch a chydlynol yr wyf wedi ceisio'i disgrifio yn yr adolygiad hwn, y gall y llywodraeth a phartneriaid lleol atal rhagor o bobl rhag dod yn ddioddefwyr troseddau, lleihau'r cyfraddau aildroseddu ystyfnig o uchel, a rhoi i blant sy'n troseddu yr help sydd ei angen arnynt i wella.

179. Dylem anelu at greu trefn yn yr 21ain ganrif sy'n symud oddi wrth system gyfiawnder sy'n cynnwys mymryn o les a thuag at system les sy'n cynnwys cyfiawnder.

# Atodiad A – Rhestr o'r prif argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraeth Cymru, yr arolygiaethau, awdurdodau lleol a chyrff a gwasanaethau eraill. Anogir llywodraeth y Deyrnas Unedig i ystyried a gweithredu ar sail yr holl argymhellion yn yr adroddiad.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r prif argymhellion sydd ym mhob pennod. Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn cynnwys holl argymhellion yr adroddiad.

## Pennod 2 – System cyfiawnder ieuenctid fwy datganoledig

1. Dylai comisiynwyr a darparwyr iechyd yng Nghymru a Lloegr fachu ar y cyfle a gynigir yn sgil buddsoddi rhagor mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc er mwyn ailystyried sut y rhoddir cymorth iechyd meddwl i blant sydd mewn perygl – plant nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a'r rhai y maent yn eu haeddu. (Paragraff 27)

2. Dylai'r llywodraeth ddeddfu i ddileu'r gofyniad i awdurdodau lleol sefydlu tîm troseddau ieuenctid (TTI). Dylid trosglwyddo'r dyletswyddau statudol sy'n berthnasol i TTI i awdurdodau lleol, lle bo hynny'n briodol, a dylai'r dyletswyddau sydd ar hyn o bryd gan yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth addysg a'r gwasanaeth iechyd i gydweithio â gwasanaethau troseddau ieuenctid barhau. (Paragraff 37)

3. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder drosglwyddo'r arian y mae'n ei gyfrannu i'r TTI i system gyllid llywodraeth leol Lloegr, ac i'r cyllid y bydd llywodraeth Cymru'n ei ddarparu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, gan roi'r gorau i glustnodi cyllid a mynnu bod hyn yn cael ei wario'n gyfyng ar wasanaethau cyfiawnder. (Paragraff 39)

4. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder atal rôl y canol yn rheoli perfformiad o ddydd i ddydd y gwasanaethau troseddau ieuenctid, a dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol orfod cynhyrchu cynllun cyfiawnder ieuenctid blynyddol. (Paragraff 43)

5. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried eto a ddylai awdurdodau lleol allu defnyddio'u systemau asesu eu hunain, yn hytrach na defnyddio systemau sy'n cael eu rhagnodi o'r canol, gan sicrhau ar yr un pryd bod y llywodraeth ganolog yn dal i allu cael gafael ar y data sydd eu hangen arni. (Paragraff 44)

6. Ofsted ddylai arolygu gwasanaethau troseddau ieuenctid awdurdodau lleol yn Lloegr fel rhan o'r gwasanaethau plant. Yn yr un modd, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddylai arolygu gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghymru. (Paragraff 46)

7. Pan fydd partneriaid lleol wedi datblygu'r gallu sy'n ofynnol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddatganoli'r arian mae'n ei wario ar leoedd yn y ddalfa i'r ardaloedd lleol, i'r rhanbarthau neu i lywodraeth Cymru er mwyn iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gomisiynu eu darpariaeth ddiogel eu hunain. (Paragraff 52)

## Pennod 3 – Dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid

8. Dylai pob awdurdod lleol, yr heddlu a gwasanaethau iechyd gyd-ddarparu cynlluniau dargyfeirio i blant sy'n troseddu, gan ddilyn yr egwyddorion a restrir ym mharagraff 59. (Paragraff 59)

9. Ni ddylid cadw plant yn nalfa'r heddlu'n hwy na chwech awr oni fydd arolygydd, oherwydd difrifoldeb a chymhlethdod yr achos, yn awdurdodi estyn y cyfnod cadw gan roi rhesymau clir dros hynny. Yn ogystal â hyn, dylai'r Swyddfa Gartref ailystyried y cyfnodau adolygu statudol ar gyfer plant a gedwir yn swyddfa'r heddlu gyda golwg ar ostwng y rhain i dair awr. (Paragraff 62)

10. Dylai'r Swyddfa Gartref, awdurdodau lleol, yr heddlu, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr Adran Addysg a llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i gytuno ar set gyflawn o safonau cenedlaethol gorfodol ar gyfer cynlluniau oedolion priodol a dylid cynnal arolygiadau ar sail y rhain. Dylai'r safonau hyn gynnwys y materion hynny sydd ym mharagraff 67. (Paragraff 67)

11. Dylai Ofsted, AGGCC ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ystyried y ffordd fwyaf priodol o arolygu gwasanaethau oedolion priodol a datblygu fframwaith sy'n ystyried rolau'r awdurdod lleol o ran comisiynu'r gwasanaeth, a'r heddlu a'r awdurdod lleol ill dau'n gweithredu'r cynllun. (Paragraff 68)

12. Ni ddylai fod gofyn i blant wneud penderfyniad ynglŷn â gweld cyfreithiwr yn eu cyfweliad. Yn hytrach, dylid rhagdybio bod cyfreithiwr yn cael ei alw a chyngor cyfreithiol yn cael ei ddarparu, oni fydd y plentyn yn gofyn yn benodol am beidio â gwneud hynny. (Paragraff 69)

13. Dylai fod rhagdybiaeth o blaid rhyddhau plentyn a threfnu cyfweliad iddo fod yn bresennol yn wirfoddol neu ar fechnïaeth â chyfweliad wedi'i drefnu ymlaen llaw os na all cyfreithiwr fod yn bresennol o fewn dwy awr i arestio plentyn. (Paragraff 69)

14. Dylai'r Coleg Plismona gyflwyno hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud yn benodol â phlant ar gyfer holl ringylliaid y ddalfa. (Paragraff 70)

15. Er mwyn diwallu anghenion penodol merched pan fyddant yn nalfa'r heddlu, dylid neilltuo swyddog benywaidd penodol i unrhyw ferch o dan 18 oed a gaiff ei harestio a fydd yn gyfrifol am ei lles. (Paragraff 71)

16. Dylai'r heddlu, GEG, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd sefydlu protocolau lleol er mwyn i bob penderfyniad ynglŷn â chyhuddo roi sylw i'r asesiadau sgrinio iechyd a gynhelir yn nalfa'r heddlu neu yn sgil y trosedd, ac unrhyw wybodaeth berthnasol am y plentyn sydd gan yr awdurdod lleol. (Paragraff 74)

17. Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod staff cartrefi gofal wedi'u hyfforddi'n briodol i ddatrys mân ddigwyddiadau heb orfod mynd at yr heddlu, a dylid sefydlu protocolau gyda'r heddluoedd i gytuno ar ddull cymesur o ymdrin â throseddu mewn cartrefi gofal. (Paragraff 77)

18. Dylai'r Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, llywodraeth Cymru a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu gydweithio i sicrhau bod swyddogion yr heddlu'n gallu dibynnu'n llwyr ar eu crebwyll wrth ymateb i ddigwyddiadau a throseddau mewn cartrefi plant, a bod rhagdybiaeth na ddylid cymryd camau ffurfiol drwy'r drefn cyfiawnder troseddol oni fydd yr achos mor ddifrifol bod hyn yn gwbl

angenrheidiol. Dylai hyn gynnwys ystyried mabwysiadu protocol yr ysgolion gyda golwg ar fân droseddau a gyflawnir mewn cartrefi plant. (Paragraff 81)

19. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ddatblygu ffordd wahanol o ymdrin â throseddu yn ystod plentyndod yn y system cofnodion troseddol (paragraff 85). Dylai hyn gynnwys:

    - ystyried gwahaniaethu rhwng y rhai sydd o dan 15 oed a rhai 15-17 oed o ran goblygiadau cadw gwybodaeth am droseddu a'i datgelu; (Paragraff86)
    - cwtogi eto gyfnodau darfod euogfarnau yn ystod plentyndod; (Paragraff 87)
    - dylai pob trosedd yn ystod plentyndod (ac eithrio'r troseddau mwyaf difrifol) ddod yn rhai na ddylid eu datgelu ar ôl i gyfnod fynd heibio; (Paragraff 88) a
    - dylid cyfyngu eto ar yr amgylchiadau lle y gellir datgelu cudd-wybodaeth yr heddlu am ymddygiad yn ystod plentyndod. Dylai'r Swyddfa Gartref ystyried cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn datgelu cudd-wybodaeth yr heddlu sy'n deillio o gyfnod plentyndod ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. (Paragraff 89)

## Pennod 4 – Plant yn y llys

20. Dylai'r farnwriaeth ystyried eto beth y gellir ei wneud i flaenoriaethu achosion lle bydd plant yn ymddangos gan sicrhau na fyddant yn cael eu cadw'n aros yn y llys yn ddiangen. (Paragraff 101)

21. Dylai'r wŷs i'r llys ei gwneud yn glir bod disgwyl i'r ddau riant fod yn bresennol yn y gwrandawiad llys heblaw bod rhesymau penodol sy'n gysylltiedig â lles y plentyn dros beidio â mynnu hynny, ac fe ddylai plant sy'n derbyn gofal bob tro gael eu gofalwr neu eu gweithiwr cymdeithasol yn bresennol gyda hwy. (Paragraff 102)

22. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder adolygu strwythur ffioedd achosion a wrandewir yn y Llys Ieuenctid er mwyn codi eu statws a gwella ansawdd cynrychiolaeth gyfreithiol i blant. Pan fydd hyn wedi'i gwblhau, dylai Bwrdd Safonau'r Bar ac Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr gyflwyno hyfforddiant gorfodol i bob cyfreithiwr sy'n ymddangos yn y Llys Ieuenctid. (Paragraff 104)

23. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried cyflwyno rhagdybiaeth o blaid gwrando pob achos sy'n ymwneud â phlant yn y Llys Ieuenctid, gan ddod â barnwyr addas o gymwys i mewn i oruchwylio'r achosion mwyaf cymhleth neu ddifrifol mewn achos sydd wedi'i addasu'n briodol. (Paragraff 105)

24. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried hefyd a ddylid diwygio'r gyfraith am gyfyngiadau adrodd mewn achosion pobl ifanc er mwyn iddynt gael eu rhoi ar waith yn awtomatig yn Llys y Goron (fel y maent ar hyn o bryd yn y Llys Ieuenctid) pan fydd plant yn gysylltiedig ag ymchwiliadau troseddol ac y dylai'r cyfyngiad barhau gydol oes diffynyddion ifanc. (Paragraff 107)

25. Dylai'r llywodraeth gyflwyno system Paneli Plant newydd (paragraff 98) sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer:

    - plant yn cael eu cyfeirio at Banel pan fyddant yn pledio'n euog i gyhuddiad neu wedi'u cael yn euog yn y Llys Ieuenctid, neu wedi cael dedfryd o lai na dwy flynedd yn y ddalfa gan Lys y Goron; (paragraff109).

    - dylai'r Panel hwnnw gynnwys tri ynad sydd wedi'u hyfforddi'n benodol (paragraff 110)

    - yn bresennol yn y Paneli bydd y plentyn, ei rieni neu ei ofalwyr, cyfreithiwr a gweithiwr allweddol o'r awdurdod lleol, ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill y gall y Panel ddymuno iddynt fod yn bresennol gan gynnwys rhai o'r gwasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol; (paragraff110)

    - bydd y Panel yn ymchwilio i'r hyn sydd wedi achosi ymddygiad y plentyn, gan gynnwys unrhyw faterion iechyd, lles ac addysg, ac yn rhoi Cynllun trwyadl ar waith i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r troseddu ac yn rhoi sicrwydd i ddioddefwyr a chymunedau bod yr ymddygiad yn cael sylw; (paragraff 111)

    - bydd y cynlluniau'n gosod disgwyliadau ar gyfer rhieni, gofalwyr, gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai, iechyd ac addysg, a bydd pob parti - gan gynnwys y plentyn - yn cael i ddal yn gadarn atebol am ei gyfraniad at lwyddiant y cynllun; (paragraff 112)

    - cynlluniau sy'n cynnwys cyfnod o amser yn y ddalfa lle bydd hynny'n briodol ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol; (paragraff 112)

    - cynlluniau sy'n cynnwys proses ar gyfer adolygiadau rheolaidd o'r achos gan y Panel gyda'r cyfle i newid telerau'r Cynllun a dibynnu ar ei lwyddiant; (paragraff 113) a

    - chyhoeddi'r cynlluniau - gan ddileu enwau ac unrhyw fodd arall o adnabod y plentyn - er mwyn i'r broses fod yn agored ac yn dryloyw. (Paragraff 111)

26. Dylai'r Llywodraeth ddileu neu gyfyngu'n sylweddol ar ddedfrydau byr yn y ddalfa. Ni ddylai plentyn dreulio llai na chwe mis yn y ddalfa (sy'n cyfateb i'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi 12 mis presennol). Yr unig eithriadau i hyn ddylai fod yr ychydig droseddau hynny y mae'r Senedd wedi sefydlu cyfnod gofynnol gorfodol ar eu cyfer. (Paragraff 117)

27. Ni ddylid ond rhoi Cynllun i blant dan 16 oed sydd ag elfen ddalfa'n rhan ohono o dan amgylchiadau eithriadol, ac fel rheol, pan fyddant yn peri risg sylweddol i'r cyhoedd. (Paragraff 117)

28. Dylai'r llywodraeth fonitro newid o'r fath yn ofalus, er mwyn sicrhau na chaiff plant a fyddai wedi cael dedfryd o gyfnod byr yn y ddalfa bellach yn cael eu hanfon i'r ddalfa am gyfnod hwy. (Paragraff 119)

29. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried a ellid cyflwyno rhagor o newidiadau i'r amodau ar gyfer rhoi pobl ifanc ar remand dan glo er mwyn sicrhau mai dim ond pan na fydd dewis arall ar ôl y cânt eu rhoi yn y ddalfa. (Paragraff 122)

## Pennod 5 – Ysgolion Diogel

30. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr Adran Addysg a llywodraeth Cymru gydweithio i greu Ysgolion Diogel yng Nghymru a Lloegr sydd:

- yn cael eu creu o dan ddeddfwriaeth ysgolion, ac yn cael eu sefydlu, eu rhedeg, eu llywodraethu a'u harolygu fel ysgolion. Yn Lloegr dylid eu comisiynu mewn ffordd debyg i ddarpariaeth ysgolion amgen rhydd; (paragraff 141)

- yn lletya hyd at 60-70 o blant a'u lleoli yn y rhanbarthau y maent yn eu gwasanaethu; (paragraff 141)

- yn rhoi i benaethiaid yr annibyniaeth a'r hyblygrwydd i recriwtio a hyfforddi eu staff eu hunain, i gomisiynu gwasanaethau cymorth hanfodol (gan gynnwys rôl gryfach yn comisiynu gwasanaethau iechyd megis iechyd meddwl a therapi lleferydd), er mwyn sefydlu'r dull ar gyfer rheoli ymddygiad a gwobrwyo llwyddiant, ac yn sgil hyn, i greu diwylliant cynhyrchiol a therapiwtig a fydd yn codi cyrhaeddiad, yn gwella ymddygiad ac yn hybu adsefydlu; (paragraff 142)

- yn rhoi pecyn cymorth ac addysg wedi'i deilwra i blant a fydd yn mynd i'r afael â'u hanawsterau a'u hymddygiad troseddol, yn ogystal â rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymwysterau iddynt a fydd yn help iddynt lwyddo ar ôl eu rhyddhau;

- yn sicrhau bod y ddarpariaeth iechyd yn well ac wedi'i hintegreiddio fwy;**Error! Reference source not found.**)

- yn rhoi'r drefn rheoli ymddygiad yn nwylo gweithwyr cymorth addysg, iechyd a lles medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda. (Paragraff **Error! Reference source not found.**)

31. Dylai awdurdodau lleol bob tro geisio cadw'r un gweithiwr cymdeithasol yn ystod cyfnod plentyn yn y ddalfa. (Paragraff 151)

32. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob plentyn yn gwybod ymhle mae'n mynd i fyw bythefnos o leiaf cyn ymadael â'r ddalfa, ac os yw mewn gofal, neu os na fydd yn mynd i fyw yng nghartref y teulu, dylai fod cyfle iddo ymweld â'r llety, gweld yr ystafell y bydd yn byw ynddi a chyfarfod â'r staff a fydd yn gofalu amdano. (Paragraff 153)

33. Dylai'r gyfraith gael ei diwygio fel mai dim ond plant sy'n derbyn gofal eisoes sy'n cadw'r statws hwn pan gânt eu rhoi ar remand neu pan gânt eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa. (Paragraff 157)

34. Dylai Ysgolion Diogel yn Lloegr gael eu harolygu gan Ofsted, gyda chymorth gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, a bydd gofyn iddynt gyrraedd yr un safonau ag ysgolion darpariaeth amgen yn y gymuned. Yng Nghymru, dylai'r Ysgolion Diogel gael eu harolygu gan Estyn, gyda chymorth AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. (Paragraff 158)

## Pennod 6 – Rôl llywodraeth ganol

35. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder greu Swyddfa'r Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid. Cyfarwyddiaeth benodol fyddai hon a gâi ei chreu yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a fyddai'n disodli'r BCI ac yn dwyn ynghyd yn yr un lle y cyfrifoldeb dros bolisi cyfiawnder ieuenctid a'i wireddu. Byddai'r Comisiynydd Cyfiawnder Ieuenctid yn gyfrifol am y pethau a restrir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**. (Paragraff **Error! Reference source not found.**)

36. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sefydlu pwyllgor arbenigol newydd i herio a chynghori'r llywodraeth ynghylch ei hymagwedd at gyfiawnder ieuenctid a sut mae'r system yn cael ei gweithredu drwy Gymru a Lloegr. (Paragraff 171)

# Diolchiadau

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r llu o bobl sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn, ac am eu parodrwydd i roi cymaint o amser i'm tîm ac i minnau. Hoffwn ddiolch yn bennaf i lywodraethwyr, cyfarwyddwyr, rheolwyr a staff o bob rhan o'r ystâd ddiogel, ac arweinyddion y timau troseddau ieuenctid ac awdurdodau lleol a'r staff yr wyf wedi cyfarfod â hwy ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Hoffwn ddiolch yn benodol i Mary Gibson o Wandsworth, Ben Byrne o Surrey, Stewart Carlton o Swydd Lincoln, Gill Eshelby o Sir Durham, Chris Spencer o Harrow, Nigel Richardson o Leeds, Martin Pratt o Camden, Gareth Jones o Gymdeithas Rheolwyr y TTI, Alan Wood gynt o Hackney a Natalie Atkinson o Lambeth, Graham Robb o'r Campus Educational Trust, Steve Harte o Gyngor Dinas Caeredin, Robert Marshall a David Cottrell o Lywodraeth yr Alban, a Malcolm Schaffer o Weinyddiaeth Lladmeryddion Plant yr Alban a Michael Heaney o Adran Cyfiawnder Gogledd Iwerddon. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r holl blant yr wyf wedi cyfarfod â hwy yn ystod yr adolygiad sydd wedi rhannu eu profiadau gyda mi.

Hefyd, hoffwn ddiolch i holl gyrff y trydydd sector sydd wedi rhoi cymaint o wybodaeth a chyngor i'r adolygiad, gan gynnwys Juliet Lyon o'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Penelope Gibbs o'r Pwyllgor Sefydlog ar Gyfiawnder Ieuenctid, Richard White a Chris Stanley o Sefydliad Michael Seiff, Baillie Aaron o Spark Inside, Frances Crook o'r Howard League for Penal Reform, Rose Dowling a'r bobl ifanc o Leaders Unlocked, Nick Corrigan o Media Academy Caerdydd, David McGuire o'r Diagrama Foundation, Chris Bath o'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Oedolion Priodol, Chris Stacey o Unlock, Frances Lawrence, a Simon Vivian ymwelwyr carchar CEM Isis.

Diolch hefyd i Dominic Goble YH, James Scobie CF, Catherine Oborne, Russell Fraser, Ei Anrhydedd y Barnwr David Fletcher,Y Barnwr Rhanbarth Emma Arbuthnot, Frances Searle, Kate Aubrey-Johnson o Just For Kids Law, teulu Alfie Stone, Tim Bateman o Swyddfa Comisiynydd y Plant, yr Arglwydd Carlile CBE CF, yr Arglwydd Ramsbotham GCB CBE, Seamus Oates o TBAP, John D'Abbro o grŵp New Rush Hall , Roy Sefa-Attakora, Y Prif Gwnstabl Olivia Pinkney, Caroline Adams o heddlu Sussex a'r Syr Martin Narey. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r Gwir Anrh. Syr Brian Leveson, Llywydd Adran Mainc y Frenhines a'r Anrh. Mr Ustus William Davis.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i GIG Lloegr, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus, swyddogion yn yr Adran Addysg a llywodraeth Cymru, i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym Manceinion Fwyaf a Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddau yn Llundain, ac i Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM am eu cyfraniadau i'r adolygiad.

Diolch yn arbennig i holl staff Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr ac yn benodol i Karl Mittelstadt, Dusty Kennedy, Lin Hinnigan a'r Arglwydd McNally.

Rwyf wedi bod yn eithriadol o ffodus o gael cymorth tîm gwych Polisi Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac yn benodol, rwy'n hynod ddiolchgar i'm tîm ardderchog, Jonathan Childs, Amy Taylor, Loretta D'Costa, Meena Bhatti a Sunil Patel.

ISBN 978-1-4741-3487-3

9 781474 134873